# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro – Interim Managing Director

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU | | AUDIT AND GOVERNANCE COMMITTEE |
| DYDD IAU, 26 MAI 2016 am 2.00 o'r gloch yp | | THURSDAY, 26 MAY, 2016 at 2:00 pm |
| SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

Jim Evans, Dafydd Rhys Thomas a Richard Owain Jones

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Alun W Mummery a Nicola Roberts

**GRWP CHWYLDROAD/REVOLUTIONIST GROUP**

Peter Rogers

**Heb Ymaelodi/Unaffiliated**

R Ll Jones (Cadeirydd/Chair)

**ALEODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Mrs Sharon Warnes a Mr Richard Barker

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 15 MAWRTH, 2016** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:

- 15 Mawrth, 2016
- 12 Mai, 2016 (Ethol Cadeirydd/Is-Gadeirydd)

3 **COFNODI ARGYMHELLION** (Tudalennau 11 - 14)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth a Swyddog Adran 151 mewn perthynas â'r broses o gofnodi argymhellion Archwilio Mewnol ac argymhellion gan reoleiddwyr eraill.

4 **ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2015/16** (Tudalennau 15 - 90)

Cyflwyno adroddiad blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am 2015/16.

5 **ARCHWILIO ALLANOL - DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH PERFFORMIAD** (Tudalennau 91 - 96)

Cyflwyno diweddariad Rhaglen Waith Perfformiad Archwilio Allanol.

6 **ARCHWILIO ALLANOL - CYNLLUN ARCHWILIO 2016** (Tudalennau 97 - 116)

Cyflwyno Cynllun Archwilio 2016.

7 **ARCHWILIO ALLANOL - ARDYSTIO GRANTIAU A DYCHWELIADAU** (Tudalennau 117 - 142)

- Cyflwyno adroddiad ardystio grantiau a dychweliadau 2013/14 a 2014/15.
- Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Adnoddau a Swyddog 151.

8 **ADOLYGU PENODIAD AELODAU LLEYG** (Tudalennau 143 - 146)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151.

9 **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 147 - 148)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

**10** **<u>Y GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL</u>** (Tudalennau 149 - 160)

Cyflwyno'r Gofrestr Risg Corfforaethol.

**11** **<u>CYFARFOD NESAF</u>**

Dydd Llun, 27 Mehefin, 2016 am 2:00 y.p.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth, 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd John Griffith (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, Alun Mummery, Dafydd Rhys Thomas<br><br>Aelodau Lleyg: Mr Richard Barker a Mrs Sharon Warnes |
| **YN BRESENNOL:** | Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau) (ar gyfer eitem 3)<br>Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro (ar gyfer eitem 4)<br>Pennaeth Archwilio Mewnol (MH)<br>Rheolwr Archwilio (SP)<br>Swyddog Effaith ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol (AGD) (ar gyfer eitem 3)<br>Rheolwr Parhad Busnes a Chymorth (LE) (ar gyfer eitem 5)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Richard Owain Jones, y Cynghorydd H. Eifion Jones (Aelod Portffolio Cyllid) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd), Prif Weithredwr, Rheolydd Risg ac Yswiriant, Y Mri. Andy Bruce a Gwilym Bury (Swyddfa Archwilio Cymru), Clare Edge (Deloitte) |

1

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod ac estynnodd groeso arbennig i'w chyfarfod cyntaf i Clare Edge o Deloitte, sef archwilwyr ariannol newydd y Cyngor.

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir - gofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr, 2015 a chofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 18 Chwefror, 2016.

Yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr, 2015 -

Mewn perthynas ag Archwiliad yr Asiantaeth Safonau Bwyd, cadarnhaodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 fod y Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â’r materion sy'n codi o'r archwiliad yn cael ei fonitro ac y bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn derbyn diweddariad ar gynnydd maes o law.

DRAFT

### 3. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH: RÔL Y PWYLLGOR O RAN MONITRO PARTNERIAETHAU

Cyflwynwyd er ystyriaeth a chymeradwyaeth y Pwyllgor - Adroddiad y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau) yn amlinellu rôl arfaethedig y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant o ran monitro partneriaethau pwysig y Cyngor gyda chyfeiriad penodol at adolygu trefniadau llywodraethu partneriaethau.

Rhoes y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau) adroddiad ar y cyd-destun a dywedodd fod trefniadau llywodraethiant partneriaethau'r Awdurdod yn cael eu hamlygu yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2014/15 fel mater llywodraethiant o bwys. Mae gweithio mewn partneriaeth wedi dod yn rhan annatod o arferion gwaith Awdurdodau Lleol ac mae hefyd yn elfen hanfodol o'r modd y mae'r Cyngor hwn yn ymdrechu i wireddu ei uchelgeisiau a'i raglen drawsnewid. Ymhelaethodd y Swyddog ar sgôp y ffrydiau gwaith partneriaeth sy'n anelu at ffurfioli trefniadau ar gyfer monitro, adolygu a llywodraethu partneriaethau cyfredol a'r rhai a all gael eu sefydlu yn y dyfodol fel ym mharagraff 3 yr adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at ddatblygu dogfen Bolisi ar gyfer Partneriaethau (ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad) sy'n crynhoi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.

Dywedodd y Swyddog Effaith ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod un o'r ffrydiau gwaith partneriaeth yn golygu sefydlu rôl ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant wrth adolygu trefniadau llywodraethu partneriaethau, gan gynnwys cael trosolwg o'r cofrestrau risg sy'n ymwneud â phartneriaethau allweddol arwyddocaol. Er y gall gweithio mewn partneriaeth ddod â manteision sylweddol, gall hefyd gario risgiau sylweddol oni bai eu bod yn cael eu darparu o fewn fframwaith llywodraethu cadarn. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn gyfrifol am adolygu trefniadau rheoli risg yr Awdurdod fel y'u diffinnir ym mharagraff 3.4.8.3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor. Mae'r Cyfansoddiad yn nodi mai ei swyddogaeth yw adolygu proffil risg y Cyngor a mofyn sicrwydd fod materion y mae risg yn gysylltiedig â nhw, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â phartneriaethau sylweddol, yn cael sylw. Rôl y Pwyllgor hwn, felly, yw canolbwyntio ar sicrhau bod partneriaethau allweddol yn rheoli risg yn ddigonol ac nid yw'n ymwneud ag adolygu cyfraniad a chanlyniadau partneriaethau. Amlinellodd y Swyddog y camau nesaf ynghyd â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar y risgiau i'r Cyngor o fod mewn partneriaeth fel y nodir ym mharagraff 5.5 yr adroddiad a chadarnhaodd y bydd y rhain yn cael eu hymgorffori yn y trefniadau presennol ar gyfer adrodd ar risgiau a'u rheoli.

Rhoes y Pwyllgor sylw i'r adroddiad a gofynnodd am eglurhad ar y materion canlynol o ran ei rôl arfaethedig mewn perthynas â phartneriaethau -

- Nododd y Pwyllgor, er mwyn gallu cyflawni'r disgwyliadau o ran darparu sicrwydd bod partneriaethau allweddol yn rheoli eu risgiau, bod angen iddo gael gwybodaeth lefel uchel a dadansoddiad ynghylch perfformiad y prif bartneriaethau corfforaethol fel y gall adnabod y risgiau y maent yn eu hwynebu a bodloni ei hun eu bod yn cael eu rheoli'n briodol.

  Dywedwyd wrth y Pwyllgor y bydd sylw'n cael ei roi i'r wybodaeth y mae angen ei darparu ar gyfer y Pwyllgor i'w arfogi a'i alluogi i lunio barn a rhoi sicrwydd bod y risgiau mewn perthynas â phartneriaethau yn cael eu rheoli, ac mae gwybodaeth lefel uchel am berfformiad y partneriaethau yn rhan hanfodol o'r broses honno.

- Yn ogystal â monitro materion sy'n gysylltiedig â risgiau sy'n effeithio ar bartneriaethau, nododd y Pwyllgor ei fod angen sicrwydd bod gweithio mewn partneriaeth yn darparu gwerth ychwanegol i'r Cyngor a bod partneriaethau hefyd yn rhoi gwerth am arian i drigolion a threthdalwyr yr Ynys.

  Hysbyswyd y Pwyllgor bod Gwerth Ychwanegol a Gwerth am Arian yn ddau o nifer o feini prawf a ystyriwyd gan y Cyngor wrth benderfynu p'un ai i weithio mewn partneriaeth ai peidio ac wrth werthuso effeithiolrwydd y bartneriaeth fel y nodir yn y ddogfen Polisi Partneriaethau. Mae gan Sgriwtini rôl glir o ran asesu'r gwerth ychwanegol a ddaw i'r Cyngor yn sgil partneriaethau ac mae angen diffinio swyddogaethau'r pwyllgorau Archwilio a Sgriwtini yn glir a sicrhau cydbwysedd rhwng cyfrifoldebau perthnasol. Mae trafodaethau ar y gweill ynghylch sut y gall canlyniad gwaith

DRAFT

sgriwtini gael ei fwydo drwodd i'r Pwyllgor Archwilio er mwyn sicrhau bod ganddo'r holl wybodaeth sydd ei angen i ddod i farn ynghylch sicrwydd.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch y modd y gwahenir partneriaethau'n rhai preifat, cyhoeddus a gwirfoddol, ac awgrymwyd bod trefniadau a sefydlir gyda'r sector preifat neu annibynnol fel arfer yn rhai contractyddol neu'n seiliedig ar gytundeb lefel gwasanaeth sydd yn gallu cynnwys cysyniad o bartneriaeth, ond nid o angenrheidrwydd. Dygodd y Pwyllgor sylw at y ffaith y gall hyn fod yn amwys ac fe nodwyd, a derbyniwyd, bod angen amlygu'r gwahaniaeth yn y polisi. *(Datganodd Mr Richard Barker ddiddordeb personol fel ymddiriedolwr sefydliad yn y sector annibynnol).*

- Mewn perthynas â phartneriaethau'n glynu wrth bolisïau'r Cyngor, nododd y Pwyllgor nad oedd y ddogfen bolisi yn glir ynghylch sut y bydd cydymffurfiaeth yn cael ei fonitro ac awgrymwyd bod angen mecanwaith ar gyfer sicrhau bod partneriaethau yn cymryd i ystyriaeth brif bolisïau'r Cyngor oherwydd gallai diffyg cydymffurfiaeth ar ran sefydliadau partner beri risg i enw da'r Cyngor.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai manylion ynglŷn â'r broses o fonitro partneriaethau gan gynnwys rhoi sylw dyladwy i brif bolisïau'r Cyngor yn rhan o ffrwd waith arall ar gyfer partneriaethau ac y byddai manylion ar gael dros y misoedd nesaf.

**Penderfynwyd bod y Pwyllgor:**

- **Yn derbyn y cyfrifoldeb o ran y risgiau sy'n gysylltiedig â'r partneriaethau allweddol arwyddocaol.**
- **Yn derbyn y broses a'r amserlen ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor ar y risg sy'n gysylltiedig â'r partneriaethau allweddol arwyddocaol.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH**

## 4. LLYWODRAETHU GWYBODAETH

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro yn amlinellu'r cynnydd a wnaed mewn perthynas ag ymateb i'r Rhybudd Gorfodaeth a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ym mis Hydref, 2015 a materion a amlygwyd yn yr adroddiad.

Dywedodd Pennaeth Busnes y Cyngor fod y naw argymhelliad a nodir yn Hysbysiad Gorfodi'r ICO yn cael eu nodi yn Atodiad 1 yr adroddiad. Mae'r rhain bellach yn destun trydydd Cynllun Gweithredu (lluniwyd y ddau gynllun blaenorol mewn ymateb i archwiliad yr ICO o drefniadau'r Cyngor ar gyfer diogelu data yn 2012 ac ail-archwiliad dilynol yn 2014) a ddyfeisiwyd gan y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol (CIGB ) ac sy'n cael eu gweithredu gan is-grŵp o'r CIGB. O'r naw cam gweithredu penodol, mae camau gweithredu 1, 2, 3, 5, 6 a 9 wedi cael eu cwblhau. Rhoes y swyddog ddiweddariad i'r Pwyllgor ar statws y camau gweithredu hynny sydd ond wedi eu cwblhau'n rhannol fel a ganlyn -

- Cam Gweithredu Rhif 4 (Polisïau gan gynnwys y Polisi Rheoli Cofnodion yn cael eu darllen, eu deall a'u cwblhau gan bawb). Er mwyn sicrhau'r lefel hon o asesiad, mae'r Cyngor wedi tendro, caffael a chofrestru ar gyfer system bolisi newydd gyda RSM ac mae'r system wrthi'n cael ei dylunio ar hyn o bryd. Mae'r amserlen ar gyfer gweithredu'r system wrthi'n cael ei threfnu a disgwylir cytundeb yn ei chylch cyn diwedd mis Mawrth, 2016.
- Cam Gweithredu Rhif 7 (hawliau mynediad ffisegol yn cael eu diddymu ar unwaith pan fo staff yn gadael a'u hadolygu o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau bod rheolaethau priodol yn parhau i fod yn eu lle). Mae Tîm Trawsnewid y Cyngor yn ymwneud â gwahanol ddarnau o brosesau ail-ddylunio busnes fel rhan o'i gylch gwaith ac ar hyn o bryd mae'n gweithio ar dasg ar gyfer y CIGB a fydd yn cynhyrchu canlyniad ar y mater hwn. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Northgate, y system

DRAFT

TGCh Adnoddau Dynol gyda golwg ar weithredu proses newydd erbyn mis Medi a fydd yn darparu'r lefel angenrheidiol o sicrwydd.

- Cam Gweithredu Rhif 8 (Bod sylw'n cael ei roddi i'r prinder o le storio ar gyfer cofnodiadau papur). Mae'r Cyngor bron wedi mynd i'r afael yn llawn â'r mater hwn a'r Gwasanaethau Cyllid a Thai yw'r unig ddau wasanaeth bellach sydd yn cadw lefel sylweddol o gofnodiadau maniwal y tu allan i Bencadlys y Cyngor ond nad ydynt eto mewn storfa archif. Bydd y ddau wasanaeth yn adrodd yn ôl i'r CIGB ym mis Ebrill ar eu cynlluniau unigol ar gyfer mynd i'r afael yn llawn â'r mater.

  Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ac roedd yn fodlon bod cynnydd wedi, ac yn parhau i gael ei wneud, o ran mynd i'r afael â'r materion sydd wedi codi. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch ymateb yr ICO i'r Cynllun Gweithredu a luniwyd a'r cynnydd a wnaed. Dywedodd y Pennaeth Busnes y Cyngor, er bod y Cyngor wedi anfon copi o'r Cynllun Gweithredu at yr ICO yn dangos statws pob gweithred a'r sefyllfa bresennol, nid yw wedi ymateb yn ffurfiol i'r ddogfen honno, ond mae wedi dweud y bydd lefel cydymffurfiaeth y Cyngor yn cael ei hasesu yng ngoleuni unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â diogelwch data yn y dyfodol.

**Penderfynwyd nodi'r diweddariad a'r cynnydd a wnaed.**

**Dim camau gweithredu pellach**

**5. ADFER TRYCHINEB TGCH A PHARHAD BUSNES**

- **Parhad Busnes**

Adroddodd y Rheolwr Archwilio Mewnol y cynhaliwyd archwiliad o Barhad Busnes yn gynharach yn y flwyddyn ariannol a chyhoeddwyd adroddiad ym mis Awst a arweiniodd at farn Sicrwydd Cyfyngedig yn gyffredinol gyda phump o argymhellion Categori Uchel a dau argymhelliad Categori Canolig. Cyfeiriodd at brif ganfyddiadau archwiliad a'r gwendidau a nodwyd. Cadarnhaodd y Swyddog fod archwiliad dilynol wedi cadarnhau bod y ddau argymhelliad Lefel Uchel wedi cael eu gweithredu a bod y pump sy'n weddill yn y broses o gael eu gweithredu. Mae canfyddiadau'r gwaith dilynol ac ailasesiad o'r rheolaethau bellach yn cefnogi Barn Sicrwydd Rhesymol.

Ymhelaethodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar y camau penodol a gymerwyd i gywiro'r gwendidau a amlygwyd gan yr adolygiad archwilio yn ogystal â'r camau hynny sydd ar y gweill.

Croesawodd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed a'r momentwm cyfredol a gofynnodd am gadarnhad o'r llinell amser ar gyfer cwblhau a gwireddu'r holl ffrydiau gwaith y cafwyd adroddiad arnynt. O ystyried bod hyn yn cael ei gydnabod fel maes blaenoriaeth uchel, gofynnodd y Pwyllgor hefyd am ddiweddariad pellach yn ddiweddarach yn y flwyddyn i ddangos i ba raddau y gwnaed cynnydd ar y rhaglen weithredu.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ei fod yn fwriad i adrodd yn ôl i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ym mis Mehefin; nid yw Cynlluniau Parhad Busnes yn statig ac maent yn cael eu hadolygu ar lefel gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn gyfoes yng nghyd-destun yr amgylchedd y maent yn gweithredu ynddynt.

**Penderfynwyd nodi'r sefyllfa a'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

**CAMAU GWEITHREDU: Y Pwyllgor i dderbyn diweddariad pellach ar Barhad Busnes yn ddiweddarach yn y flwyddyn i ddarparu sicrwydd bod cynnydd yn cael ei wneud mewn perthynas â'r materion a nodwyd a bod y camau gweithredu'n cael eu cwblhau.**

- **Adfer TGCh ar ôl Trychineb**

DRAFT

Dywedodd y Rheolwr Archwilio Mewnol fod adolygiad archwilio o Adfer TGCh ar ôl Trychineb arwain at farn Sicrwydd Isel iawn ynghyd ag 13 o argymhellion - o'r rhain roedd 8 yn argymhellion categori Uchel a 3 yn rhai Categori Canolig. Cyfeiriodd y Swyddog at brif ganfyddiadau’r archwiliad a’r gwendidau a nodwyd ynddo. Yn y gwaith dilynol, aseswyd bod 5 o'r argymhellion Categori Uchel wedi'u gweithredu; 3 wedi’u gweithredu'n rhannol a 5 heb eu gweithredu. Mae canfyddiadau'r gwaith dilynol ac ailasesiad o'r rheolaethau bellach yn cefnogi Barn Sicrwydd Rhesymol.

Cadarnhaodd y Rheolwr Cefnogi Parhad Busnes a Chymorth TGCh bod y rhan fwyaf o'r camau a oedd yn parhau i fod angen sylw wedi cael eu datrys gyda chaffael system wrth gefn. Bydd y system hon yn cael ei sefydlu ym Mhencadlys y Cyngor unwaith y bydd wedi adnabod lleoliad addas oddi ar y safle ac yna, bydd y caledwedd wrth gefn yn cael ei ail-leoli oddi ar y safle gan olygu y byddai modd i'r Cyngor redeg gwasanaethau allweddol o leoliad oddi ar y safle petai dim modd defnyddio’r Pencadlys. Cadarnhaodd y Swyddog fod hyn wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth gorfforaethol ac y bydd yn cael ei drin felly ac adnoddau’n cael eu blaenoriaethu ar gyfer ei weithredu.

**Penderfynwyd nodi'r sefyllfa a'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

**Dim gweithredu pellach**

**6. ARCHWILIAD ALLANOL**

- Cyflwynwyd a **nodwyd gan y Pwyllgor** - adroddiad ar statws y prosiectau dan Raglen Waith perfformiad yr Archwilwyr Allanol yn cwmpasu Astudiaethau Llywodraeth Leol, Astudiaethau Cenedlaethol Gwerth am Arian a gweithgarwch rheoleiddio**.** Rhoes Mr Andy Bruce, Swyddfa Archwilio Cymru ddiweddariad i'r Pwyllgor ar ddarnau unigol o waith ers yr adroddiad diwethaf a chadarnhaodd y byddai'n parhau i ymdrechu i dynnu allan y meysydd hynny sy’n berthnasol a / neu o ddiddordeb i lywodraeth leol o fewn yr astudiaethau cenedlaethol.

Gan gyfeirio at y gwaith dilynol ar argymhellion cenedlaethol fel rhan o'r gwerthusiad o gynnydd ar yr argymhellion ym mhob cyngor, nododd y Pwyllgor yn y cyd-destun hwn y byddai'n ddefnyddiol i bwrpas sicrwydd petai ganddo gofrestr o'r holl argymhellion archwilio mewnol ac / neu faterion a godwyd gan y Pwyllgor fel y gellir eu monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn sylw. Cadarnhaodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 bod yna system ar gyfer cofnodi argymhellion Archwilio Mewnol sy'n atgoffa rheolwyr o’r angen i'w gweithredu, a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi hefyd i ymestyn y system i gynnwys argymhellion archwilio eraill nad ydynt yn rhai mewnol. Dywedodd y Swyddog y byddai'n cyflwyno adroddiad ffurfiol i’r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.

**CAMAU GWEITHREDU: Y Pennaeth Adnoddau a’r Swyddog Adran 151 Adnoddau i gyflwyno adroddiad i’r cyfarfod nesaf ar y system ar gyfer cofnodi argymhellion Archwilio Mewnol a'r bwriad i’w datblygu i gynnwys argymhellion eraill.**

- Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 yn cynnwys Asesiad Swyddfa Archwilio o Gydnerthedd Ariannol Cyngor Sir Ynys Môn yn cwmpasu tair elfen sef cynllunio ariannol, rheolaeth ariannol a llywodraethu ariannol. **Derbyniwyd a nodwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor.**

Dywedodd Mr Andy Bruce, er bod canfyddiadau’r adroddiad yn dweud bod y Cyngor yn wynebu rhai heriau ariannol sylweddol, mae ei drefniadau cyfredol ar gyfer sicrhau cydnerthedd ariannol yn briodol ac yn parhau i wella. Yn ogystal, tybir bod y risg i’r Cyngor o ran cyflawni ei gynllun ariannol gan ystyried pob un o'r tair elfen a aseswyd (fel y nodir uchod) yn isel.

**Dim gweithredu pellach**

- **Penderfynwyd gohirio ystyried mater ardystio grantiau a ffurflenni tan y cyfarfod nesaf.**

DRAFT

## 7. ARCHWILIO GRANTIAU

**Derbyniwyd a nodwyd gan y Pwyllgor** - adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 yn nodi'r grantiau sydd angen ardystiad Archwilio Mewnol ac adolygiad gan Archwilwyr Allanol ynghyd â manylion y gwaith y mae'n rhaid i Archwilio Mewnol ei wneud er mwyn i'r grant gael ei ardystio.

**Dim gweithredu pellach**

## 8. ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor - Adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol ar waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill, 2015 i 31 Rhagfyr, 2015. Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am natur y gwaith a wnaed yn ystod y cyfnod a chanlyniadau hynny gan gynnwys y farn archwilio a'r argymhellion sy'n ymwneud â phob maes a adolygwyd; archwiliadau a arweiniodd at farn Sicrwydd Cyfyngedig; archwiliadau dilynol a thracio argymhellion ynghyd â rhestr o argymhellion Uchel a Chanolig sy'n parhau i fod angen sylw.

Dywedodd y Rheolwr Archwilio bod dadansoddiad o berfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill i 31 Rhagfyr, 2015 yn dangos bod lefelau perfformiad yn fwy neu lai yn unol â'r targed. Fodd bynnag, bydd gallu'r gwasanaeth i gyflawni Cynllun Gweithredu 2015/16 yn dibynnu ar lefel y galw am adnoddau archwilio o ran cyfeiriadau, gwaith heb ei gynllunio cyn diwedd y flwyddyn ac absenoldeb salwch. Rhoes y swyddog y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r sefyllfa staffio a dywedodd y collwyd 101 o ddiwrnodau oherwydd absenoldeb salwch hyd at fis Rhagfyr 2015, ac oherwydd bod swydd wag yn y tîm, roedd 135 o ddyddiau archwilio heb eu llenwi gan wneud cyfanswm o 236 o ddiwrnodau neu 20% o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer cynllun archwilio 2015/16. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Swyddog ei bod yn parhau i fod yn hyderus y byddai'r gwasanaeth yn gallu cyflawni 60% o'r Cynllun Archwilio erbyn diwedd y mis.

Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 bod y broses o ddarparu'r gwasanaeth archwilio yn dibynnu ar argaeledd staff a bod y Rheolwr Archwilio yn ymdrechu i reoli'r tîm i wella'r sefyllfa. Mae cyfrifydd dan hyfforddiant wedi cael ei neilltuo i'r gwasanaeth ar sail dros dro i ddarparu adnodd ychwanegol. Mae'r Gwasanaeth Cyllid wedi derbyn cadarnhad gan y Rheolwr Archwilio fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gallu darparu'r lefel angenrheidiol o sylw i ddarparu sicrwydd o ran yr archwiliad o systemau ariannol allweddol yr Awdurdod; yr hyn sydd ar goll ar hyn o bryd yw'r gwerth ychwanegol y gall y gwasanaeth Archwilio Mewnol ei roi i feysydd eraill yn y Cyngor gyda'r gwasanaeth yn cael ei gyfyngu yn hytrach i ganolbwyntio ar y deilliannau craidd. Gan edrych ymlaen dros y 3 blynedd nesaf, bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, yr un modd â llawer o wasanaethau eraill, yn cael ei adolygu i benderfynu sut y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn y dyfodol.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol fod nifer o ffactorau wedi ei gwneud yn flwyddyn heriol i'r gwasanaeth. Mae pwysau cynyddol ar y gwasanaeth y mae angen i reolwyr eu cydnabod o ran eu heffaith ar staff. Y brif dasg ar hyn o bryd yw sicrhau y gall y gwasanaeth Archwilio Mewnol roi'r sicrwydd angenrheidiol ar sail y gwaith a wnaed; dywedodd y Swyddog ei fod yn hyderus y byddai hynny'n digwydd.

Rhoes y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad ac amlygodd y materion canlynol -

- Nododd y Pwyllgor y sefyllfa staffio yn y gwasanaeth Archwilio Mewnol yng nghyd-destun cyflwyno'r cynllun archwilio ynghyd â'r farn broffesiynol a fynegwyd, ac ailadroddodd ei bryder na fydd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol efallai  adnoddau digonol i fedru cyflawni ei ddyletswyddau yn y ffordd orau ac mewn ffordd sy'n ychwanegu gwerth i'r Cyngor. Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd y swyddogaeth Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor ac i'r Cyngor wrth ddarparu sicrwydd o ran cadernid systemau rheolaethau mewnol y Cyngor, ei drefniadau rheoli risg a phrosesau llywodraethu corfforaethol, a'r angen felly i sicrhau bod ganddo'r adnoddau i gyflawni'r cyfrifoldebau hynny. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y cynllun archwilio yn rhy uchelgeisiol o ystyried yr adnoddau staffio sydd ar gael i weithredu'r cynllun neu a yw'r gwasanaeth yn sylfaenol heb ddigon o adnoddau.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y cynllun yn seiliedig ar y nifer o staff sydd ar gael a bod absenoldebau staff yn cael eu ffactora i mewn iddo; mae lefelau salwch yn anffodus ac nid oes modd eu rheoli.

Nododd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau) y pwynt a wnaed, a dywedodd y byddai hi'n cyfleu pryder y Pwyllgor ynghylch adnoddau ar gyfer y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth; fodd bynnag, mynegir y pryder hwnnw mewn cyd-destun lle mae pob gwasanaeth yn gorfod llunio cynllun arbedion tair blynedd.

- Nododd y Pwyllgor fod Adroddiad Cryno ar Ddyled ar 14 Ionawr, 2015 yn dangos bod cyfanswm y mân ddyledion sydd heb eu casglu yn £ 3.192m. Gofynnodd y Pwyllgor a oes problem sylfaenol gyda chasglu dyledion neu a yw'r sefyllfa wedi gwella.

Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 bod hon yn broblem hanesyddol. Mae Panel Canlyniad Sgriwtini wrthi'n adolygu trefniadau rheoli dyled y Cyngor a bydd yn adrodd ar ei ganfyddiadau yn fuan. Mae lefel y ddyled hanesyddol wedi ei gwneud yn anos rheoli dyled newydd. Mae'r Gwasanaeth Cyllid wedi cychwyn proses o ddileu dyledion hir sefydlog yr ystyrir fel rhai na ellir eu casglu ac mae swm sylweddol wedi cael ei ddileu drwy'r broses honno a bydd yn parhau gyda chau cyfrifon 2015/16. Cynhaliwyd adolygiad o strwythur y tîm Refeniw a Budd-daliadau sy'n gyfrifol am gasglu incwm a mân-ddyledion a bydd adnoddau ychwanegol yn cael eu rhoi i mewn i'r tîm. Mae gweithdrefnau cofnodi hefyd wedi cael eu hadolygu i sicrhau bod gan y Cyngor y dogfennau ategol angenrheidiol i hwyluso'r broses o adennill dyledion drwy'r llysoedd lle bo angen.

- Nododd y Pwyllgor fod adolygiad archwilio o Ysgol Cemaes wedi cynhyrchu barn Sicrwydd Cyfyngedig, a gofynnodd am eglurhad o'r camau a gymerwyd i wella rheolaethau ariannol mewn ysgolion.

Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod archwiliadau dilyn-i-fyny mewn perthynas ag ysgolion wedi dechrau a bydd y mater yn cael ei gyfeirio i sylw'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes. Mae'r Gwasanaeth Archwilio hefyd wedi cynnal adolygiad thematig o bum ysgol ynghylch casglu incwm prydau ysgol a bydd hyn hefyd yn cael ei gyfeirio i sylw'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'r sicrwydd a ddarparwyd i'r Pwyllgor ynghylch y prosesau rheoli mewnol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol sydd wedi eu sefydlu i reoli'r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod, yn amodol ar nodi pryder y Pwyllgor ynghylch adnoddau ar gyfer y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.**

**CAMAU GWEITHREDU: Y Prif Weithredwr Cynorthwyol i godi pryder y Pwyllgor ynghylch adnoddau ar gyfer y Gwasanaeth Archwilio Mewnol gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.**

**9. CYNLLUN STRATEGOL ARCHWILIO MEWNOL 2016/17 - 2018/19 A CHYNLLUN CYFNODOL 2016/17**

Cyflwynwyd er ystyriaeth a chymeradwyaeth y Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol yn ymgorffori Strategaeth Archwilio Mewnol 2016/17 i 2018/19 a Chynllun Blynyddol ar gyfer 2016/17.

Adroddodd y Rheolwr Archwilio ar y Strategaeth a'r Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol fel y'u nodwyd dan Atodiad A yr adroddiad a chyfeiriodd at Atodiadau ategol B i E a oedd yn manylu ar y Cynllun Blynyddol ar gyfer 216/17, y Cynllun Strategol ar gyfer y cyfnod 2016-2019, dadansoddiad o adnoddau Archwilio Mewnol a'r targedau perfformiad mewn perthynas â 2016/17.

Cadarnhaodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 ei fod yn fodlon bod y Cynllun yn cwrdd ag anghenion y Gwasanaeth Cyllid mewn perthynas â rhoi sicrwydd am y systemau ariannol allweddol a thargedu meysydd risg uchel.

DRAFT

Gofynnodd y Pwyllgor eglurhad a oedd y targed perfformiad o 85% ar gyfer gweithredu argymhellion categorïau Uchel a Chanolig yn ystod yr archwiliad dilynol ar gyfer 2016/17 yn gyraeddadwy o ystyried bod perfformiad gwirioneddol wedi bod yn llawer is na'r lefel honno yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod y gyfradd weithredu wedi codi i 76% ers 22 Chwefror eleni a'i bod yn hyderus y bydd modd cwrdd â'r targed.

**Penderfynwyd -**

- **Cymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2016/17.**
- **Cymeradwyo targedau perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2016/17.**

**DIM GWEITHREDU PELLACH**

**10. ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS CANOL BLWYDDYN 2015/16**

**Derbyniwyd a nodwyd gan y Pwyllgor** - adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 yn cynnwys adroddiad ar yr adolygiad canol blwyddyn o reoli'r trysorlys ar gyfer 2015/16**.**

**Dim gweithredu pellach**

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU AR GYFER 2015/16**

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei gymeradwyo, Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gyfer blwyddyn ddinesig 2015/16 cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Mai, 2016.

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ac awgrymodd ei fod yn gyfle euraidd i ddwyn sylw at berfformiad ar draws gwasanaethau'r Cyngor mewn perthynas â gweithredu neu beidio gweithredu ar argymhellion Archwilio Mewnol. Cynigiwyd a derbyniwyd y dylid cynnwys darpariaeth i'r perwyl hwnnw yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2015/16 i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Mai, 2016, yn amodol ar gynnwys darpariaeth a fydd yn dwyn sylw at berfformiad ar draws gwasanaethau'r Cyngor mewn perthynas â gweithredu neu beidio gweithredu ar argymhellion Archwilio Mewnol.**

**Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

## PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mai 2016**

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Jim Evans, John Griffith, R. Ll. Jones, Richard Owain Jones, Alun W Mummery, Nicola Roberts, D.R. Thomas |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mr. Richard Barker a Mrs. Sharon Warnes (Aelodau Lleyg) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgs – Cadeirydd y Cyngor Sir |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd R. Ll. Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

**3 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd John Griffith yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

**Y CYNGHORYDD BOB PARRY OBE FRAgS**
**FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

.

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHIANT |
| DYDDIAD: | 26 MAI 2016 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | COFNODI ARGYMHELLION ARCHWILIO MEWNOL AC ARGYMHELLION A WNAED GAN REOLEIDDWYR ERAILL |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | RHOI GWYBODAETH I'R PWYLLGOR AM Y BROSES GYFREDOL AC UNRHYW DDATBLYGIADAU ARFAETHEDIG |
| ADRODDIAD GAN: | MARC JONES - PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151 |
| GWEITHREDU: | I'W BENDERFYNU |

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2016, gofynnodd aelodau'r Pwyllgor i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 adrodd i'r cyfarfod nesaf ar y system ar gyfer cofnodi argymhellion Archwilio Mewnol a'r bwriad i'w datblygu i gynnwys argymhellion eraill. Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi diweddariad i'r aelodau.

## 2. ARGYMHELLION ARCHWILIO MEWNOL

**2.1** Ar ddiwedd pob adroddiad Archwilio Mewnol, bydd yr Archwilydd Mewnol yn cytuno ar gyfres o argymhellion gyda'r Pennaeth Gwasanaeth / Rheolwr cyfrifol. Mae'r cynllun gweithredu yn yr adroddiad terfynol yn nodi'r amserlenni a'r swyddog sy'n gyfrifol am bob argymhelliad y cytunwyd arnynt.

**2.2** Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn gweithredu system tracio argymhellion "4 Action". Roedd y system hon yn cael ei darparu ar gyfer y Cyngor fel rhan o'r contract rheoli blaenorol ar gyfer Archwilio Mewnol.

**2.3** Mae'r holl argymhellion y cytunwyd arnynt yn cael eu mewnbynnu i'r system ac yna mater i'r Swyddog sy'n gyfrifol am weithredu'r argymhelliad yw diweddaru'r system gyda manylion am y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r argymhelliad.

**2.4** Fel mater o drefn, bydd y Tîm Archwilio Mewnol yn atgoffa swyddogion o'r angen i ddiweddaru'r system gyda chynnydd ac i gau argymhellion sydd wedi eu gweithredu'n llawn. Dyma yw prif wendid y system gan ei bod yn ddibynnol ar swyddogion i gofio diweddaru'r wybodaeth ac, er y gall yr argymhellion fod wedi eu gweithredu'n llawn, nid yw'r system 4 Action bob amser yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol.

**2.5** Bob chwarter, mae'r Tîm Archwilio Mewnol yn cynhyrchu adroddiad o'r holl argymhellion risg uchel a chanolig sy'n ymddangos ar 4 Action fel rhai nad ydynt wedi eu gweithredu'n llawn. Caiff yr adroddiad hwn ei adolygu gan yr UDA ac fe adroddir arno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant.

**2.6** Fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol, neilltuir amser i ddilyn i fyny'r broses o weithredu'r argymhellion ac i ailbrofi argymhellion sydd wedi cael eu nodi fel rhai sydd wedi eu gweithredu. Yn ogystal, bydd yr adolygiad archwilio nesaf o faes penodol yn rhoi prawf ar weithrediad yr argymhellion.

## 3. ARGYMHELLION ALLANOL

**3.1** Gall y Cyngor dderbyn argymhellion o nifer o wahanol ffynonellau allanol: -

- Archwilwyr Allanol - Deloittes;
- Swyddfa Archwilio Cymru;
- Rheoleiddwyr - Estyn, Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru;
- Yn codi o Astudiaethau Cenedlaethol a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**3.2** Mae’r argymhellion hyn yn cael eu cofnodi gan y Tîm Rheoli Perfformiad Corfforaethol ar daenlen. Bob chwarter, bydd y Tîm Perfformiad yn gofyn i'r swyddogion perthnasol ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r argymhellion.

**3.3** Caiff adroddiad ar y cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwilio allanol ei gyflwyno ar hyn o bryd i'r UDA yn chwarterol ar ffurf taenlen.

**3.4** Mae hyn yn sicrhau bod yr UDA yn wybodus ac yn ymwybodol o weithrediad yn erbyn argymhellion archwilio allanol. Fodd bynnag, cydnabyddir bod y broses hon yn ei dyddiau cynnar ac mae ymarfer allanol cyfredol yn amlinellu bod adroddiadau weithiau’n cael eu cyflwyno i'r gwasanaethau yn unig, heb gopi i'r canol gorfforaethol.

**3.5** Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cytuno i gydweithredu gyda'r Cyngor i wella’r arfer hwn a chynorthwyo'r Cyngor i nodi gwaith archwilio allanol ar draws y sefydliad.

## 4. DATBLYGIADAU YN Y DYFODOL

**4.1** Er bod y system 4 Action (y cyfeirir ati uchod yn rhif 2) yn un ymarferol, nid yw'n hawdd i'w defnyddio ac nid yw procio cof / atgoffa swyddogion yn awtomatig fod angen diweddaru'r system. Mae defnyddio taenlenni i fonitro argymhellion archwilwyr allanol ymhell o fod yn ddelfrydol oherwydd nid yw taenlenni wedi’u dylunio i gadw cymaint o ddata ar ffurf testun.

**4.2** Mae'r drwydded ar gyfer y system 4 Action yn dod i ben ar 31 Mai 2016 ac mae'r Cyngor ar hyn o bryd mewn trafodaethau gyda'r cyflenwr meddalwedd ar yr opsiynau a'r costau o ymestyn y drwydded am gyfnod o 12 mis pellach hyd nes y ceir penderfyniad ar system ehangach ar gyfer rheoli busnes corfforaethol.

**4.3** Yr ateb delfrydol arfaethedig fyddai caffael a gweithredu system rheoli busnes integredig. Byddai hyn yn caniatáu i'r Cyngor fonitro ac adrodd ar: -

**4.3.1** cynllunio busnes;
**4.3.2** perfformiad, prosiectau a rheoli risg; a
**4.3.3** gweithredu argymhellion.

Mae angen gwneud gwaith pellach i ganfod cost o system o'r fath a sut y gallai'r Cyngor ariannu’r gost honno.

## 5. ARGYMHELLIAD

**5.1** Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn gofyn i Swyddogion ymchwilio ymhellach i system gorfforaethol ar gyfer rheoli busnes gyda golwg ar ei chaffael a’i gweithredu yn ystod 2016/17 (yn ddibynnol ar achos busnes hyfyw y cytunwyd arno gan yr UDA).

**R MARC JONES**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** **18 MAI 2016**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODD I** | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| **DYDDIAD** | **26 MAI 2016** |
| **PWNC** | **ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL AR GYFER 2015/16** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL** | **PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL – MIKE HALSTEAD** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **RHEOLWR ARCHWILIO - SIONED PARRY** |

**Natur yr adrodd a'r rheswm amdano -** Cydymffurfio â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y Deyrnas Unedig a Safonau CIPFA UK a ddaeth i rym 1af Ebrill 2013, lle mae gofyn i Bennaeth Archwilio Mewnol roi i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sicrwydd ynghylch y system gyfan o reolaeth fewnol.

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, mae gofyn i'r Cyngor gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei system rheolaeth fewnol. Mae archwilio mewnol yn rhan annatod o'r system honno ac yn gyfrannwr arwyddocaol i waith paratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n mynd law yn llaw â'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol.

1.2 Gwna Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus CIPFA 2013 hi'n ofynnol i Bennaeth Archwilio Mewnol roi i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sicrwydd ynghylch y system gyfan o reolaeth fewnol, gan gynnwys pa mor ddigonol yw trefniadau rheoli risg a llywodraethu corfforaethol. Dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall Archwilio ei roi i'r Pwyllgor Archwilio yw sicrwydd rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

1.3 Yn ystod y flwyddyn mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cynnal trosolwg o fframwaith sicrwydd y Cyngor trwy ystyried y farn archwilio ar ddarnau unigol o waith archwilio mewnol, adolygu cynnydd wrth roi camau gwella ar waith a gyfyd o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac ystyried y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae hefyd wedi cael sicrwydd o'r adroddiadau a gyflwynwyd gan reoleiddwyr allanol yr Awdurdod.

1.4 Dadansodda'r adroddiad berfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am y cyfnod 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016 ac ynddo ceir datganiad sicrwydd sy'n seiliedig ar waith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2016. Ategir yr adroddiad gan **Atodiadau A i H** sy'n nodi cynnydd yn erbyn targedau perfformiad ar gyfer 2015/16 a'r gwaith cynlluniedig (llithriad) na chyrhaeddwyd mohono yn ystod y flwyddyn.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'n cael eu sicrhau fod gan Gyngor Sir Ynys Môn brosesau rheoli mewnol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol boddhaol yn eu lle am y 12 mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 er mwyn rheoli a chefnogi gwaith yr Awrdurdod i gyflawni ei amcanion.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIROL

### 3.1 Rôl Archwilio Mewnol

3.1.1 Rôl y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yw rhoi i'r rheolwyr asesiad gwrthrychol o p'un a yw systemau a rheolaethau'n gweithio'n iawn. Mae'n rhan allweddol o system reolaeth fewnol y sefydliad oherwydd ei fod yn mesur ac yn gwerthuso pa mor ddigonol ac effeithiol yw rheolaethau eraill fel bod:

- Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r uwch-reolwyr yn ymwybodol o faint y gallant ddibynnu ar y system gyfan; a bod

- Rheolwyr yn ymwybodol o faint y gellir dibynnu ar y systemau a'r rheolaethau y maent yn gyfrifol amdanynt.

3.1.2 Mae'r system rheolaeth fewnol yn cynnwys y rhwydwaith cyfan o systemau a rheolaethau a sefydlwyd i reoli'r Awdurdod, fel bod modd sicrhau y byddir yn cwrdd â'i amcanion. Mae'n cynnwys rheolaethau ariannol ac eraill a threfniadau ar gyfer sicrhau fod yr Awdurdod yn cael gwerth am arian o'i weithgarwch.

### 3.2 Perfformiad Archwilio Mewnol 1/4/15 i 31/3/16

3.2.1 Bob blwyddyn mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn cymryd rhan yng ngwaith meincnodi ar draws Cymru yn erbyn dangosyddion sy'n ymwneud â chost a chanlyniad. Nid oedd canlyniadau'r ymarfer meincnodi ar gyfer 2015/16 ar gael i'w cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ond adroddir arnynt i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu pan gânt eu cyhoeddi.

3.2.2 Ynghlwm fel **Atodiad A** mae rhestr o berfformiad y Gwasanaeth yn erbyn targedau sydd wedi ennill eu plwyf ar gyfer y flwyddyn ac mae'n dangos fod y gwasanaeth wedi cyflawni **60.32%** o'r Cynllun Blynyddol yn erbyn targed o **80%** a dangosydd perfformiad cyfartalog Cymru gyfan o **83%**. Fodd bynnag, mae pedwar archwiliad y mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo arnynt ddiwedd y flwyddyn ac unwaith y byddant wedi'u cwblhau byddant yn dangos fod **67%** o'r Cynllun Blynyddol wedi'i gyflawni. Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn chwarterol trwy gydol 2015/16 am y cynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Blynyddol. Dyma'r prif resymau am y diffyg:

- Roedd y Cynllun Blynyddol wedi'i seilio ar lefel staffio o bum swydd a rheolwr archwilio, oedd gyfwerth â 5.5 staff (cyfwerth ag amser llawn) a **1,150 diwrnod** yn y cynllun. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn, roedd y lefelau staffio cyfwerth â 4.58 (cyfwerth ag amser llawn). Dechreuodd Uwch Archwilydd ar 1 Tachwedd 2015 ac mae cyfnod mamolaeth, a ddechreuodd ar 8 Chwefror 2016 wedi gostwng yr adnodd archwilio **192 diwrnod**. Yn naturiol, mae hyn wedi cael effaith ar allu'r Gwasanaeth i gyflawni'r Cynllun Blynyddol.

- Nid oedd 10 prosiect a ddechreuwyd yn 2014/15 wedi'u cwblhau hyd at 31 Mawrth 2015 a dygwyd y gwaith ymlaen i 2015/16 fel gwaith yn mynd rhagddo; roedd hyn yn cyfrif am **5.5 diwrnod**;

- Cynhaliwyd chwe phrosiect archwilio heb eu cynllunio sy'n cyfrif am **37.88** diwrnod arall;

- Roedd pum prosiect archwilio ar y blaen i dargedau cynlluniedig am wahanol resymau dilys gan gyfrif am **34.21 diwrnod** ychwanegol;

- Roedd salwch yn cyfrif am **117 diwrnod** yn ystod 2015/16 yn erbyn targed blynyddol o **45 diwrnod**. Roedd hyn yn bennaf oherwydd absenoldeb salwch tymor hir dau swyddog yn y chwarter cyntaf ac un swyddog yn y trydydd chwarter oedd yn cyfrif am **86.22 diwrnod** o absenoldeb.

3.2.3 Cwblhaodd y Gwasanaeth **44 archwiliad** yn ystod y flwyddyn ac o'r rhain roedd chwech heb eu cynllunio yn erbyn targed cynlluniedig o **63 archwiliad.**

3.2.4 Nod Archwilio Mewnol yw cynnig gwasanaeth effeithlon ac effeithiol i bob un o'i gleientiaid ac mae'n defnyddio holiadur boddhad cleientiaid ar ddiwedd pob archwiliad er mwyn ceisio barn rheolwyr ynghylch ansawdd y gwasanaeth archwilio a roddwyd. Cafodd y gwasanaeth raddfa ymateb **100%** boddhaol oddi wrth gleientiaid yn ystod 2015/16 sy'n cymharu'n ffafriol â dangosydd cyfartalog Cymru o **98%**.

3.2.5 Cwblhaodd y Gwasanaeth **78.95%** o archwiliadau o fewn yr amser cynlluniedig yn erbyn dangosydd perfformiad heriol iawn o **90%**. Cafodd y pum prosiect oedd ar y blaen i'r targedau cynlluniedig effaith ar y dangosydd hwn. Fodd bynnag, o gymharu â ffigwr cyfartalog Cymru gyfan o **69%** ar gyfer y dangosydd hwn, mae'r gwasanaeth yn dangos ei effeithlonrwydd yn cyflawni canran sylweddol o archwiliadau o fewn amser cynlluniedig.

3.2.6 **98%** yw'r dangosydd perfformiad yng nghyswllt nifer yr argymhellion a dderbyniwyd gan y rheolwyr. Dengys hyn y methiant i gytuno ar **bedwar** argymhelliad allan o gyfanswm o **207** o argymhellion a wnaed. Aseswyd yr argymhellion fel rhai effaith isel ac nid oeddynt yn peri pryder.

3.2.7 Mae'r Gwasanaeth yn perfformio'n effeithlon o ran yr amser y mae'n ei gymryd i gyflwyno fersiynau drafft o adroddiadau archwilio, gyda pherfformiad o **6.61 diwrnod** yn erbyn targed perfformiad o **6 diwrnod** a chyfartaledd Cymru gyfan o **7.6 diwrnod**. Cymerodd y gwasanaeth, ar gyfartaledd, **2.41 diwrnod** i gyflwyno adroddiadau terfynol o dderbyn ymatebion rheolwyr o gymharu â tharged o **2 ddiwrnod** a chyfartaledd Cymru gyfan o **1.8 diwrnod**.

3.2.8 Dechreuodd y gwasanaeth 2015/16 gyda **4.5** swyddog **(cyfwerth ag amser llawn)** mewn swydd o gymharu â strwythur staffio o **5.5 cyfwerth ag amser llawn**. Penodwyd Uwch Archwilydd a dechreuodd yn ei swydd 1 Tachwedd 2015. Mae Cyfrifydd dan hyfforddiant wedi'i secondio am chwe mis yn lle swyddog sydd ar gyfnod mamolaeth o Ionawr i Fehefin 2016. Er 1 Awst 2015, mae gwaith rheoli'n cael ei allanoli o Gyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy.

**3.2.9** Yn olaf, dengys y dangosydd perfformiad yng nghyswllt costau staffio mai **£318** yw cost gyfartalog fesul diwrnod archwilio y codir yn uniongyrchol amdano yn erbyn cyfartaledd Cymru gyfan o **£249**. Mae nifer y dyddiau y codir amdanynt ac y caiff eu gostwng oherwydd nad oes staff yno a gorbenion gwasanaeth e.e. absenoldebau salwch uwch na'r disgwyl yn ystod y flwyddyn, yn cael effaith andwyol ar gost y gwasanaeth fesul diwrnod y codir amdano'n uniongyrchol.

### 3.5 Ffactorau sy'n cael Effaith ar Faint Gwaith Archwilio Mewnol

3.5.1 Cafwyd **316 diwrnod** o lithriadau yn y flwyddyn a arweiniodd at beidio â gweithredu **22** o brosiectau cynlluniedig am y rhesymau a nodir ym mharagraff 3.2.2 uchod. Nid oes modd rhoi sicrwydd archwilio yng nghyswllt archwiliadau a dynnwyd o Gynllun Blynyddol 2015/16. Bydd Archwilio Mewnol yn blaenoriaethu'r meysydd hynny ar gyfer eu harchwilio yn ystod 2016/17. Ynghlwm wrth **Atodiad B** mae rhestr o'r union lithriad a gafwyd yn ystod y flwyddyn.

## 4. SICRWYDD

4.1 Yn fy marn i, roedd gan Gyngor Sir Ynys Môn brosesau rheoli digonol ac effeithiol yn eu lle i reoli ei waith o gyflawni amcanion yr Awdurdod am y cyfnod deuddeng mis hyd at 31 Mawrth 2016. Fodd bynnag, mae'r sicrwydd wedi'i gymhwyso o ran y **22** prosiect archwilio a dynnwyd o'r Cynllun Blynyddol yn ystod 2015/16 am y rhesymau a nodir ym mharagraff 3.2.2. Wrth ddod i'r farn hon, rhoddwyd ystyriaeth i amryfal ffactorau fel y nodir isod.

### 4.2 Gwaith Archwilio Cynlluniedig a Gwblhawyd yn ystod y Flwyddyn

4.2.1 Cynhaliodd y gwasanaeth nifer o adolygiadau seiliedig ar risg ar ystod eang o weithgarwch yn ystod y flwyddyn. Ynghlwm yn **Atodiad C** mae rhestr sy'n rhoi barn archwilio ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd prosesau rheoli yng nghyswllt yr holl aseiniadau archwilio a gynhaliwyd yn ystod 2015/2016. Mae'r rhestr yn crynhoi'r farn archwilio a nifer yr argymhellion a wnaed yng nghyswllt pob maes a adolygwyd ac yn nodi'n fyr y negeseuon allweddol a gyfyd o'r archwiliadau sy'n sail i'r sicrwydd a roddir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yr Awdurdod ar gyfer 2015/16.

4.2.2 Mae pob un o'r archwiliadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn wedi arwain at lefelau cadarnhaol o sicrwydd ac eithrio Adfer ar ôl Trychineb TGCh a aseswyd ei fod yn rhoi Sicrwydd Lleiaf a'r archwiliadau a ganlyn a aseswyd eu bod yn rhoi Sicrwydd Cyfyngedig ac a gânt eu crynhoi yn **Atodiad C**:

- Parhad Busnes;
- Ysgol Cemaes;
- Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi a Chynlluniau Benthyciadau Pontio;
- Partneriaethau, a
- Polisïau ac Arferion Adnoddau Dynol ar gyfer Rheoli'r Gweithlu,

4.2.3 Yn ystod Mawrth a Chwefror 2016 cymerwyd camau archwilio dilynol gydag Adfer ar ôl Trychineb TGCh a Pharhad Busnes. O'r 13 argymhelliad a wnaed yn yr archwiliad gwreiddiol, gweithredwyd ar bump o'r argymhellion lefel uchel, aseswyd pump arall yn rhai yr oedd gwaith yn mynd rhagddo arnynt ac roedd tri argymhelliad yr oedd disgwyl gweithredu arnynt. Cafodd y lefel sicrwydd ei ailasesu'n Rhesymol. Mae disgwyl cymryd camau archwilio dilynol eto ym Medi 2016. Cadarnhaodd camau archwilio dilynol ar Barhad Busnes mai o'r saith argymhelliad a wnaed, gweithredwyd ar ddau gyda'r pump arall wedi'u gweithredu'n rhannol a'u hailadrodd. Cafodd y lefel sicrwydd ei ailasesu'n Rhesymol.

4.2.4 Bydd camau dilynol yn cael eu gwneud ar Ysgol Cemaes, Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi a Chynlluniau Benthyciadau Pontio, Partneriaethau a Pholisïau ac Arferion Adnoddau Dynol ar gyfer Rheoli'r Gweithlu yn ystod 2016/17.

4.2.5 Cynhaliwyd adolygiad pellach o'r Fframwaith Rheoli Risg yn ystod 2015/16 a ddangosodd ddatblygiad sylweddol yn ymgorffori rheoli risg yn yr Awdurdod.

4.2.6 Parhaodd Archwilio Mewnol i ganolbwyntio adnoddau mewn meysydd oedd yn ymwneud â grantiau yn ystod 2015/16 er mwyn sicrhau fod y risgiau a gyflwynwyd gan y math o arian yn cael ei reoli'n briodol. Ni chafodd yr un risg sylweddol ei hadnabod yng nghyswllt y grantiau a adolygwyd.

4.2.7 Adnabu canlyniadau cyffredinol y gwaith Archwilio Mewnol **73%** o adolygiadau a arweiniodd at farn 'gadarnhaol' (Sylweddol neu Resymol) ac arweiniodd **27%** at farn sicrwydd 'negyddol. Mae'r **27%** o adroddiadau a gafodd farn sicrwydd negyddol yn cynnwys chwe adroddiad (1 Lleiaf a 5 Cyfyngedig).

4.2.8 Y farn gyffredinol am y systemau a adolygwyd yw Lefel Resymol o sicrwydd sy'n gyson â blynyddoedd blaenorol. Seilir y lefel gyffredinol hon o sicrwydd ar sgôp y gwaith a wnaed, y camau a argymhellwyd i'r rheolwyr yn cael eu cymryd a'r systemau hynny'n parhau i weithredu fel y'u bwriadwyd.

### 4.3 Gwaith Ychwanegol na Gynlluniwyd ar ei gyfer

4.3.1 Mae'r gwasanaeth wedi cynnal chwe archwiliad ychwanegol heb eu cynllunio yn ystod y flwyddyn am y rhesymau a nodir yn **Atodiad D**. Roedd hyn yn cyfrif am **37.88 diwrnod** ychwanegol o waith.

### 4.4 Camau Archwilio Dilynol a Thracio Argymhellion

4.4.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Deyrnas Unedig yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilio Mewnol gymryd camau rheoli dilynol ar waith a gyfyd o'i aseiniadau. Mae'r Broses Camau Dilynol a Monitro a amlinellwyd mewn adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 8 Rhagfyr 2015 wedi'i gyflwyno i wella gwaith monitro'r cynnydd mewn gweithredu argymhellion y cytunwyd arnynt ac adrodd ar y cynnydd hwn.

4.4.2 Ynghlwm yn **Atodiad E** mae rhestr o'r tri archwiliad y cymerwyd camau dilynol yn eu cylch ac a gynhaliwyd er 8 Rhagfyr 2015. Mae'n dangos nifer yr argymhellion a dderbyniwyd ac y gweithredwyd arnynt wedi hynny gan reolwyr ym mhob un o'r meysydd, ynghyd â barn archwilio ddiwygiedig ynghylch pa mor ddigonol yw'r rheolaethau mewnol. Bydd rhagor o waith dilynol yn cael ei wneud yn y meysydd hynny lle parheir i ddisgwyl gweithredu ar nifer sylweddol o argymhellion.


4.4.3 Cyn Rhagfyr 2015 casglwyd y data o hunanasesiad y gwasanaethau perthnasol yn unig ac ni châi gadarnhad y Gwasanaeth Archwilio hyd oni chynhaliwyd adolygiad archwilio wedi hynny yn yr un maes. Yn **Nhabl 1** isod crynhoir gwaith gweithredu hyd at 31 Mawrth 2016.

| Tabl 1 – Statws argymhellion y cytunwyd â nhw hyd at 31-3-2016 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Statws** | **Uchel** | **Canolig** | **Cyfanswm** | **%** |
| Cyflawn | 35 | 141 | 176 | 74 |
| Yn disgwyl eu gwneud | 6 | 55 | 61 | 26 |
| Cyfanswm | 41 | 196 | 237 | 100 |

4.4.4 Ar hyn o bryd, caiff argymhellion eu sgorio yn uchel, canolig neu isel, yn unol â'r risg ganfyddedig fel yr amlinellir yn **Atodiad F**. Ni fydd Archwilio Mewnol yn cymryd camau dilynol ffurfiol ar y rhai a gaiff eu sgorio'n isel ac ni chânt eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn. Hyd at 31 Mawrth 2016 roedd **74%** o argymhellion 'uchel' a 'canolig' wedi'u cofnodi fel rhai wedi'u gweithredu.

4.4.5 Yn **Nhabl 2** isod gwelir graff yn dangos dadansoddiad o weithredu argymhellion fesul gwasanaeth:

**Tabl 2**




4.4.6 Yn **Atodiad G** ceir copi o'r holl Argymhellion Uchel a Chanolig y mae disgwyl gweithredu arnynt.

### 4.5 Cyfeiriadau

4.5.1 Mae'r gwasanaeth wedi cynnal 11 o ymchwiliadau, gyda rhai ohonynt wedi'u dwyn ymlaen o 2014/15. Mae hyn wedi cyfrif am **72.34 diwrnod** gwaith o gymharu â tharged blynyddol o 205 diwrnod o waith atal twyll. Lle adnabyddir materion rheoli wrth gyfeirio, cyflwynir adroddiad ar wahân i reolwyr yn manylu'r camau gwella sy'n ofynnol. Ynghlwm yn **Atodiad H** mae dadansoddiad o'r mathau o ymchwiliad a gynhelir yn ystod y flwyddyn a'u statws cyfredol a'r canlyniadau perthynol.

4.5.2 Mae'r Swyddog Twyll Corfforaethol hefyd wedi ymchwilio i **17** o droseddau twyll Cynllun Gostwng Treth y Cyngor, gan arwain at adfer **£3,196.89** o un rhybudd. Mae **470** o achosion o gyfatebu data'r Cynllun Twyll Cenedlaethol wedi'u prosesu yn ystod 2015/16 gan arwain at arbedion o **£4,513.83**.

### 4.6 Rheoli Risg a Pherfformiad

4.6.1 Mae gan yr Awdurdod Fframwaith Rheoli Perfformiad sy'n nodi'r camau ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau a'r targedau perfformiad a sut y cânt eu rhaeadru i Gynlluniau Gwasanaeth a gwerthusiadau unigol a dadansoddiad o anghenion hyfforddi. Caiff y cynnydd a wneir yn erbyn camau a gymerir a mesurau perfformiad ei fonitro ddwywaith y flwyddyn trwy Adolygiadau Cyflawni Gwasanaeth y bydd yr uwch-reolwyr, aelodau'r Pwyllgor Gwaith a chynrychiolwyr sgriwtini yn mynd iddynt.

4.6.2 Daeth asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad y bu gwella sylweddol yn y modd y mae'r Cyngor yn rheoli ei berfformiadau a'i reolaethau, y risg y mae'n ei hwynebu ond bu iddo adnabod anghysonderau ac agweddau o reoli perfformiad y mae angen eu

cryfhau, er enghraifft, reolaeth perfformiad wan y gwasanaeth TGCh, defnydd anghyson o'r system gwerthuso staff a'r cynnydd mewn gweithredu argymhellion archwilio mewnol. Mae Archwilio Mewnol wedi dibynnu ar yr asesiad hwn i bwrpas yr adroddiad blynyddol.

4.6.3 Cadarnhaodd adolygiad Archwilio Mewnol o'r Fframwaith Rheoli Risg a gynhaliwyd yn 2015/16 gynnydd sylweddol mewn ymgorffori rheoli risg yn yr awdurdod a rhoi lefel resymol o sicrwydd. Mae'r farn archwilio wedi'i seilio ar y casgliadau uchod a chanlyniadau Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru a gafwyd yn 2014/15 a ddaeth i'r casgliad fod y Cyngor wedi gwella ei brosesau rheoli risg oedd ynghynt yn gymhleth ac anghyson ond roedd yn rhy gynnar barnu effeithiolrwydd y trefniadau newydd.

**4.7 Trefniadau Sgriwtini**

4.7.1 Daeth Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad fod rhaglenni gwaith y ddau bwyllgor sgriwtini yn eang eu hystod o reidrwydd ond fod cadeiryddion a swyddogion cefnogi sgriwtini'n gweithio'n dda gyda'i gilydd i flaenoriaethu, gan dynnu'n effeithiol ar flaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith. Mae'r swyddogaeth sgriwtini'n ychwanegu gwerth at waith y Cyngor ac yn rhoi sicrwydd fod y penderfyniadau a wneir yn gadarn ac yn ddigon cytbwys. Mae Archwilio Mewnol wedi dibynnu ar yr asesiad hwn i bwrpas yr adroddiad blynyddol.

**4.8 Digwyddiadau Arwyddocaol yn ystod y Flwyddyn**

4.8.1 Yn sgil ymddeoliad y Cyn-brif Weithredwr ym Mai 2015, dilynodd y Cyngor brosesau priodol i benodi olynydd, gan arwain at benodi'r cyn-gyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes i'r swydd ym Mai 2015. Penodwyd dau Brif Weithredwr Cynorthwyol ym Medi 2015 sydd, ill dau, yn aelodau o Dîm Uwch-arweinyddiaeth yr Awdurdod, ynghyd â'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 a ddechreuodd yn ei swydd yn Hydref 2015.

4.8.2 Nid yw'r newidiadau uchod ar y lefel gorfforaethol wedi arwain at unrhyw waith ychwanegol sy'n ofynnol i Archwilio Mewnol yn ystod 2015/16.

4.8.3 Cafodd PwC, archwilwyr allanol yr Awdurdod, eu disodli gan Deloittes yn ystod 2015/16.

## 5. DIFFINIAD BARN AC ARGYMHELLION ARCHWILIO

5.1 Mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio roi i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu farn ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd cyffredinol gwaith yr Awdurdod o ran llywodraethu, systemau rheoli risg ac amgylchedd rheolaethau mewnol, er mwyn cydymffurfio â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a Nodyn Cymhwyso Llywodraeth Leol CIPFA. Y farn gyffredinol yw un o sicrwydd a ddefnyddir gan yr Awdurdod wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol dan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.

5.2 Mae'r farn archwilio ar yr aseiniadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn wedi'u categoreiddio fel a ganlyn:

- Sicrwydd Sylweddol
- Sicrwydd Rhesymol
- Sicrwydd Cyfyngedig
- Sicrwydd Lleiaf

5.3. Er mwyn ategu'r farn archwilio, mae'r argymhellion sydd wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn wedi'u categoreiddio'n flaenoriaeth Uchel, Canolig ac Isel fel y'u cymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, 27 Gorffennaf 2015. Ynghlwm yn **Atodiad F** mae diffiniadau sgoriau risg argymhellion a'r farn archwilio.

## 6. MATERION ERAILL

### 6.1 Cymwyseddau i'r Farn Archwilio

6.1.1 Wrth roi barn archwilio, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ei roi i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yw sicrwydd rhesymol yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, nad oes gwendidau mawr ac eithrio'r rhai hynny a nodwyd.

6.1.2 Mae'r cymwyseddau i'r Farn Archwilio wedi'u cyflwyno ym mharagraff **3.5.1** uchod ac wrth ddod i'n barn, rydym wedi ystyried:

- Canlyniadau pob archwiliad a wnaed yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016;
- Canlyniadau'r camau dilynol a gymerwyd yng nghyswllt archwiliadau a gynhaliwyd er 8 Rhagfyr 2015 a monitro gweithrediad argymhellion yn ystod blynyddoedd blaenorol;
- Oes categori Uchel neu Ganolig o argymhellion heb eu derbyn gan reolwyr a'r risgiau yn sgil hynny;
- Effeithiau unrhyw newidiadau o bwys yn amcanion neu weithgarwch y sefydliad;
- Materion yn codi o adroddiadau blaenorol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;
- Oes cyfyngiadau wedi'u rhoi ar sgôp archwilio mewnol ai peidio;
- Cyfyngiadau adnoddau'r gwasanaeth a pha gyfran o anghenion Archwilio Mewnol y sefydliad sydd wedi cael sylw hyd yn hyn;
- Y gwaith a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru, PwC a rheoleiddwyr allanol eraill.

### 6.2 Cwrdd Ag Anghenion Archwilio Mewnol

6.2.1 Er nad yw anghenion archwilio'r Awdurdod wedi'u bodloni'n llawn yn 2015/16, rwyf yn fodlon fod Archwilio Mewnol wedi gwneud digon o waith yng nghyswllt yr amgylchedd rheoli er mwyn dod i farn gyffredinol, er nad yw hyn yn ymestyn i'r amgylchedd rheoli yng nghyswllt y **22** archwiliad cynlluniedig a dynnwyd o'r Cynllun Blynyddol yn ystod 2015/16.

### 6.3 Derbyn yr Argymhellion

6.3.1. Derbyniwyd **98%** o argymhellion gan y rheolwyr. Methwyd cytuno ar **4** argymhelliad allan o gyfanswm o **207** o argymhellion a wnaed. Cafodd yr argymhellion eu hasesu fel rhai effaith isel ac nid oeddynt yn peri pryder.

### 6.4 Y Ddibyniaeth ar Waith gan Gyrff Sicrwydd Eraill

6.4.1 Mae Archwilio Mewnol wedi ystyried y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru yn eu Hasesiad Corfforaethol 2015 wrth ddrafftio'r Adroddiad Blynyddol a ffurfio barn gyffredinol am y cyfnod.

### 6.5 Materion a Fernir sy'n Berthnasol i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

6.5.1 Mae'r Rheolwr Archwilio'n ymwybodol o feysydd lle byddai gwendidau sylweddol mewn rheolaeth yn atal y Cyngor rhag dibynnu'n rhesymol ar systemau rheoli mewnol yng nghyswllt gwaith y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn.

6.5.2 Bydd y meysydd yn parhau i fod yn bryder i Archwilio Mewnol hyd oni weithredir ar yr holl argymhellion arwyddocaol a bod modd rhoi sicrwydd fod fframweithiau a systemau yn eu lle; wedi'u hymgorffori; yn gadarn ac yn effeithiol. Isod nodir y sefyllfa sydd ohoni yng nghyswllt y rhain:

6.5.3 **Rheoli Gwybodaeth** - Adroddwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2014/2015 y bu 'ychydig o gynnydd ar lywodraethu gwybodaeth dros yr 20 mis diwethaf'. Cofnododd adroddiad dilynol terfynol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a gafwyd yn Ionawr 2015 lefel Gyfyngedig o sicrwydd. Derbyniodd y Cyngor rybudd gorfodi gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, dyddiedig 1af Hydref 2015, oherwydd nad oedd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fawr o hyder yn ymrwymiad y Cyngor i weithredu'r camau gofynnol yn barhaus.

6.5.4 Ni roes Archwiliad Mewnol a gynhaliwyd yn 2015/16 ystyriaeth i Rybudd Gorfodi Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a gynhaliwyd yn 2015/16 gan fod sgôp yr archwiliad yn gyfyngedig i sicrhau y parheir i gydymffurfio â pholisïau ac arferion sefydledig Llywodraethu Gwybodaeth y Cyngor ac wedi arwain at lefel Resymol o sicrwydd.

6.5.5 **Partneriaethau - Trefniadau Llywodraethu** - Nid oes gan y Cyngor bolisi partneriaeth i roi fframwaith i reoli'n effeithiol drefniadau partneriaeth newydd a chyfredol ac ni chynhelir cofrestr ganolog er mwyn cofnodi'r partneriaethau y mae'r Cyngor yn ymwneud â nhw. Rhoes y Prif Weithredwr Cynorthwyol y sefyllfa ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 15 Mawrth 2016 o ran sgôp ffrydiau gwaith y bartneriaeth sydd â'r nod o ffurfioli'r trefniadau ar gyfer monitro, adolygu a llywodraethu'r ddwy bartneriaeth gyfredol a'r rhai eraill y gellid eu ffurfio yn y dyfodol. Cyfeiriwyd at ddatblygiad dogfen Polisi Partneriaeth sy'n crynhoi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.

6.5.6 **Llywodraethu - Cydymffurfio â Pholisïau'r Cyngor** - Nododd Asesiad Corfforaethol 2014/15 y gofyn i ymgorffori diwylliant o weithio corfforaethol cyson ymhlith staff ar bob lefel ac i'w ddal i gyfrif am gydymffurfio â Pholisïau'r Cyngor. Mae materion sy'n ymwneud â pheidio â chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau corfforaethol allweddol wedi'u nodi mewn archwiliadau mewnol a gafwyd yn 2015/16, e.e. Llywodraethu Gwybodaeth - Adolygiad Blynyddol o Gydymffurfiaeth, Polisïau ac Arferion Adnoddau Dynol ar gyfer Rheoli'r Gweithlu ac Adfer ar ôl Trychineb TGCh.

6.5.7 **Fframwaith Caffael Corfforaethol** - Yn sgil cyflwyno'r Rheolau Caffael Contract newydd, mae adolygiad o'r trefniant Caffael wedi'i gynnwys yng Nghynllun Gweithredol Archwilio Mewnol ar gyfer 2016/17 er mwyn rhoi sicrwydd y bydd y newidiadau yn arwain at fwy o gydymffurfio â rheolau caffael, polisïau a gweithdrefnau.

6.5.8 **Gweithredu Argymhellion** - Ceir problem barhaus o ran gweithredu argymhellion archwilio mewnol yn enwedig felly gydag ysgolion. Yn Asesiad Corfforaethol 2014/15 roedd cynnig ar gyfer gwella y dylai'r Cyngor roi sylw systemataidd i'r argymhellion a gynhwysir mewn adroddiadau a lunnir gan Archwilio Mewnol.

6.5.9 **Adfer ar ôl Trychineb TGCh** - Rhoddir sylw i'r materion pwysig a nodir yng nghyswllt TGCh, er y bydd angen gwaith parhaus yn 2016/17 i sicrhau fod y rheolaethau mewnol y gweithredir arnynt gan reolwyr yn cael eu hymgorffori'n briodol ar draws yr Awdurdod.

## 6.6 Cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol

6.6.1 Mae gan Archwilio Mewnol ddull archwilio seiliedig ar risg i bennu anghenion archwilio'r Awdurdod ar ddechrau bob blwyddyn ac mae'n defnyddio methodoleg seiliedig ar risg wrth gynllunio a chynnal aseiniadau archwilio. Mae gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol

wedi'i wneud wrth gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus CIPFA 2013.

6.6.2 Mae PwC yn adolygu Archwilio Mewnol yn flynyddol er mwyn canfod a gydymffurfir â safonau archwilio.

6.6.3 Mae Pennaeth Archwilio Mewnol wedi gwneud darpariaeth i adolygiadau ansawdd mewnol gael eu cynnal o bryd i'w gilydd gan aelodau profiadol o'r gwasanaeth Archwilio Mewnol er mwyn gwerthuso:

- Cydymffurfiaeth â'r safonau trefniadaethol a gweithredol y cyfeirir atynt uchod,
- Ansawdd gwaith archwilio,
- Ansawdd goruchwyliaeth,
- Cydymffurfio â'r llawlyfr archwilio lleol,
- Y cyflawnir targedau perfformiad.

6.6.4 Mae'r adolygiad a gynhaliwyd yng nghyswllt y gwaith a wnaed yn ystod 2015/16 wedi dangos y cydymffurfir â safonau mewnol ac allanol.

**6.7 Rhaglenni Sicrwydd Ansawdd Mewnol**

6.7.1 Er mwyn sicrhau ansawdd y gwaith a wneir gan Archwilio Mewnol, mae ystod o fesurau ansawdd yn eu lle sy'n cynnwys:

- Goruchwylio a chyfeirio staff sy'n cynnal gwaith archwilio
- Defnyddio holiaduron boddhad cleientiaid;
- Adolygiad dogfennol o'r holl ffeiliau o bapurau ac adroddiadau gweithio gan reolwyr;
- Gwerthusiad blynyddol o staff archwilio yn arwain at gynlluniau gwaith hyfforddiant a datblygiad personol;
- Cynnal Llawlyfr Archwilio Mewnol y gwasanaeth
- Hunanasesiad blynyddol

## 7. Y DATGANIAD O SICRWYDD

### 7.1 Sicrwydd Cyffredinol

7.1.1 Mae gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi'i gynnal mewn cydymffurfiaeth â safonau archwilio mewnol proffesiynol sydd yn Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus CIPFA 2013.

7.1.2 Swyddogaeth sicrwydd yw Archwilio Mewnol sy'n rhoi barn annibynnol a gwrthrychol i'r sefydliad ar yr amgylchedd rheoli, trwy werthuso ei effeithiolrwydd wrth gyflawni amcanion y sefydliad. Mae gwaith Archwilio Mewnol wedi'i gysylltu â nifer o nodau ac amcanion corfforaethol y Cyngor ac mae'n cwrdd â gofynion statudol ac yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau ac amcanion y Cyngor y cytunwyd â nhw.

7.1.3 Mae'n ofynnol i Bennaeth Archwilio Mewnol roi i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sicrwydd ar y cyfan o'r system rheoli mewnol, gan gynnwys pa mor ddigonol yw'r trefniadau rheoli risg a llywodraethu corfforaethol. Dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall Archwilio ei roi i'r Pwyllgor Archwilio yw sicrwydd rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol. Materion a ddaeth i'n sylw yn ystod ein gwaith archwilio mewnol yn unig yw'r materion a godir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt yn

ddatganiad cynhwysfawr o’r holl wendidau sy’n bodoli, neu o’r holl welliannau y gallent fod yn ofynnol.

## 7.2 Barn Archwilio

7.2.1 Rwyf yn fodlon fod y gwaith archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn caniatáu i mi ddod i gasgliad rhesymol o ran pa mor ddigonol ac effeithiol yw prosesau rheoli’r Cyngor ar gyfer y meysydd a gafodd eu hadolygu. Rwyf yn fodlon fod gwaith y rheolyddion allanol ynghyd ag adolygiadau perfformiad gwasanaeth yr Awdurdod yn caniatáu i mi ddod i gasgliad rhesymol fod gan Gyngor Sir Ynys Môn brosesau boddhaol o ran rheolaeth fewnol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol i gyflawni amcanion y sefydliad.

**Gellid defnyddio’r farn archwilio gyffredinol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**

TARGEDAU PERFFORMIAD ARCHWILIO MEWNOL 2015-16 ATODIAD A

| Disgrifiad | CSYM Gwirioneddol ar 2013/14 | CSYM Gwirioneddol ar 31/3/15 | CSYM Targed 2015/16 | CSYM Gwirioneddol ar 31/03/16 | Cyfartaledd Cymru 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|
| **1.** % yr Archwiliadau Cynlluniedig a Gwblhawyd | 81% | 92% | 80% | 60.32% | 83% |
| **2.** Nifer yr Archwiliadau | 51 | 46 | 60 | 38 | 106 |
| **3.** % Ymatebion 'Boddhaol' gan Gleientiaid | 100% | 100% | 100% | 100% | 98% |
| **4.** % yr Argymhellion a dderbyniwyd | 100% | 100% | 100% | 98% | 99% |
| **5.** % Gweithredu Argymhellion Lefel Uchel a Chanolig mewn archwiliadau Dilyn-i-fyny | 46% | 49% | 85% | 74% | D/B |
| **6.** % yr Archwiliadau a gwblhawyd o fewn yr amser a gynlluniwyd | D/B | D/B | 90% | 78.95% | 69% |
| **7.** % yr amser y codir amdano'n uniongyrchol yn erbyn y cyfanswm sydd ar gael | D/B | D/B | 70% | 59.74% | 65% |
| **8.** Nifer y dyddiadau ar gyfartaledd o'r cyfarfod cau i gyhoeddi'r adroddiad drafft | D/B | D/B | 6 diwrnod | 6.61 diwrnod | 7.6 diwrnod |
| **9.** Nifer y dyddiau ar gyfartaledd rhwng yr ymateb i'r adroddiad drafft a chyhoeddi'r adroddiad terfynol | D/B | D/B | 2 ddiwrnod | 2.41 diwrnod | 1.8 diwrnod |
| **10.** Y gost wirioneddol fesul diwrnod archwilio y codir amdano'n uniongyrchol | £245 | £238 | £250 | £318 | £249 |
| **11.** Nifer staff Archwilio | 5.5 | 5.6 | 5.68 | 5.68 | 8.2 |
| **12.** % y staff a adawodd | 0 | 0 | 0 | 0 | 12% |

Mawrth 2016

**ATODIAD B**

**ADAIN ARCHWILIO MEWNOL**
**CYNGOR SIR YNYS MÔN**
**LLITHRIAD 1-4-15 I 31-03-16**

| ASEINIADAU | RHESWM | DYDDIAU | GRADDFEYDD Y RISG |
|---|---|---|---|
| **CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**<br>Gwasanaethau Rheoli Adeiladu | Cytunwyd â'r rheolwyr i'w ddwyn ymlaen i gynllun blynyddol 2016/17 oherwydd problemau staffio yn yr adain Rheoli Adeiladu | 10 | Anhysbys – y maes wedi'i archwilio cyn 2012/13. |
| **YR AMGYLCHEDD A GWASANAETHAU TECHNEGOL**<br>Rheoli Stadau ac Eiddo | Cytunwyd â'r rheolwyr i'w ddwyn ymlaen i gynllun blynyddol 2016/17 yn sgil cymeradwyo Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2015 – 20 yn y Pwyllgor Gwaith 14 Rhagfyr 2015. | 15 | Anhysbys – y maes heb ei adolygu ers amser sylweddol |
| **DYSGU GYDOL OES**<br>Gweinyddu Grant i'r Teulu a Dechrau'n Deg | Nid oedd grantiau cyfalaf Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru yn ystod 2014/15. | 10 | Adolygiad newydd |
| **CORFFORAETHOL**<br>Archwilio Contractau – Gwariant Cyfalaf | Dim Adnoddau Archwilio | 20 | Amherthnasol |
| Llywodraethu Corfforaethol | Cynhaliwyd Asesiad Corfforaethol yn 2014/15 | 8 | Anhysbys |
| Fframwaith Caffael Corfforaethol | Dim Adnoddau Archwilio | 10 | Anhysbys – Canllawiau Newydd |
| Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Caergybi | Dim Adnoddau Archwilio | 15 | Adolygiad Unwaith ac am Byth |
| Trefniadau Wrth Gefn | Dim Adnoddau Archwilio | 10 | Adolygiad Unwaith ac am Byth |
| Chwythu'r chwiban | Dim Adnoddau Archwilio | 8 | Anhysbys |
| **ADNODDAU**<br>Rheolaethau Lefel Uchel Systemau Ariannol Allweddol | Dim Adnoddau Archwilio | 10 | Amherthnasol |
| **TRAWSNEWID**<br>Archwiliad TG | Dim Adnoddau Archwilio | 40 | Amherthnasol |
| **ECONOMAIDD AC ADFYWIO CYMUNEDOL**<br>Astudiaethau Iechyd yr Amgylchedd | Dim Adnoddau Archwilio | 15 | Anhysbys |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Safonau Masnach | Dim Adnoddau Archwilio | 10 | Anhysbys |
| Swyddogaeth Datblygu Economaidd | Dim Adnoddau Archwilio | 15 | Anhysbys |
| Cytundebau Fframwaith | Dim Adnoddau Archwilio | 10 | Amherthnasol |
| Swyddfa Rheoli Prosiect | Dim Adnoddau Archwilio | 10 | Amherthnasol |
| Tîm Strategaeth a Chefnogi | Dim Adnoddau Archwilio | 10 | Anhysbys |
| **YR AMGYLCHEDD A GWASANAETHAU TECHNEGOL** Gwasanaethau Dylunio Adeiladau a Chynnal a Chadw | Dim Adnoddau Archwilio | 10 | Anhysbys |
| **TAI** Uned Fusnes a Llywodraethu'r Cyfrif Refeniw Tai | Dim Adnoddau Archwilio | 10 | Amherthnasol |
| Atal Digartrefedd, Gosod Tai ac ati | Dim Adnoddau Archwilio | 10 | Cyfyngedig |
| Rhenti Tai – Rheolau Lefel Uchel | Dim Adnoddau Archwilio | 5 | Amherthnasol |
| **GWASANAETHAU OEDOLION** Cynlluniau Tai Gofal Ychwanegol | Dim Adnoddau Archwilio | 15 | Amherthnasol |
| Uned Ddarparwyr | Dim Adnoddau Archwilio | 20 | Amherthnasol |
| Gwasanaethau i'r Henoed | Dim Adnoddau Archwilio | 20 | Amherthnasol |
| **CYFANSWM Y LLITHRIAD** | | **316** | |

Ni fydd y meysydd uchod o waith archwilio cynlluniedig yn cael eu harchwilio yn ystod 2015/16 am y rhesymau a nodir. Lle bo'n berthnasol, bydd yr archwiliadau na chawsant eu cynnal yn ystod 2015/16 yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer eu hadolygu yn 2016/17.

## Crynodeb o Argymhellion a Lefelau Sicrwydd 1-4-15 hyd at 31-8-15 ATODIAD C

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | System Derbynebau Arian WIP 2014/15 | Ebrill 15 | Adnoddau | 4 | Cynhaliwyd archwiliad o'r System Derbynebau Arian fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15.<br>Mae'r drefn derbynebau ar gyfer symiau arian yn digwydd ar hyn o bryd trwy eu rhoi i mewn â llaw i'r system Derbynebau Arian o ddatganiadau banc.<br>Roedd argymhelliad oedd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad Derbynebau Arian 2013/14 yn ymwneud â gweithredu system 'auto feeder' datganiadau banc yn 2015/16 i gynorthwyo a sicrhau y gellir cysoni'r symiau yn y banc yn brydlon o ddiwedd y cyfnod. Nid yw'r argymhelliad hwn a'r tri argymhelliad arall yn Adroddiad Terfynol y Derbynnydd Arian 2013/14 wedi cael eu gweithredu.<br>**Barn:** Gan roi ystyriaeth i'r materion a nodwyd, gellir rhoi sicrwydd sylweddol i'r Cyngor bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas a'u gweithredu'n gyson. | Sylweddol |
| 2 | Dyledwyr WIP 2014/15 | Ebrill 15 | Adnoddau | 22 | Cynhaliwyd archwiliad o Fân Ddyledwyr fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15.<br>Yn 2013/14 roedd nifer yr anfonebau a godwyd yn 20,287 ac roeddent yn werth £16.3m. Roedd gwerth yr anfonebau a ganslwyd ynghyd â nodiadau credyd a godwyd yn ystod y cyfnod yn £462k. Yn ôl Adroddiad Crynodeb ar Hen Ddyledion dyddiedig 14 Ionawr 2015 roedd cyfanswm y mân ddyledion | Cyfyngedig |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | oedd dal yn weddill yn £3,192,488.54.<br>Cyflwynodd y Cyngor system ariannol newydd CIVICA ym mis Ebrill 2013 sy'n cynnwys y modiwl Mân Ddyledwyr a ddefnyddir fel prif gofnod y Cyngor o ddyledwyr.<br>Roedd yr adolygiad Mân Ddyledwyr ar gyfer 2013/14 yn cynnwys chwe argymhelliad yn y categori Canolig ac un ar ddeg argymhelliad yn y categori Isel. Roedd archwiliad 2014/15 yn dangos nad yw'r chwe argymhelliad categori Canolig wedi cael eu gweithredu. Mae'r rhain yn ymwneud ag adennill dyledion sy'n weddill mewn modd prydlon ac effeithiol, adolygu hen anfonebau yn rheolaidd, adolygu'n rheolaidd ddyledion sydd wedi'u dileu, dyledion sydd wedi'u gohirio, cysoni'r lejer ariannol gyda'r system Mân Ddyledwyr a chyfrifoldebau sy'n ymwneud ag enwebu swyddogion i roi anfonebau a manylion dyledwr i mewn i'r system a'u hawdurdodi.<br>Mae dau o'r argymhellion categori Isel wedi cael eu gweithredu. Mae'r naw argymhelliad categori Isel sy'n weddill yn cael eu hailadrodd. Mae'r rhain yn ymwneud ag adolygu hawliau mynediad i'r system, dogfennaeth gefnogol ar gyfer anfonebau dyledwyr, adolygu ffioedd a thaliadau, dyblygu manylion dyledwyr, dyledion wedi'u canslo, debyd codau cost pan fo'n amlwg na fydd modd adfer dyledion, adroddiadau dangosyddion perfformiad dyledwyr ac adrodd ar berfformiad mewn perthynas â thargedau.<br><br>**Barn:** Gan roi ystyriaeth i'r materion a nodwyd, er y gellir rhoi peth sicrwydd i'r Cyngor bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi eu dylunio'n addas ac yn cael eu gweithredu'n gyson, mae angen gweithredu i sicrhau bod y maes hwn yn cael ei reoli. | |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| 3 | Y Dreth Gyngor<br>WIP 2014/15 | Ebrill 2015 | Adnoddau | 8 | Cynhaliwyd archwiliad ar y Dreth Gyngor fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15. Caiff y Dreth Gyngor ei gweinyddu gan y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau. Roedd 34,553 o eiddo (ac eithrio eiddo nad ydynt mewn band) ym mis Mawrth 2013.<br><br>Roedd cyfanswm y debyd a gasglwyd ar gyfer y Dreth Gyngor yn 2013/14 (net ar ôl eithriadau, gollyngiadau a budd-daliadau'r dreth gyngor) yn £30.8m a llwyddwyd i gasglu 97.1% o'r cyfanswm hwn o fewn y flwyddyn.<br><br>Roedd yr adroddiad Treth Gyngor ar gyfer 2013/14 yn cynnwys un argymhelliad categori Canolig a chwe argymhelliad categori Isel. Roedd archwiliad 2014/15 wedi canfod bod yr argymhellion Canolig sy'n ymwneud â chysoni gyda'r Cofnod Postio heb gael eu gweithredu.<br><br>Aseswyd bod pedwar o argymhellion Isel heb eu gweithredu a gwelwyd bod un argymhelliad Isel wedi cael ei weithredu'n rhannol. Mae'r argymhellion yn ymwneud â disgownt i bobl sengl, gweithdrefnau adennill dyledion, cyfrifon sy'n disgwyl am statws 'dyled wedi'i dileu', adolygu cyfrifon lle mae dyledion wedi'u gohirio, ac ymweliadau ag eiddo gwag.<br><br>**Barn:** Gan roi ystyriaeth i'r materion a nodwyd, gellir rhoi sicrwydd rhesymol i'r Cyngor bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risgiau hyn wedi eu dylunio'n addas, yn cael eu gweithredu'n gyson, ac yn effeithiol.<br><br>Fodd bynnag, rydym wedi adnabod materion sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y risgiau'n dod yn rhai gwirioneddol os na | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | fyddant yn derbyn sylw. | |
| 4 | NNDR<br>WIP 2014/15 | Ebrill 2015 | Adnoddau | 8 | Cynhaliwyd archwiliad NNDR fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15.<br><br>Roedd cyfanswm yr eiddo (ac eithrio eiddo nad ydynt mewn band) ar 31 Mawrth 2014 yn 2,707.<br><br>Roedd cyfanswm y debyd a gasglwyd ar gyfer NNDR yn 2013/14 (net ar ôl ad-daliadau) yn £13.6m a llwyddwyd i gasglu 97.9% o'r cyfanswm hwn o fewn y flwyddyn. Adroddwyd bod cyfartaledd y gyfradd casglu trethi ar gyfer yr holl Awdurdodau Unedol yng Nghymru yn 97.1%.<br><br>Roedd yr adroddiad NNDR ar gyfer 2013/14 yn cynnwys dau argymhelliad categori Canolig ac wyth argymhelliad categori Isel. Mae ein gwaith dilynol yn 2014/15 wedi canfod nad yw'r argymhellion Canolig sy'n ymwneud â chysoni cyfanswm gwerth biliau gyda nifer yr etifeddiannau y gellir eu trethu a chlirio dyledion sydd wedi'u dileu ac sydd wedi bod ar y system am fwy na deuddeng mis, wedi cael eu gweithredu.<br><br>Gweithredwyd un argymhelliad categori Isel ac mae dau wedi cael eu disodli. Aseswyd nad yw'r pum argymhelliad categori Isel sy'n weddill wedi cael eu gweithredu. Mae'r argymhellion hyn yn ymwneud â phrosesu dyledion i'w dileu ar y system yn brydlon, cynnal ymweliadau ag eiddo sydd wedi'u heithrio, defnyddio gweithdrefnau adfer mewn modd cyson, cyfeirio dyledion yn brydlon at Asiantau Gorfodi ac adolygu cyfrifon lle mae dyledion wedi'u gohirio.<br><br>**Barn:** Gan roi ystyriaeth i'r materion a nodwyd, gellir rhoi sicrwydd rhesymol i'r Cyngor bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risgiau hyn wedi eu dylunio'n addas, yn | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | cael eu gweithredu'n gyson, ac yn effeithiol.<br><br>Fodd bynnag, rydym wedi adnabod materion sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y risgiau'n dod yn rhai gwirioneddol os na fyddant yn derbyn sylw. | |
| 5 | Budd-daliadau Tai WIP 2014/15 | Ebrill 2015 | Adnoddau | 11 | Cynhaliwyd archwiliad o'r Rheolaethau Allweddol – Budd-daliadau Tai fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15. Roedd cyfanswm y Budd-daliadau Tai a dalwyd yn 2014/15 am y cyfnod 01/04/2014 hyd at 11/02/2015 yng nghyswllt tenantiaid preifat oddeutu £8.5 miliwn ac ar gyfer tenantiaid yr ALI yn £7m. Roedd y cyfanswm a ddyfarnwyd dan y cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor oddeutu £5m.<br><br>Roedd y llwyth achosion a gofnodwyd hyd at Ionawr 2015 ar gyfer Hawliadau Budd-dal Tai yn 49,230 ac roedd yn 65,638 ar gyfer Hawliadau Gostyngiad y Dreth Gyngor.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Budd-daliadau o fewn ei darged o ran yr amser a gymerir i brosesu newid mewn amgylchiadau, ar ôl derbyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniad o fewn 14 diwrnod o hawliad newydd ac o ran gwiriadau cywirdeb a wnaed yn y cyfnod. Fodd bynnag, nid yw'r Gwasanaeth wedi cyrraedd targedau a osodwyd mewn perthynas â phrosesu ceisiadau newydd ac adnabod achosion lle mae'r budd-dal sy'n ddyledus wedi cael ei gyfrifo'n anghywir.<br><br>Y maes mwyaf arwyddocaol lle mae'r Gwasanaeth wedi bod yn aneffeithiol yn y cyfnod hwn yw adennil gordaliadau budd-dal sydd wedi cynyddu yn ystod y cyfnod.<br><br>Roedd yr adroddiad Archwilio Mewnol ar Fudd-daliadau Tai | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 2013/14 yn cynnwys 5 argymhelliad categori Canolig a 6 argymhelliad categori Isel. Fe wnaeth gwaith dilynol yn 2014/15 gafod, ar adeg yr adolygiad, fod 4 o argymhellion blaenoriaeth Ganolig a 5 o argymhellion blaenoriaeth Isel wedi cael eu gweithredu.<br><br>Mae'r 2 argymhelliad a aseswyd fel rhai sydd heb eu gweithredu yn ymwneud â chysoni a dileu dyledion nad oes modd eu hadennill a gwahanu dyletswyddau rhwng rolau dyrannu ac adfer.<br><br>**Barn:** Gan roi ystyriaeth i'r materion a nodwyd, gellir rhoi sicrwydd sylweddol i'r Cyngor bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi eu dylunio'n addas, yn cael eu gweithredu'n gyson, ac yn effeithiol. | |
| 6 | Rhenti Tai<br>WIP 2014/15 | Ebrill 2015 | Adnoddau | 4 | Cynhaliwyd archwiliad o Renti Tai fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15. Ar adeg adrodd roedd Gwasanaeth Tai'r Cyngor yn rheoli 3798 o anheddau, 767 o fodurdai a 12 o eiddo ar les ar draws y Sir. Adroddwyd fod yr incwm rhent a amcangyfrifwyd ar gyfer 2014/15 yn £13.8M.<br><br>**Barn:** Gan roi ystyriaeth i'r materion a nodwyd, gellir rhoi sicrwydd sylweddol i'r Cyngor bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi eu dylunio'n addas, yn cael eu gweithredu'n gyson, ac yn effeithiol. | Sylweddol |
| 7 | Gwiriad Stoc DLO<br>WIP 2014/15 | Mai 2015 | Tai | D/B | Cynhaliwyd gwiriad stoc flynyddol gan Wasanaeth Archwilio Mewnol yr Awdurdod yn y Depo BMU ar 28 Mawrth 2015. Nodwyd fod cyfanswm gwerth y stoc wrth gau'r cyfrifon ym mis Ebrill 2015 yn £157,493.13. | Sylweddol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Barn:** Mae'r cofnodion stoc a gedwir yn y depo yn ddigon cywir ac yn darparu cofnod dibynadwy o'r lefelau stoc ar ddiwedd y flwyddyn. | |
| 8 | Rheolaeth Trysorlys WIP 2014/15 | Mai 2015 | Adnoddau | 2 | Cynhaliwyd archwiliad o Reolaeth Trysorlys fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd yn 2014/15. Mae'r swyddogaeth Rheolaeth Trysorlys yn gweithredu oddi mewn i'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a gymeradwywyd a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol sy'n cael ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn bob blwyddyn. Adroddwyd ar y sefyllfa bresennol o ran Rheoli Trysorlys (ar gyfer chwarter 3) i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Chwefror 2015.<br><br>O ganlyniad i'r adolygiad Rheolaeth Trysorlys yn 2013/14 rhoddwyd barn archwilio Gwyrdd a gwnaed tri o argymhellion categori canolig. Mae gwaith dilynol a wnaed fel rhan o'r adolygiad eleni wedi canfod nad yw argymhellion blaenorol wedi cael eu gweithredu'n llawn eto. Mae'r argymhellion blaenorol yn ymwneud â:<br><br>• Hawliau mynediad o fewn system net HSBC a dileu unrhyw ddefnyddwyr nad oes arnynt angen mynediad mwyach;<br>• Sicrhau bod dau lofnodwr awdurdodedig (gwahanu dyletswyddau) yna rwydo er mwyn trosglwyddo arian o fewn yr Awdurdod;<br>• I gynnal trywydd archwilio ac i ddarparu sicrwydd ynghylch gwahanu dyletswyddau dylai llofnodion ar gyfer gwirio tystiolaeth neu ar gyfer awdurdodi neu gymeradwyo taliadau fod yn enw'r sawl sy'n cymryd y cam perthnasol ac ni ddylid eu harwyddo ar ran swyddog sy'n absennol. Dylid cofnodi prosesau a gweithdrefnau Rheoli Trysorlys | Sylweddol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | yn llawn ac yn eglur a rhoi'r dyddiad arnynt er mwyn nodi pwy fedr gymeradwyo'r dogfennau sydd raid wrthynt a gwahanu dyletswyddau.<br><br>**Barn:** O ystyried y materion a nodwyd, gellir rhoi sicrwydd reesymol i'r Cyngor fod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi eu dylunio'n addas, eu gweithredu'n gyson a'u bod yn effeithiol. | |
| 9 | Rheolaethau Allweddol y Gyflogres WIP 2014/15 | Mai 2015 | Adnoddau | 6 | Cynhaliwyd archwiliad o'r system Gyflogres – Rheolaethau Allweddol fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15.<br><br>Y system Gyflogau a ddefnyddir ar hyn o bryd yw Resourcelink a ddarperir gan Northgate ac mae'n system integredig ar gyfer Adnoddau Dynol a'r Gyflogres.<br><br>Roedd 3,850 o gofnodion cyflogres byw ar ddiwedd mis Mawrth 2015 a 2,333 o gofnodion taledig yn y mis. Proseswyd 415 o ddechreuwyr newydd a 444 o adawyr ar y system Gyflogres yn ystod blwyddyn ariannol 2014/15.<br><br>Roedd y casgliadau allweddol o'r adolygiad yn dwyn sylw at ddiffyg gweithdrefnau ffurfiol ysgrifenedig a materion mewn perthynas â chadw cofnodion cyflogres yn ddiogel. Nid yw rheolaethau mynediad yn gorfodi gwahanu dyletswyddau rhwng swyddogaethau AD a swyddogaethau cyflogres. Mae'r diffyg rheolaethau gwahanu dyletswyddau wedi ei amlygu eisioes mewn adroddiad a wnaed yn flaenorol ar y system gyflogres ac mewn adolygiad ar wahân o drefniadau Gwahanu Dyletswyddau a Mynediad Rhesymegol. | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Barn:** O ystyried y materion a nodwyd, gellir rhoi sicrwydd rhesymol i'r Cyngor fod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risgiau hyn wedi eu dylunio'n addas, eu gweithredu'n gyson a'u bod yn effeithiol.<br><br>Fodd bynnag, nodwyd rhai materion a fyddai'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd risgiau'n digwydd. | |
| 10 | Y Brif System Gyfrifo WIP 2014/15 | Mehefin 2015 | Adnoddau | 6 | Cynhaliwyd archwiliad o Brif System Gyfrifo'r Cyngor – CIVICA fel rhan o gynllun archwilio mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15.<br><br>Ar adeg cynnal yr archwiliad roedd y tîm CIVICA wrthi'n ail-lansio'r system. Penderfynwyd ail-lansio'r system oherwydd nifer o wendidau canfyddedig yn y ffordd y cafodd y system ei chyflwyno a sut y defnyddiwyd hi wedyn gan y gwasanaethau. Roedd y trefniadau gweinyddiaeth ar gyfer y system hefyd yn ddiffygiol, yn bennaf oherwydd dogfenaeth wael o ran gweithdrefnau.<br><br>Rhagwelir y bydd y system CIVICA wedi cael ei hail-lansio i bob pwrpas erbyn diwedd eleni ac y bydd yr holl faterion sydd wedi codi yn yr archwiliad wedi cael sylw fel rhan o hynny.<br><br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a / neu rheolaeth fewnol yn rhesymol. Arweiniodd yr adolygiad at farn archwilio Sicrwydd Rhesymol gyda phedwar o argymhellion categori Canolig a dau argymhelliad categori Isel yn cael eu cytuno gyda'r rheolwyr. | Rhesymol |
| 11 | Adfer Gwasanaethau TGCh ar ôl Trychineb | Gorffennaf 2015 | Adnoddau | 13 | Cynhaliwyd yr archwiliad hwn fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16. | Isel iawn |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cynhaliodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad yn 2012/13 o'r trefniadau rheoli ar gyfer Parhad Busnes ac Adfer Gwasanaethau TGCh ar ôl Trychineb.<br><br>Barn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar y pryd oedd na allai'r Cyngor gymryd sicrwydd bod y rheolaethau y mae'n dibynnu arnynt i reoli'r meysydd hyn wedi eu dylunio'n addas ac yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn effeithiol (lefel sicrwydd ISEL IAWN). Cytunwyd ar argymhellion ar gyfer gweithredu ond mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cael gwybod mai ychydig a wnaed ers hynny. Nid yw'r adroddiad archwilio 2015/16 ond yn delio â chynlluniau Adfer Gwasanaethau TGCh ar ôl Trychineb. Paratowyd adroddiad ar wahân ar faterion Parhad Busnes.<br><br>Roedd y prif gasgliadau yn adroddiad 2015/16 yn dangos:<br><br>• Nid oes gan y Cyngor Gynllun ffurfiol ar gyfer Adfer Gwasnaethau TGCh ar ôl Trychineb<br>• Nid oes gan y Cyngor gyfleuster pwrpasol sydd wedi ei leoli i ffwrdd o'r Ystfelloedd TGCh i adfer gwasanaethau TG ar ôl trychineb<br>• Mae angen i wasanaethau gwblhau cynlluniau busnes diweddar i fwydo i mewn i Gynlluniau Adfer Gwasanaethau TGCh ar ôl Trychineb yn y dyfodol<br>• Nid yw'r system a'r data wrth gefn yn cael eu hadfer yn rheolaidd<br>• Nid yw'r system yn cael ei hadfer yn rheolaidd mewn amgylchedd byw ac amgylchedd prawf i sicrhau y gellir defnyddio'r trefniadau wrth gefn i adfer gwasanaeth yn brydlon ac yn ddibynadwy os cyfyd trychineb<br>• Nid yw'r trefniadau ar gyfer pwy sy'n gyfrifol am gynnal | |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | rheolaeth amgylcheddol a sysytemau atal tân yn cael eu cofnodi'n ffurfiol a'u monitro gan TGCh<br>• Nid yw'r UPS cyfredol yn addas i'w bwrpas, ac felly nid oes gan y Cyngor UPS y gallai ei ddefnyddio pe bai toriad i'r cyflenwad trydan.<br>**Barn:** Mae diffyg sylweddol yn y trefniadau ar gyfer llwyodraethaint, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Mae angen cymryd camau rheoli effaith fawr mewn nifer o feysydd.<br>**Mae'r argymhellion yn rhai blaenoriaeth uchaf yn bennaf** | |
| 12 | Gweinyddiaeth y Marchnadoedd ac Incwm Rhent | Gorffennaf 2015 | Gwarchod y Cyhoedd a Chynllunio | 4 | Cynhaliwyd archwiliad o Weinyddiaeth y Marchnadoedd ac Incwm Rhent fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol diwygiedig ar gyfer 2015/16. Nid yw'r maes gwasanaeth hwn wedi bod yn destun adolygiad archwilio ers 2006.<br>Dangosodd y casgliadau allweddol o'r archwiliad nad oedd y gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru i adlewyrchu newidiadau diweddar yng ngweithredoedd y farchnad a'r trefniadau bancio.<br>Roedd yn amlwg hefyd nad oedd system fonitro i sicrhau bod yr holl fasnachwyr yn cynnal ac yn darparu tystiolaeth o ddiogelwch yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol.<br>**Barn:** Arweiniodd yr adolygiad at farn archwilio Sicrwydd Rhesymol gyda thri o argymhellion categori Canolig ac un argymhelliad categori Isel yn cael eu cytuno gyda'r rheolwyr. | Rhesymol |
| 13 | Parhad Busnes | Gorffennaf 2015 | Corfforaethol | 7 | Cynhaliwyd archwiliad o drefniadau Parhad Busnes fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer | Cyfyngedig |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 2015/16.<br><br>Mae Rheoli Parhad Busnes yn ddyletswydd statudol i awdurdodau lleol ac yn rhan allweddol o'r prosesau llywodraethaint. Yn unol â Deddf Argyfyngau Sifil Posib 2004 rhaid paratoi a gweithredu cynlluniau i sicrhau bod gwasanaethau, yn arbennig gwasanaethau statudol, yn medru parhau.<br><br>Prif gasgliadau'r adolygiad ar y Cynllun Parhad Busnes Dros Dro yw nad yw, yn ei ffurf gyfredol, yn ddigon cyflawn i sicrhau bod modd adfer data a phrosesau'r Cyngor yn effeithlon ac yn effeithiol pe bai trychineb yn digwydd.<br><br>Nid yw cyfrifoldebau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth mewn perthynas â Pharhad Busnes wedi eu datgan yn eglur o fewn y Cynllun Parhad Busnes ac nid yw materion Parhad Busnes yn cael eu hadrodd a'u rheoli ar y lefel uchaf.<br><br>Dylai'r gwaith i sefydlu Gweithgor Rheoli Parhad Busnes a Chynllunio Argyfwng barhau a dylai'r Cynllun Parhad Busnes Corfforaethol cynhwysfawr ymgorffori trefniadau Rheoaleth Adfer Adeiladau.<br><br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig. Arweiniodd yr adolygiadau at Farn Archwilio Sicrwydd Cyfyngedig gyda phump o argymhellion categori Uchel a dau argymhelliad categori Canolig yn cael eu cytuno gyda'r rheolwyr. | |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| 14 | Fframwaith Rheoli Risg a'r 5 Prif Risg | Medi 2015 | Corfforaethol | 3 | Cynhaliwyd yr archwiliad hwn fel rhan o'r cynllun cyfnodol Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16.<br><br>Comisiynodd yr UDA adolygiad o'r modd y defnyddir y Fframwaith Rheoli Risg yn haf 2014 a chanfuwyd:<br>• Bod y modd y defnyddir y fframwaith risg ar draws y Cyngor yn anghyson<br>• Nid yw'r berthynas rhwng cofrestrau risg y gwasanaethau a'r gofrestr gorfforaethol yn glir<br>• Diffyg eglurder ynghylch y broses ar gyfer uwchgyfeirio neu atborth; a<br>• Nid yw risg wedi ei halinio'n dda gyda'r broses gynllunio a rheoli perfformiad.<br><br>Mae'r Polisi a'r Prosesau wedi cael eu hadolygu ac mae uwch swyddogion a staff wedi cael hyfforddiant. Mae Cofrestrau Risg y Gwasanaethau wrthi'n cael eu hadolygu a'u hymgorffori i'r Broses cynllunio Busnes ac roedd Cofrestr Risg Gorfforaethol ddiwygiedig wedi cael ei sefydlu erbyn diwedd Chwarter 1 yn 2015.<br><br>Ym mhrif ganfyddiadau'r adolygiad, nodwyd nad yw Cynlluniau Darparu Gwasanaeth bob amser yn cael eu cyflwyno'n brydlon ac o fewn amserlen gyda'r holl adrannau wedi eu cwblhau gan gynnwys y cysylltiadau i'r Cofrestrau Risg.<br><br>Nid oedd tystiolaeth o'r rheoliadau cyfredol mewn perthynas â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol bob amser ar gael.<br><br>**Barn**: Cafwyd barn archwilio Sicrwydd Rhesymol yn dilyn yr | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | adolygiadau gyda dau o argymhellion categori Canolig ac un argymhelliad categori Isel yn cael eu cytuno gyda'r rheolwyr. | |
| 15 | Llywodraethu Gwybodaeth – Adolygiad Blynyddol o Gydymffurfiaeth | Hydref 2015 | Corfforaethol | 7 | Cynhaliwyd archwiliad o Lywodraethu Gwybodaeth - Adolygiad Blynyddol o Gydymffurfiaeth fel rhan o'r cynllun cyfnodol Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16.<br><br>Y canfyddiadau allweddol o'r adolygiad yw:<br><br>• Nid yw contractwyr trydydd parti sy'n prosesu data personol ar ran y Cyngor wedi cael eu nodi er mwyn sicrhau bod Cytundeb Prosesu Data priodol wedi cael ei weithredu ac nid yw Cytundebau Prosesu Data ar gael ar gyfer pob Contract 'Categori 1'.<br><br>• Nid oes unrhyw systemau, prosiectau neu brosesau wedi cael eu gweithredu yn ystod yr adolygiad archwilio ac o'r herwydd nid oedd unrhyw dystiolaeth o Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd a gynhaliwyd ar gael i'w hadolygu gan yr archwiliwr.<br><br>• Nid oedd yr holl Berchenogion Asedau Data (PAD) yn gallu rhoi sicrwydd bod mesurau priodol yn eu lle i storio, symud, cadw a chael gwared ar gofnodiadau'n ddiogel mewn sefydliadau y tu allan i'r Pencadlys.<br><br>• Nid oes gan y Cyngor weithdrefnau ar gyfer rheoli cofnodiadau electronig sy'n cynnwys data cyfrinachol.<br><br>• Ni fedrir rhoi sicrwydd ynghylch a yw asesiad wedi ei gynnal o ddata personol a rennir ar hap oherwydd nid oedd y data ar gael i roi prawf arno.<br><br>• Nid yw'r holl staff yn cydymffurfio gyda'r Polisi Deg Glir a weithredwyd gan Reolwyr. | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Nid yw rhybuddion preifatrwydd y Cyngor a gyhoeddwyd gan bob gwasanaeth yn glir, yn gyson ac ar gael i gasglu, prosesu a rhannu data.<br>• Nid oes unrhyw gofnod canolog o'r holl rybuddion preifatrwydd ac nid oedd unrhyw dystiolaeth fod rhybuddion preifatrwydd wedi cael eu trosglwyddo i'r templed corfforaethol ar gyfer rhybuddion preifatrwydd.<br>• Nid oedd unrhyw adroddiad ysgrifenedig wedi cael ei gyflwyno i'r UDA ynghylch digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch data, achos y rheiny ac effeithiolrwydd yr ymateb yn unol â'r Polisi ar gyfer Digwyddiadau Diogelwch Data. Cydnabuwyd bod yr UDA wedi bod yn cael gwybod ar lafar am unrhyw ddigwyddiadau.<br><br>**Barn**: Cafwyd barn archwilio Sicrwydd Rhesymol yn dilyn yr adolygiadau gyda phump o argymhellion categori Canolig a dau argymhelliad categori Isel yn cael eu cytuno gyda'r rheolwyr. | |
| 16 | Ysgol Brynsiencyn | Rhagfyr 2015 | Dysgu Gydol Oes | 7 | Cynhaliwyd archwiliad o Ysgol Brynsiencyn fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16.<br>Canfyddiadau allweddol yr adolygiad yw:<br>• Mae'r cofnod o brydau ysgol yn cael ei gynnal i safon uchel yn yr ysgol.<br>• Mae gan y Corff Llywodraethol drefniadau priodol ar waith i ddiffinio hawliau pennaeth i awdurdodi gwariant a throsglwyddo arian rhwng penawdau ariannol.<br>• Defnyddir dogfennau priodol yn yr ysgol i fonitro | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | perfformiad athrawon (blynyddol) ac amcanion perfformiad y pennaeth.<br><br>• Mae cyfrifon cronfa’r ysgol yn cael eu cynnal i safon briodol ac yn cael eu harchwilio'n annibynnol yn flynyddol. Dylai’r ddogfen "Cofnod o’r Archwiliad o Gronfa’r Ysgol" gael ei chyflwyno i'r Corff Llywodraethol yn flynyddol.<br>• Mae cyfansoddiad y Corff Llywodraethol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.<br>• Mae gan yr ysgol bolisïau statudol priodol.<br>• Mae'r ysgol yn cydymffurfio â Pholisi Fflyd a Gyrwyr yr Awdurdod.<br>• Canfuwyd rhai gwendidau mewn perthynas ag archebu gwaith, nwyddau a gwasanaethau. Roedd yr holl wariant wedi’i awdurdodi’n briodol ac roedd cyfrif cywir ohono.<br><br>**CAMAU ALLWEDDOL A GYTUNWYD**<br><br>• Dylai archebion prynu gael eu cwblhau ymlaen llaw.<br>• Dylai cofrestr gyflawn o fuddiannau busnes y Llywodraethwyr, y Pennaeth a'u teulu agosaf gael ei chadw’n unol â Chynllun Ariannu Teg y Gwasanaeth Addysg.<br>• Dylai’r Pennaeth nodi manylion pob athro llanw a | |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ddefnyddir gan yr ysgol yn y dyddiadur electronig.<br>• Dylai'r "Cofnod o'r Archwiliad o Gronfa'r Ysgol" gael ei gyflwyno i Fwrdd y Llywodraethwyr yn flynyddol.<br>• Dylid cynnal gwiriad ffisegol o asedau'r ysgol ac yn ogystal, eu marcio gydag inc parhaol neu ysgrifbin uwch-fioled.<br>• Dylid sicrhau cysondeb rhwng y gofrestr brecwast am ddim a'r "Cynllun Brecwast" (Atodiad C).<br>• Dylai'r ysgol fabwysiadu polisi CCTV.<br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a / neu reolaeth fewnol yn rhesymol.<br>Mae angen cymryd camau rheoli ar lefel gymedrol i isel. | |
| 17 | Ysgol Cemaes | Rhagfyr 2015 | Dysgu Gydol Oes | 14 | Cynhaliwyd archwiliad o Ysgol Cemaes fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16.<br>Canfyddiadau allweddol o'r adolygiad yw:<br>• Mae gan y Corff Llywodraethol drefniadau priodol ar waith i ddiffinio hawliau pennaeth i awdurdodi gwariant a throsglwyddo arian rhwng penawdau ariannol.<br>• Mae incwm yr ysgol yn cael ei gasglu, ei gofnodi a'i fancio yn unol â chyfarwyddiadau'r Adran Addysg.<br>• Cafodd dogfennau priodol i fonitro perfformiad y pennaeth eu cwblhau ar gyfer 2014/15. | Cyfyngedig |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Mae nifer y disgyblion yn y "Cyfrifiad Ystadegol" yn cyfateb i gofnodiadau'r ysgol.<br><br>• Roedd cyfrif cronfa'r ysgol yn foddhaol a chynhyrchir crynodeb gweithgaredd bob blwyddyn ar gyfer rhieni.<br><br>• Mae cyfansoddiad y Corff Llywodraethol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.<br><br>• Mae gan yr ysgol rai polisïau statudol.<br><br>• Canfuwyd rhai gwendidau mewn perthynas ag archebu gwaith, nwyddau a gwasanaethau. Roedd yr holl wariant a brofwyd wedi'i awdurdodi'n briodol ac roedd cyfrif cywir ohono.<br><br>**CAMAU ALLWEDDOL A GYTUNWYD**<br><br>• Dylai incwm prydau ysgol gael ei gofnodi'n gywir a dylai fod cysondeb rhwng y ffurflenni PY7, CT182a a CT183a.<br><br>• Dylai archebion gael eu cwblhau cyn derbyn nwyddau.<br><br>• Dylai trefniadau gosod yr ysgol gael eu gweinyddu yn unol â chanllawiau'r Awdurdod.<br><br>• Dylai cronfa'r ysgol gael ei harchwilio yn flynyddol.<br><br>• Dylai asedau'r ysgol gael eu marcio gydag inc parhaol neu ysgrifbin uwch-fioled.<br><br>• Dylai'r gofrestr brecwast am ddim gyd-fynd â'r "Cynllun | |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Brecwast" (Atodiad C).<br><br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig.<br><br>Mae angen cymryd camau rheoli ar lefel uchel i gymedrol. | |
| 18 | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi a'r Cynllun Benthyciadau Pontio | Rhagfyr 2015 | Tai | 24 | Cynhaliwyd yr archwiliad fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16. Yn yr archwiliad, edrychwyd ar Themâu 1 a 2 y Strategaeth Dai Leol a oedd yn ymwneud â mynd i'r afael a mater tai fforddiadwy a chartrefi gwag dan y Rhaglen Datblygu Tai Fforddiadwy, gan ddarparu cymorth o ran y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, cyllido Tai Gwag a rhoi cymorth i adnewyddu tai yn y sector preifat.<br><br>Dyma oedd y canfyddiadau allweddol yn dilyn yr adolygiad hwn:<br><br>• Ni fedr yr Adran Dai gael gafael ar wybodaeth ariannol am ffioedd refeniw ac incwm ar gyfer monitro cynlluniau a'u rheolaeth ariannol.<br>• Nid yw'r Adran Dai yn ymwybodol bod gwybodaeth ariannol ynghylch derbyniadau cyfalaf ar gael ac yn cael eu monitro gan y Tîm Cyfalaf yn fisol.<br>• Nid yw'r Adran Dai yn cysoni'r wybodaeth am y cynlluniau a ledjer ariannol y Cyngor.<br>• Nid oes unrhyw weithdrefnau sy'n amlinellu'r modd y mae'r broses o adennill benthyciadau pontio sy'n ddyledus yn cael ei gweithredu a'i monitro.<br>• Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan Adran y Dreth Gyngor i nodi eiddo gwag yn anghyflawn ac yn anghywir ac yn cael effaith ar effeithlonrwydd y Swyddog Cartrefi Gwag a'r modd y mae'n monitro perfformiad. | Cyfyngedig |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Mae’n bosib y bydd diffyg gallu i wahaniaethu rhwng cartrefi gwag ac ail gartrefi’n effeithio ar ddisgresiwn yr Awdurdod Lleol wrth weithredu premiwm treth gyngor o hyd at 100% o'r dreth gyngor safonol ar ail gartrefi, ( Deddf Tai (Cymru) 2014 - Treth Gyngor ar gyfer cartrefi gwag ac ail gartrefi).<br><br>**Barn:** Barn archwilio Sicrwydd Cyfyngedig yn gyffredinol o ganlyniad i'r adolygiadau gyda thri o argymhellion categori Uchel ac un ar ddeg o argymhellion categori Canolig yn cael eu cytuno gyda rheolwyr. | |
| 19 | Partneriaethau | Ionawr 2016 | Corfforaethol | 5 | Mae’r Cyngor yn brysur wrthi mewn nifer o bartneriaethau yn genedlaethol, rhanbarthol, isranbarthol a lleol gan gymryd rhan mewn ystod o ffyrdd, o gydweithredu i integreiddio’n llawn. Ystyrir ei bod yn hanfodol gweithio mewn partneriaeth lwyddiannus er mwyn cyflawni amcanion corfforaethol a gwasanaethau gwell ar draws y sefydliad.<br><br>Cynhaliwyd yr adolygiad archwilio yn Awst a Medi 2015 er mwyn canfod trefniadau’r Cyngor sydd yn eu lle, eu cofnodi a’u gwerthuso er mwyn rheoli, lleddfu, monitro ac adrodd ar y risgiau sy’n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth.<br><br>Dyma ganfyddiadau allweddol yr adolygiad hwn:<br><br>▪ Ar hyn o bryd nid oes polisi partneriaeth wedi’i sefydlu i roi fframwaith er mwyn rheoli trefniadau partneriaethau hen a newydd yn llwyddiannus ac ni chedwir cofrestr ganolog i gofnodi partneriaethau y mae’r Cyngor yn ymwneud â nhw;<br>▪ Mae gwaith adrodd ar lwyddiant neu wendid perfformiad partneriaeth yn wan; | Cyfyngedig |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ▪ Ychydig iawn o drosolwg sydd o berfformiad partneriaeth a threfniadau llywodraethu;<br>▪ Nid oes proses ar gyfer asesu manteision/anfanteision trefniadau partneriaeth barhaus yn flynyddol/rheolaidd.<br>▪ Nid oes proses wedi'i sefydlu i adolygu cofrestri risg partneriaethau allweddol ac nid cofrestr risg pob gwasanaeth sy'n tynnu sylw at risgiau gweithio mewn partneriaeth.<br>▪ Cadarnhawyd mewn perthynas â phrofi sampl o bartneriaethau unigol fod cytundebau'r partneriaethau unigol yn cael eu cofnodi'n ffurfiol, trefniadau rheoli'n cael eu diffinio a swyddogaethau, maes cyfrifoldeb a nodau cyffredinol y partneriaethau'n cael eu nodi'n glir.<br>▪ Ym mhob achos perthnasol, cafodd sail cyfraniad y Cyngor i'r bartneriaeth ei diffinio a lle'r oedd yn berthnasol, amlinellwyd yn glir yr ymdriniaeth o unrhyw warged neu ddiffyg ac unrhyw ased neu atebolrwydd a gyfyd unwaith y deuai'r prosiect i ben / yr oedd y prosiect yn bwriadu dod i ben.<br>▪ Ym mhob achos hefyd roedd y cytundeb partneriaeth yn darparu ar gyfer penderfyniadau a â'n groes i'w gilydd a manylwyd yn glir ar yr amgylchiadau hynny lle gallai partneriaid dynnu'n ôl o'r cytundeb/ ddirwyn y cytundeb i ben.<br>▪ Mewn perthynas â'r sampl o bartneriaethau a adolygwyd, mae digon o hyblygrwydd o ran cyfraniadau ariannol i ganiatáu i'r Cyngor gwrdd â'i dargedau arbedion.<br><br>**Barn:** Yn sgil yr adolygiad cafwyd barn archwilio o Sicrwydd Cyfyngedig cyffredinol gyda rheolwyr yn cytuno â phum | |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | argymhelliad Categori Uchel. | |
| 20 | Polisïau ac Arferion Adnoddau Dynol ar gyfer Rheoli'r Gweithlu | Ionawr 2016 | Trawsnewid | 14 | Cynhaliwyd archwiliad o Bolisïau ac Arferion Adnoddau Dynol ar gyfer Rheoli'r Gweithlu fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16.<br><br>Dyma ganfyddiadau allweddol yr adolygiad hwn:<br><br>• Mae polisïau a threfniadaethau Adnoddau Dynol ar gael bob amser ar Fewnrwyd y Cyngor a gwneir gweithwyr yn ymwybodol o bolisïau a threfniadaethau yn ystod yr Hyfforddiant Cyflwyno.<br>▪ Nid oedd modd i system gyfredol Adnoddau Dynol, Northgate, greu cofnod oedd yn nodi'r gweithwyr hynny nad oedd wedi bod yn mynd ar gyrsiau hyfforddi penodol. Cedwir cofnod â llaw gan Swyddog Adnoddau Dynol pob gwasanaeth.<br>▪ Ni welwyd rhestr o ddigwyddiadau hyfforddi gorfodol, corfforaethol.<br>▪ Ceir cyfleuster ar y system Northgate MyView lle mae modd i reolwyr weld cofnodion hyfforddi eu gweithwyr. Fodd bynnag, hyd yn hyn nid yw'r cyfleuster wedi'i alluogi gan ddarparwr y system.<br>▪ Nid oes trefniadaethau sy'n amlinellu sut i gyfrifo balansau hawl i wyliau blynyddol y rhai sy'n gadael, rhywbeth y mae gofyn i reolwyr ei gyfrifo.<br>▪ Gwelwyd bod yr hawl i wyliau blynyddol wedi'i gyfrifo'n anghywir mewn 44% o sampl a brofwyd o rai oedd yn gadael (7/16), gan arwain at gyfanswm a ordalwyd o | Cyfyngedig |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | £754.92.<br>▪ Nid yw'r adain gyflogau o hyd yn cael gwybod gan reolwyr o'r holl gyfnodau tadolaeth a gymerir fel bod modd sicrhau y cyfrifir yn gywir Dâl Tadolaeth Statudol ar gyfer gweithwyr cymwys.<br>▪ Cymerodd Gwasanaethau ar gyfartaledd ddau ddiwrnod i gynnal Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith wedi i weithiwr fod i ffwrdd yn sâl, a hynny o fewn y targed o bum niwrnod wedi iddo ddychwelyd i'w waith.<br>▪ Nid oedd 26% (15/58) o Gofnodion Absenoldeb Salwch yn gyflawn h.y. nid oedd dogfennau cefnogi ar gael a/neu wedi'u cwblhau.<br>▪ Nid oedd 17% (2/12) o weithwyr yn cydymffurfio â rheolau a rheoliadau'r Cynllun Oriau Gweithio'n Hyblyg.<br>▪ Nid oes tystiolaeth fod rheolwyr yn cynnal Adolygiadau Gwella Perfformiad yn y Cyngor.<br><br>**Barn:** Yn sgil yr adolygiad cafwyd barn archwilio o Sicrwydd Cyfyngedig cyffredinol gyda'r rheolwyr yn cytuno â dau argymhelliad Categori Uchel, saith argymhelliad Categori Canolig a phum argymhelliad Categori Isel. | |
| 21 | Rheoli Fflyd | Ionawr 2016 | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 6 | Cynhaliwyd archwiliad o Waith Rheoli Fflyd a Gyrwyr fel rhan o gynllun cyfnodol archwilio mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16.<br><br>Dyma ganfyddiadau allweddol yr adolygiad hwn:<br><br>▪ Mae'r Polisi Rheoli Fflyd a Gyrwyr wedi'i adolygu o bryd i'w | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | gilydd yn wyneb deddfwriaeth ers ei weithredu yn 2009.<br>▪ Cafwyd sicrwydd fod cerbydau fflyd y Cyngor wedi'u cofnodi'n briodol ar y Gofrestr Asedau Gorfforaethol hyd at ddiwedd y flwyddyn.<br>▪ Nid yw data a gwybodaeth am fonitro perfformiad yn cael eu cofnodi mewn cyfarfodydd rheoli i gefnogi penderfyniadau rheolwyr a bod yn fodd i gynorthwyo Dangosyddion Perfformiad chwarterol.<br>▪ Mae'r Awdurdod yn ceisio gwerth am arian trwy gaffael swp o gerbydau fflyd a mynd allan i dendr yn unol â chanllawiau'r CPR a'r Undeb Ewropeaidd.<br>▪ Mae'r Awdurdod yn rhan o "Grŵp Cludiant a Pheiriannau Cymru Gyfan" sy'n cynnal ymarferion meincnodi rhwng pob un o'r 22 Awdurdod lleol.<br>▪ Dengys data meincnodi fod yr Awdurdod yn cymharu'n ffafriol ag awdurdodau eraill mewn perthynas â thrwsio a chynnal a chadw cerbydau fflyd yn fewnol a gwerth am arian mewn perthynas â phrynu tanwydd ar gyfer cerbydau fflyd.<br><br>**Barn:** Mae trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a/neu reolaeth fewnol yn rhesymol | |
| 22 | Ysgol Amlwch | Ionawr 2016 | Dysgu Gydol Oes | 5 | Cynhaliwyd archwiliad o Ysgol Gynradd Amlwch fel rhan o gynllun cyfnodol archwilio mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16 2015/16.<br><br>Dyma ganfyddiadau allweddol o'r adolygiad hwn: | Sylweddol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Cadwyd cofnod o'r prydau ysgol i safon uchel yn yr ysgol<br>• Cynhelir cyfrifon cronfa'r ysgol i safon briodol a chânt eu harchwilio'n annibynnol yn flynyddol. Dylid cyflwyno'r ddogfen "Cofnod Archwilio Cronfa'r Ysgol" i'r Corff Llywodraethu'n flynyddol<br>• Mae cyfansoddiad y corff llywodraethu'n cydymffurfio â'r gofynion statudol<br>• Mae gan yr ysgol bolisïau statudol priodol.<br><br>**Barn:** Mae trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a/neu reolaeth fewnol yn dda | |
| 23 | Ysgol Gynradd Bodedern | Chwefror 2016 | Dysgu Gydol Oes | 16 | Roedd canfyddiadau allweddol archwiliad o Ysgol Gynradd Bodedern fel rhan o gynllun cyfnodol archwilio mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16 fel a ganlyn:<br><br>• Trafodir cyllideb yr ysgol yn rheolaidd gyda'r Llywodraethwyr a'i fabwysiadu'n flynyddol gan y corff llywodraethu<br>• Cedwir cofnod o brydau ysgol a brecwast ysgol i safon foddhaol<br>• Yn gyffredinol, dilynwyd y broses ar gyfer archebu nwyddau a thalu amdanynt ond ni châi'r archeb ei llofnodi hyd oni dderbyniwyd yr anfoneb<br>• Nid yw ffurflenni adolygu tâl athrawon wedi'u cwblhau ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16 ond cafodd ffurflenni'r flwyddyn flaenorol eu dychwelyd yn brydlon<br>• Cafodd cyfrifon cronfa'r ysgol ar gyfer 2014/15 eu harchwilio gan berson annibynnol ond ni welwyd cofnod yng nghofnodion y penodiad swyddogol gan y Corff | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Llywodraethu.<br><br>**Barn:** Yn sgil yr adolygiad cafwyd barn archwilio o Sicrwydd Cyfyngedig cyffredinol gyda rheolwyr yn cytuno â dau argymhelliad Categori Uchel, saith argymhelliad categori Canolig a phum argymhelliad categori Isel. | |
| 24 | Treth y Cyngor | Mawrth 2016 | Adnoddau | 8 | Cynhaliwyd archwiliad o'r system casglu arian treth y cyngor fel rhan o gynllun cyfnodol archwilio mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16<br><br>Dyma ganfyddiadau allweddol o'r adolygiad hwn:<br><br>▪ Ni chysonwyd nifer y biliau Treth y Cyngor a grëwyd yn ôl y ffeiliau bilio a'r biliau a ddosbarthwyd yn ôl y dderbynneb bost a roddwyd gan y contractwr.<br>▪ Ni chyrhaeddwyd y targedau ar gyfer ymweld ag eiddo eithriedig/gwag yn ystod y cyfnod oherwydd problemau adnoddau.<br>▪ Nid oes proses ar gyfer cadarnhau fod rhywun yn parhau i fod yn gymwys am y Disgownt Person Sengl a weithredir ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd nid oes rhaid datgan yn ffurfiol fod y wybodaeth a roddir yn gywir yng nghyswllt statws meddiannaeth sengl a newidiadau mewn amgylchiadau.<br><br>**Barn:** Yn sgil yr adolygiad cafwyd barn archwilio o Sicrwydd Rhesymol cyffredinol gyda rheolwyr yn cytuno â phedwar | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | argymhelliad categori canolig a phedwar argymhelliad categori isel. | |
| 25 | Trethi Annomestig | Mawrth 2016 | Adnoddau | 7 | Cynhaliwyd archwiliad o'r system ar gyfer casglu Trethi Annomestig fel rhan o gynllun cyfnodol archwilio mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16 2015/16.<br><br>Dyma ganfyddiadau allweddol yr adolygiad hwn:<br><br>▪ Ni chysonwyd nifer y biliau Treth y Cyngor a grëwyd yn ôl y ffeiliau bilio a'r biliau a ddosbarthwyd yn ôl y dderbynneb bost a roddwyd gan y contractwr.<br>▪ Ni chyrhaeddwyd y targedau ar gyfer ymweld ag eiddo eithriedig/gwag yn ystod y cyfnod oherwydd problemau adnoddau.<br><br>**Barn:** Yn sgil yr adolygiad cafwyd barn archwilio o Sicrwydd Rhesymol cyffredinol gyda rheolwyr yn cytuno â dau argymhelliad categori canolig a phum argymhelliad categori isel. | Rhesymol |
| 26 | Y Brif System Gyfrifo | Mawrth 2016 | Adnoddau | 9 | Cynhaliwyd archwiliad o'r Brif System Gyfrifo - CIVICA fel rhan o gynllun cyfnodol archwilio mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16.<br><br>Dyma ganfyddiadau allweddol yn yr adolygiad hwn:<br><br>▪ Ar hyn o bryd nid oes ffordd o adnabod rhifau porthi dyblyg yn y system CIVICA.<br>▪ Nid yw'r amserlen ar gyfer creu cyfrifon rheoli wedi'u | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | nodi'n ffurfiol fel bod sicrwydd fod yr holl borthwyr wedi'i mewnbynnu cyn cau'r cyfrif ar ddiwedd y mis<br>▪ Ni chaiff trefniadaethau ddiwedd y mis eu cofnodi<br>▪ Ni chaiff gwaith cysoni balansau ddiwedd y flwyddyn i'r cyfriflyfr cyffredinol eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf yn brydlon o 2014/15 i 2015/16.<br>▪ Ni chaiff gwaith cysoni dyledwyr ei wneud yn fisol.<br>▪ Dylai gwaith rheoli cyfrineiriau adlewyrchu polisi TGCh yr Awdurdod ar fynediad rhesymegol i rai nad ydynt yn defnyddio'r rhwydwaith.<br>▪ Nid yw tîm CIVICA yn adolygu priodoldeb lefelau mynediad cyfrifyddion a defnyddwyr lefel uchel.<br><br>**Barn:** Yn sgil yr adolygiad cafwyd barn archwilio o Sicrwydd Rhesymegol cyffredinol gyda rheolwyr yn cytuno â dau argymhelliad categori Canolig a dau argymhelliad categori Isel. | |
| 27 | Strategaeth Dai | Mawrth 2016 | Tai | 6 | Cynhaliwyd yr archwiliad fel rhan o gynllun cyfnodol archwilio mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16.<br><br>Dyma ganfyddiadau allweddol yr adolygiad hwn:<br><br>▪ Datblygwyd y Strategaeth Dai trwy roi sylw i faterion cyfredol sy'n cael effaith ar Dai, megis y diwygiad Lles, y Dirywiad Economaidd, Deddf Tai (Cymru) 2014 a'r canlyniadau o ddadansoddi ystadegol. Cydnabyddir bod angen gwneud cysylltiadau â meysydd gwaith mawr eraill i'r Cyngor os yw'r Strategaeth am gyflawni ei bwrpas yn lleol. O'r herwydd, rhoddwyd ystyriaeth i amcanion | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | corfforaethol wrth ysgrifennu'r strategaeth.<br>▪ Sefydlwyd Partneriaeth Tai Môn yn 2014 ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau Tai ac Oedolion yn ogystal â chynrychiolwyr o sefydliadau allanol megis cymdeithasau tai lleol.<br>▪ Cafodd y Strategaeth Dai gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 12 Ionawr 2015.<br>▪ Mae'r Strategaeth Dai'n rhoi sylw i ddibenion allweddol Deddf Tai (Cymru) 2014.<br>▪ Er cyfathrebu gyda rhanddeiliaid allanol a chynnal cysylltiadau â nhw trwy Bartneriaeth Tai Môn, gellid cryfhau cyfathrebu mewnol. Cafwyd nad oedd y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn adlewyrchu holl agweddau'r Strategaeth a dylid cyfleu newidiadau sy'n cael dylanwad ar yr amcanion corfforaethol yn fewnol ac yn briodol. Nid oedd agweddau o'r Strategaeth wedi'u cynnwys mewn dau o'r pum Cynllun Cyflawni Gwasanaeth unigol a gafwyd gan yr Archwilydd.<br>▪ Mae cynllun gwaith wedi'i ddatblygu i sicrhau y gweithredir y Strategaeth a bod trefn yn ei lle ar gyfer monitro. Bydd Partneriaeth Tai Môn yn cael gwybod am y sefyllfa ddiweddaraf ddwywaith y flwyddyn yn erbyn y cynllun gwaith a bydd y Pwyllgor Gwaith yn cael adolygiad blynyddol. Adeg yr archwilio, mae'r Bartneriaeth wedi cael gwybodaeth unwaith am y sefyllfa ddiweddaraf yn erbyn y cynllun gweithredu a bydd disgwyl cael y sefyllfa ddiweddaraf eto ym mis Mai 2016.<br>▪ Mae modd cryfhau'r broses fonitro trwy greu gweithdrefnau i bennu cyfrifoldebau unigol a chasglu | |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | gwybodaeth sy'n cefnogi gweithredu'r cynllun gwaith.<br>▪ Caiff y cynllun gwaith ei fonitro a'i gyflwyno i'r Bartneriaeth bob chwe mis.<br>▪ Nid oes gweithdrefnau'n ymwneud â chael gwybod am y sefyllfaoedd diweddaraf yn sgil adolygiad o agweddau lle ni lwyddwyd i weithredu / neu y rhoddir ystyriaeth i ganlyniadau / ddewisiadau eraill.<br><br>**Barn:** Yn sgil yr adolygiad cafwyd barn archwilio o Sicrwydd Rhesymol cyffredinol gyda rheolwyr yn cytuno â dau argymhelliad categori Canolig a phedwar argymhelliad categori isel. | |
| 28 | Ysgol Talwrn | Mawrth 2016 | Dysgu Gydol Oes | 14 | Cynhaliwyd archwiliad o Ysgol Talwrn fel rhan o gynllun cyfnodol archwilio mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16.<br><br>Dyma ganfyddiadau allweddol o'r adolygiad:<br>◆ Cafwyd bod cyllideb yr ysgol yn cael ei mabwysiadu gan y corff llywodraethu ac y caiff materion ariannol eu trafod yn rheolaidd.<br>◆ Cafwyd bod lefel dyledion prydau ysgol yn uchel gyda 43.6% o'r arian yn ddyledus adeg yr ymweliad.<br>◆ Cafwyd y câi grym ariannol y Pennaeth, a'r Pennaeth mewn cydweithrediad â Chadeirydd y Llywodraethwyr, ei adolygu'n rheolaidd.<br>◆ Cafwyd bod cofrestr buddiannau busnes y Pennaeth a'r Llywodraethwyr a'u teulu agos yn gyflawn ac yn cael ei | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | hadolygu'n rheolaidd.<br>◆ Cafodd profion a gynhaliwyd ar sampl o gofnodion incwm prydau ysgol, brecwast ysgol a chofnodion incwm cyffredinol fod cofnodion yn gywir ac yn cael eu cadw i safon foddhaol.<br>◆ Nid oedd yr ysgol wastad yn cwblhau ffurflen archebu cyn prynu nwyddau na chwblhau'r blychau perthnasol yn gywir ar y ffurflen oedd yn weddill.<br>◆ Mae'r ysgol wedi cofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth yn unol â Deddf Gwarchod Data 1988.<br><br>**Barn:** Yn sgil yr adolygiad cafwyd barn archwilio o Sicrwydd Rhesymol cyffredinol gyda rheolwyr yn cytuno â phedwar argymhelliad categori canolig a deg argymhelliad categori isel. | |
| 29 | Grant Gwella Addysg | Mawrth 2016 | Dysgu Gydol Oes | 0 | Bwriad yr adolygiad oedd bodloni gofynion grant a rhoi sicrwydd y cedwir cofnodion cyfrifo clir o symiau o arian dirprwyedig ac adnabod yr holl incwm a'r gwariant mewn perthynas ag arian nad yw'n ddirprwyedig.<br><br>Cyfyngwyd yr adolygiad i'r Grant Gwella Addysg a roddwyd i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru yn 2015/16. Dengys ffigyrau gan y Gwasanaeth Cyllid mai £3,604,209 oedd cyfanswm cyffredinol y grant yn ystod y cyfnod oedd yn cynnwys grant gwella addysg o £3,296,824 yn ogystal ag arian cyfatebol o £307,385.<br><br>O adolygu'r rheolaethau a'r cofnodion grant, mae modd rhoi sicrwydd y cadwyd rheolaethau a chofnodion digonol a chywir mewn perthynas â'r Grant Gwella Addysg ar gyfer cyfnod 2015/16. | Sylweddol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Ni wnaed argymhellion yn yr adolygiad | |
| 30 | Dyledion Prydau Ysgol | Mawrth 2016 | Dysgu Gydol Oes | 9 | Cynhaliwyd adolygiad archwilio mewnol o weinyddiaeth dyledion prydau ysgol yn yr Awdurdod fel rhan o gynllun cyfnodol archwilio mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16.<br><br>Dyma'r canfyddiadau allweddol yn yr adolygiad hwn:<br><br>▪ Dim ond 7 allan o 48 ysgol gynradd yn yr Awdurdod sydd â mynediad i'r rhaglen yn y System Gwybodaeth a Rheoli Ysgolion (SIMS) i gynorthwyo gyda gwaith cofnodi a monitro incwm a chofrestri prydau ysgol. O fis Medi 2016 ymlaen bydd system electronig newydd yn ei lle ym mhob ysgol i ganiatáu i ysgolion reoli incwm prydau ysgol.<br>▪ Nid oedd ysgolion yn cydymffurfio'n llawn â gweithdrefnau'r Gwasanaeth Addysg i reoli ac adfer dyledion prydau ysgol. O'r herwydd, gweithredir yn anghyson wrth adfer dyledion yn ysgolion yr Awdurdod.<br>▪ Mae dyledion prydau ysgol yn uwch na chanllawiau canran y Gwasanaeth Addysg o 10% ym mhob un o'r pum ysgol a archwiliwyd. Gwelwyd bod y dyledion, ar gyfartaledd, yn y pum ysgol a archwiliwyd yn 45.14% o'r arian yr oedd disgwyl ei dalu ar gyfer Rhagfyr 2015.<br>▪ Nid oedd ffurflenni CT183a (wythnosol) a CT182a (misol) wastad yn cael eu cwblhau'n gywir a chafwyd camgymeriadau yn y ffurflenni CT182a (misol), CT183a (wythnosol), ac yng nghofrestri PY40 a PY7 er bod y penaethiaid wedi llofnodi'r ffurflenni i ddangos fod gwiriadau goruchwylio wedi'u gwneud. | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ▪ Nid yw incwm prydau ysgol wastad yn cael ei fancio'n brydlon ar ddiwedd tymor yr ysgol.<br>▪ Nid oedd camau dilynol yn cael eu gwneud a'u datrys yng nghyswllt anghysonderau a nodwyd gan yr Adain Incwm wrth gysoni incwm prydau ysgol y cofnodwyd ei fod wedi'i fancio ar y ffurflen fisol i'r cyfriflyfr ariannol.<br>▪ Nid oes sesiynau hyfforddi na hyfforddiant gloywi ar gael i glercod prydau ysgol.<br><br>**Barn:** Yn sgil yr adolygiad cafwyd barn archwilio o Sicrwydd Rhesymol cyffredinol gyda rheolwyr yn cytuno â chwe argymhelliad categori canolig a thri argymhelliad categori isel. | |

**ATODIAD D**

**ARCHWILIO MEWNOL**
**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**DADANSODDIAD O WAITH YCHWANEGOL NAD OEDD WEDI EI GYNLLUNIO A WNAED YN YSTOD 1 EBRILL 2015 I 31 MAWRTH 2016**

| | MAES | NATUR Y GWAITH | DYDDIAU ARCHWILIO |
|---|---|---|---|
| **1** | Bryn Trewan | Gofynnodd y Pwyllgor Archwilio i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol edrych ar y gwaith papur gwreiddiol mewn perthynas â chodi ar 60 eiddo yn Bryn Trewan, Caergeiliog am gostau carthffosiaeth. | 3.11 |
| **2** | Ardystio Grantiau – Y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd | Ardystiad Terfynol | 4.30 |
| **3** | Grant Amddifadedd Disgyblion LlC | Cafodd Archwilio Mewnol wybod ym mis Medi 2015 bod rhaid cyflwyno'r Dystysgrif Dyraniad Grant Amddifadedd Disgyblion i Awdurdodau ac Adroddiad Archwilio Mewnol i LlC erbyn 31 Hydref 2015. | 4.80 |
| **4** | Grant Cymraeg Mewn Addysg LlC 2014/15 | Cafodd Archwilio Mewnol wybod ym mis Awst 2015 bod rhaid cyflwyno Tystysgrif Dyraniad WEG i Awdurdodau ac Adroddiad Archwilio Mewnol i LlC erbyn 31 Hydref 2015. | 2.70 |
| **5** | Grant Llwybrau Dysgu 14-19 LlC 2014/15 | Cafodd Archwilio Mewnol wybod ym mis Medi 2015 Awst bod rhaid cyflwyno Tystysgrif Dyraniad Grant Llwybrau Dysgu 14-19 i Awdurdodau ac Adroddiad Archwilio Mewnol i LlC erbyn 31 Hydref 2015. | 13.92 |
| **6** | Grant Effeithiolrwydd Ysgolion LlC 2014/15 | Cafodd Archwilio Mewnol wybod ym mis Awst 2015 bod rhaid cyflwyno Tystysgrif Dyraniad SEG i Awdurdodau ac Adroddiad Archwilio Mewnol i LlC erbyn 31 Hydref 2015. | 9.05 |
| | **CYFANSWM NIFER Y DYDDIAU** | | **37.88** |

..........................

# RHESTR O ARCHWILIADAU 2015/2016 Y CYMERWYD CAMAU DILYNOL YN EU CYLCH

| | Disgrifiad | Archwiliwr | Dyddiad yr Archwiliad | Dyddiad y Camau Dilynol | Nifer yr Argymhellion | Argyhellion sy'n disgwyl eu gweithredu a gwaith sy'n mynd rhagddo (GMRh) | Uchel | Canolig | Isel | Barn Archwilio Wreiddiol | Barn Archwilio Ddiwygiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Credydwyr – Camau Dilynol | ECW | Mawrth 15 | Chwefror 16 | 11 | 10 (2GMRh) | 0 | 4 | 6 | Rhesymol | Rhesymol |
| 2 | Adfer ar ôl Trychineb TGCh | EW | Gorffennaf 15 | Mawrth 16 | 13 | 8 (3 (GMRh) | 4 | 4 | 0 | Bychan Iawn | Rhesymol |
| 3 | Rheoli Parhad Busnes | EW | Awst 15 | Mawrth 16 | 7 | 5 (GMRh | 3 | 2 | 0 | Cyfyngedig | Rhesymol |

## ARGYMHELLION ARCHWILIO A'R FARN ARCHWILIO

### 1. DIFFINIADAU O'R LEFELAU SICRWYDD

Mae diffiniadau newydd o lefelau sicrwydd ar gyfer 2015/16 yn gliriach ac yn fwy cywir yn nodi'r flaenoriaeth y dylid ei rhoddi i'r argymhellion a wnaed. Gweler isod:

| LEFEL SICRWYDD | DIFFINIAD |
|---|---|
| SICRWYDD SYLWEDDOL | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda.<br>Dim angen i'r rheolwyr gymryd unrhyw gamau gweithredu neu angen iddynt gymryd camau lefel isel yn unig.<br>**Dim argymhellion lefel uchel a hyd at 2 o argymhellion blaenoriaeth ganolig yn cael eu gwneud.** |
| SICRWYDD RHESYMOL | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg ac/neu reolaeth fewnol yn rhesymol.<br>Mae angen i'r rheolwyr gymryd camau lefel ganolig i uchel.<br>**Ni wneir unrhyw argymhellion blaenoriaeth lefel uchel.** |
| SICRWYDD CYFYNGEDIG | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg ac/neu reolaeth fewnol yn gyfyngedig.<br>Mae angen i'r rheolwyr gymryd camau lefel ganolig i isel.<br>**Gwneir nifer o argymhellion blaenoriaeth uchel/neu ganolig** |
| SICRWYDD LLEIAF | Mae diffygion sylweddol yn y trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol.<br>Mae angen i'r rheolwyr gymryd camau lefel uchel mewn nifer o feysydd.<br>**Gwneir nifer sylweddol o argymhellion blaenoriaeth uchel.** |

### 2. Diffiniadau o Flaenoriaethau ar gyfer Argymhellion

Mae diffiniadau o'r blaenoriaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr argymhellion wedi cael eu llunio er mwyn gwella cysondeb yn y tîm archwilio a helpu'r lefel o ddealltwriaeth gan y sawl sy'n derbyn yr adroddiad. Gweler isod:

| BLAENORIAETH YR ARGYMHELLIAD | DIFFINIAD |
|---|---|
| UCHEL | Mae angen cymryd camau sylweddol oherwydd absenoldeb neu ddiffyg cydymffurfiaeth gyda phrosesau rheoli sylfaenol sy'n arwain at y potensial na fydd problemau llywodraethiant sylweddol, cam-ymarfer, risg neu gamgymeriad yn cael eu darganfod |
| CANOLIG | Mae angen cymryd camau pwysig i ddod â'r system reolaeth fewnol i fyny i safon dderbyniol neu i wneud i ffwrdd â lefel annerbyniol o ddiffyg cydymffurfiaeth gyda phroses rheoli gyfredol. |
| ISEL | Camau a allai wella'r rheolaeth fewnol yn gyffredinol ond nad yw'n hanfodol i'r system reolaeth gyffredinol. |

**ATODIAD G**

**Argymhellion Blaenoriaeth Uchel gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol sydd heb gael sylw ar 31/03/2016**

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad | Dyddiad yr argymhelliad | Dyddiad gweithredu y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Corfforaethol** | | | | | | |
| 1961. 14/15 | Rheolaethau System - Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cadw cofnod ar gyfer yr holl ddefnyddwyr i dystio eu bod wedi gweld, darllen, deall a chytuno i lynu wrth yr holl bolisïau TGCh allweddol gan gynnwys y Polisi Diogelwch TGCh (ar ôl ei gymeradwyo) a'r Polisi Defnydd Derbyniol. | 07/10/2014 | 31/03/2015 Newidiwyd y dyddiad i 30/09/2015 | Swyddog Busnes a Monitro'r Cyngor | SIRO a Swyddog Adran 151 - Gofynnwyd am wybodaeth gan awdurdodau eraill yng Nghymru mewn perthynas â'r datrysiadau a oedd yn cael eu defnyddio ganddynt. Yn seiliedig ar yr ymatebion a dderbyniwyd, rhoddwyd arddangosiadau cychwynnol dan ddarpar gyflenwyr ym mis Ionawr 2015. Yna, paratowyd dogfen manyleb tendr a chyhoeddwyd rhybudd tendr (GwerthwchiGymru) ar 8 Ebrill 2015 - y dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau oedd 8 Mai 2015. Derbyniwyd pump o dendrau.<br><br>Cyflwynwyd adroddiad yn gofyn am gyllid i gyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Gwaith ar 1 Mehefin. Nid oedd y Pwyllgor Gwaith yn barod i gefnogi'r prosiect (oherwydd gwrthwynebiad y Swyddog Adran 151) a chafodd yr eitem ei thynnu oddi ar raglen cyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Gwaith 15 Mehefin.<br><br>Yn unol â chyfarwyddyd yr Uwch Swyddog Cyfrifol, bydd y dasg yn parhau hyd at, ond nid yn cynnwys, gosod y contract – cynhelir cyfarfod ar 18 Mehefin i roi trefn derfynol ar y canlyniadau o'r broses gwerthuso |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | tendrau a rhoi atborth i'r cyflenwyr.<br><br>Gwaith yn mynd rhagddo. Adroddwyd arno yn y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol ar 13/10/2015 |
| 1961. 14/15 | Rheolaethau System - Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau | Dylid sefydlu gweithdrefn sy'n sicrhau nad yw dechreuwyr sydd angen mynediad i rwydwaith, data a systemau'r Cyngor yn cael mynediad o'r fath hyd nes y bydd TGCh wedi cael tystiolaeth bod y defnyddiwr wedi cadarnhau ei fod wedi gweld, darllen, deall a chytuno i lynu wrth y Polisïau Diogelwch a Diogelwch Data. Os yw defnyddwyr wedi cael mynediad ond yna'n methu â darparu tystiolaeth o'r fath fel sy'n ofynnol uchod, tynnir y cyflester oddi arno hyd nes y bydd y dystiolaeth wedi ei darparu. | 07/102014 | 31/03/2015 Newidiwyd y dyddiad i 30/12/2015 | Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh | TGCh - Unwaith y bydd y feddalwedd cydymffurfio â pholisi yn ei lle, rhoddir pythefnos i staff newydd gymeradwyo'r polisïau.<br><br>Ar ôl gweithredu'r feddalwedd cydymffurfio â pholisi, cynigir bod y system yn cael ei gosod fel ei bod yn agor ar yr holl gyfrifiaduron personol pan fydd y defnyddiwr yn mewngofnodi - bydd hyn yn parhau pob tro y byddant yn mewngofnodi nes bod y polisïau wedi cael eu derbyn. Byddai TGCh hefyd yn ymchwilio i'r posibilrwydd yn y tymor hwy bod mynediad i'r Rhyngrwyd yn cael ei dynnu'n oddi wrth ddefnyddwyr newydd yn otomatig a dim ond ei roi yn ôl wedi derbyn tystiolaeth eu bod wedi ymrwymo i lynu wrth bolisïau TGCh allweddol.<br><br>Adolygiad SIRO & Swyddog Adran 151 - Ymchwilio i gyflwyno sgrîn mewngofnod sy'n cynnwys datganiad i ddefnyddwyr ei gymerdwyo yn tystio eu bod wedi darllen, deall a chytuno i lynu wrth Bolisïau TGCh allweddol.<br><br>Ar ôl gweithredu'r feddalwedd cydymffurfiaeth polisi, bydd dechreuwyr newydd yn cael pythefnos i ymrwymo i bolisïau a bydd y neges yn ymddangos ar eu cyfrifiadur hyd nes y bydd y polisïau wedi eu derbyn a bydd defnydd o'r rhyngrwyd yn cael |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | ei dynnu oddi arnynt os nad ydynt wedi derbyn y polisïau allweddol. Fodd bynnag, mae gweithrediad y feddalwedd cydymffurfieth polisi yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan grŵp corfforaethol sy'n cael ei gadeirio gan y SIRO - gweler uchod.<br><br>Mae prosiect sy'n cael ei arwain gan y Swyddog / Monitro SIRO wedi cael y dasg o weithredu system rheoli / derbyn polisïau - mae hyn yn dal i fynd rhagddo.<br><br>Unwaith y bydd datrysiad wedi ei sefydlu bydd hyn yn fodd i GCh gyflawni'r argymhelliad hwn. |
| 1961.14/15 | Rheolau Systemau – Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau | 8.3 Yn unol ag arfer gorau a Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor, dylid gwahanu'r dyletswyddau a ganlyn yn systemau a ganlyn y Cyngor:<br><br>Dyledwyr a'r Cyfriflyfr – Dylid adolygu mynediad yr ariannwr at y system dyledwyr a'r cyfriflyfr er mwyn sicrhau y cynhelir y gwaith o wahanu dyletswyddau rhwng y rhai hynny sy'n derbyn incwm a'r rhai sy'n cofnodi incwm.<br><br>Dylai gwaith cysoni, yn cynnwys systemau dyledwyr, derbynebu arian, a chysoniadau banc gael eu | 08/09/2014 | 31/12/2014 dyddiad wedi newid i 31/12/2015 | Pennaeth Adnoddau | Adolygu Swyddogion - Ar gyfer y systemau ariannol, bydd y cyfrifoldeb o sicrhau bod dyletswyddau'n cael eu gwahanu'n ddigonol yn cael ei gynnwys mewn disgrifiadau swydd priodol yn sgil ailstrwythuro'r Gwasanaeth Cyllid fel y trefnwyd.<br><br>Dyledwyr / Cyfriflyfr / Credydwyr – Bydd y gwaith sy'n ymwneud â'r system ariannol yn rhan o ail-lansio CIVICA.<br><br>Cyflogres - Bydd dyletswyddau'r Gyflogres a'r Sefydliad yn cael eu gwahanu yn y system gyflogres yn sgil cyswllt rhwng y Swyddog A151 a Phennaeth y Proffesiwn - Adnoddau Dynol.<br><br>Mae'r Gofrestr Asedion wedi'i chwblhau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | hadolygu gan weithiwr annibynnol er mwyn sicrhau cywirdeb.<br><br>Dylai addasiadau/nodiadau credyd/gwaith dileu dyledion i ddyledwyr gael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan weithiwr nad oes ganddo gyfrifoldeb am gofnodi'r trafodion hyn.<br><br>Credydwyr - Dylai adroddiad diwygiadau Cyflenwyr gael ei adolygu gan weithiwr ar lefel oruchwyliol nad oes ganddo fodd i newid manylion cyflenwyr, gwaith cofnodi anfonebau, cymeradwyo anfonebau a chaniatáu taliadau.<br><br>Sefydliad Adnoddau Dynol / y gyflogres - dylai swyddogaethau gael eu cyfyngu i swyddogion nad oes ganddynt fodd i brosesu'r gyflogres neu rhaid i gofnodion y sefydliad hwnnw a osodwyd gan y gyflogres gael eu hadolygu gan weithiwr annibynnol i sicrhau eu bod yn ddilys Dylai'r swyddog sy'n gyfrifol am redeg y gyflogres fod yn annibynnol ar brosesu'r gyflogres er mwyn sicrhau y cedwir y cywirdeb. Dylai adroddiadau eithrio gael eu rhedeg a'u gwirio gan weithiwr ar lefel oruchwyliol (annibynnol) yn ôl i'r | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | dogfennau ffynhonnell. Dylai'r adroddiadau amrywiant gael eu gwirio gan weithiwr ar lefel oruchwyliol (annibynnol) er mwyn sicrhau cywirdeb. Dylid adolygu hawliau mynediad holl ddefnyddwyr systemau cyflogres / Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau priodoldeb, yn enwedig felly'r swyddog sy'n gyfrifol am gysoni'r gyflogres ac adolygu. | | | | |
| 1736.11/12 | Monitro Adroddiad Sicrwydd Trydydd Parti | Arg 3: Dylid cynnal adolygiad corfforaethol rheolaidd o'r holl wendidau a'r argymhellion / camau a adnabuwyd mewn adroddiadau Sicrwydd Trydydd Parti er mwyn adnabod unrhyw themâu cyffredin; er mwyn sicrhau cysondeb mewn ymatebion ac fel na ddyblygir ymdrech mewn ymatebion o'r fath. | 07/10/2014 | 31/12/2014 | Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglenni | |
| 1736.11/12 | Monitro Adroddiad Sicrwydd Trydydd Parti | Arg 5: Dylid rhoi gwybod i'r ganolfan gorfforaethol yn brydlon am wendidau sylweddol a adnabuwyd mewn adroddiadau, pa un ydynt yn adroddiadau drafft neu derfynol, neu drwy ddull arall a dylid cymryd camau priodol i wirio'r sefyllfa. | 07/10/2014 | 31/12/2014 | Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglenni | |
| 011. 15/16 | Fframwaith Rheoli Risg | 6.1 Dylai Penaethiaid Gwasanaethau sicrhau y caiff Cynlluniau Cyflenwi Gwasanaeth eu cyflwyno'n brydlon ac o fewn amser penodol gyda'r holl adrannau wedi'u cwblhau gan gynnwys cysylltiadau â'r Cofrestri Risg. | 21/09/2015 | 31/12/2015 | Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglenni | 02/03/2016 Fframwaith Rheoli Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol yn cynnwys y gofynion cyllidebol wedi'i anfon at bob Pennaeth Gwasanaeth yn amlinellu ac yn rhoi gwybod iddynt sut y cysylltir gwahanol agweddau. Dim ond pedwar o'r naw gwasanaeth a gyflwynodd fersiynau draft o'r Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth ar amser. Ddechrau mis Mawrth roedd |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | pump yn parhau i fod angen eu cyflwyno ac mae'r mater hwn wedi'i drosglwyddo i'r Penaethiaid. |
| 1736.11/12 | Sicrwydd Trydydd Parti | Adolygu a gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad Sicrwydd Trydydd Parti. | 7/10/2014 | 31/12/2014 | Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglennu | |
| **Corfforaethol** | | | | | | |
| 025.15/16 | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi, Cynllun Benthyciadau Pontio | 6.2a Mae llog yn cronni o daliadau llog sy'n ddyledus a dylai'r llog a gronnwyd ar y benthyciad o'r Cynllun Benthyciadau Pontio gael ei adfer, a hynny dan y telerau a'r amodau a nodir yn y cytundeb cyfleuster. | 16/12/2015 | 31/12/2015 | Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau | |
| 025.15/16 | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi, Cynllun Benthyciadau Pontio | 6.2e Dylai gwybodaeth ariannol am y Cynllun Benthyciadau Pontio fod ar gael fel bod modd i'r Adran Dai fonitro'n ariannol a/neu wneud gwaith cysoni'n rheolaidd (monitro derbynebau taliadau llog). | 16/12/2015 | 31/12/2015 | Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau | |

**Argymhellion Blaenoriaeth Ganolig gan Archwilio Mewnol sydd heb gael sylw ar 31/12/2015**

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad | Dyddiad yr argymhelliad | Dyddiad gweithredu y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Corfforaethol** | | | | | | |
| 1940.14/15 | Staff Asiantaeth | Dylai unrhyw ddefnydd newydd o weithwyr asiantaeth fod yn unol â Pholisi CSYM a dylid trafod dewisiadau eraill yn lle defnyddio Gweithwyr Asiantaeth gyda Swyddogion Adnoddau Dynol. Mae'r Polisi Gweithwyr Asiantaeth diwygiedig yn awr yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau gwblhau Atodiad 1 - RHESWM DROS GYFLOGI i GWEITHIWR ASIANTAETH – a'i ddychwelyd i AD cyn i unrhyw weithwyr asiantaeth gael eu cyflogi. | 13/08/2014 | 31/07/2014 | Prif Weithredwr | Gofyn i Benaethiaid Gwasanaeth gyfarwyddo staff perthnasol i gydymffurfio â'r Polisi Gweithwyr Asiantaeth diwygiedig o ran y gofyniad i gwblhau ffurflen yn Atodiad A a'i hanfon at Adnoddau Dynol cyn cyflogi unrhyw staff asiantaeth, contract, hunangyflogedig ac ymgynghorwyr. |
| 1961.14/15 | Rheolaethau System - Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau | Dylai'r Polisi Diogelwch TGCh gynnwys cyfrifoldebau a gweithdrefnau diffiniedig. Dylid cofnodi'n ffurfiol pwy yw'r gweinyddwyr system adrannol a dylid gofyn iddynt gadarnhau eu bod yn derbyn yr holl gyfrifoldebau diffiniedig. Dylai pob gweinyddwyr system adrannol ymgyfarwyddo â'r Polisi | 2014/07/10 | 31/03/2015 | Rheolwr Gwasanaethau Technegol | Bydd y polisi Diogelwch TGCh yn cael ei ddiwygio i gynnwys y gofyniad hwn a dygir y polisi i sylw perchnogion asedau gwybodaeth yn y gwasanaethau . Unwaith y bydd y feddalwedd cydymffurfiaeth polisi wedi ei sefydlu bydd raid i'r swyddogion priodol adolygu / cymeradwyo polisïau TGCh allweddol. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Diogelwch TGCh a gweithredu'r polisi lle bo angen. | | | | |
| 009.15/16 | Llywodraethu Gwybodaeth | Dylai'r Adran Gaffael sicrhau bod Cytundebau Prosesu Data yn cael eu cynnwys yn y cyfnod tendro / dyfynbrisiau a'u cynnwys fel atodiad ar wahân gyda phob contract perthnasol newydd. | 02/11/2015 | 30/11/2015 | Swyddog Caffael | Cynhaliwyd cyfarfod ar 22/2/2016 i drafod mesurau diogelwch o ran data personol wrth gaffael. Bydd y Swyddogaeth Gwybodaeth Corfforaethol yn creu cynllun gweithredu yn manylu ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn y contractau a'i anfon i'r UDA yn yr ychydig wythnosau nesaf. |
| 009.15/16 | Llywodraethu Gwybodaeth | Dylai rheolwyr adolygu sut rhedir contractau lle mae contractwr trydydd parti yn prosesu data personol ar ran y Cyngor i benderfynu a gorfodi Cytundeb Prosesu Data ar y contract. | 09/11/2015 | 30/09/2015 | Swyddog Gwybodaeth Corfforaethol | Mae gwaith wedi cychwyn ar y mater hwn, fodd bynnag, o ran argymhellion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch caffael gwasanaethau, bydd angen adolygiad ehangach o'r mesurau diogelu data wrth gaffael gwasanaethau sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol. Mae amser yn ffactor o ran yr adolygiad y gofynnwyd amdano gan SCG oherwydd rhaid gwneud hyn cyn y gellir cwblhau'r argymhelliad. Dylid diwygio'r dyddiad targed. |
| 009.15/16 | Llywodraethu Gwybodaeth | Dylai'r SIRO sicrhau bod yr holl gontractau 'Categori 1' a weithredir gan y Cyngor yn cael eu cynnwys mewn Cytundebau DP yn unol ag argymhellion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. | 2015/09/11 | 30/09/2015 | Swyddog Busnes a Monitro'r Cyngor | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 009.15/16 | Llywodraethu Gwybodaeth | Dylid cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r UDA fel tystiolaeth bod achos pob digwyddiad diogelwch data yn cael ei adolygu a bod effeithiolrwydd yr ymateb hefyd yn cael ei asesu yn unol ag Adran 8.1 y Polisi Diogelwch Data - Fersiwn 2.0 (Mehefin 2015). | 09/11/2015 | 15/11/2015 | Swyddog Busnes a Monitro'r Cyngor | |
| **Cyllid** | | | | | | |
| 1921.13/14 | Y Dreth Gyngor | Dylai cyfrifon a ataliwyd gael eu hadolygu'n rheolaidd a chdaw tystiolaeth o adolygiad ar y ffeil. | 13/05/2014 | 30/09/2015 | Rheolwr Gweithrediadau | Mae ataliadau gyda "dyddiad gorffen" yn cael eu dileu'n otomatig gan y system. Mae'r rheini sydd yn dal i fod ar agor yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. |
| 1960.14/15 | Ysgol Pentraeth | Dylai'r Adain Incwm wneud ymholiadau i sicrhau fod yr arian a fanciwyd gan yr Ysgol (Sef £ 302.70) mis Ionawr 2014 yn y Swyddfa Bost wedi ei gyfrifo amdano'n gyflawn a chywir yng ngyfriflyfr the Council | 2014/11/12 | 30/06/2015 | Swyddog Incwm | Gofynnwyd am gopi o'r adroddiad 22/06/2015. Targed cwblhau tasg 30/06/2015. |
| 1982.14/15 | Mân - ddyledwyr | 3.1a Dylid cymryd camau adennill yn unol â Pholisi Bilio Mân Ddyledwyr y Cyngor, Casglu ac Adfer. | 01/04/2015 | 31/08/2015 | Swyddog Incwm | Ar gyfer dyled a godwyd ers Ebrill 2014 mae hyn yn cael ei wneud. Ar gyfer dyledion hŷn nid yw penderfyniadau yn cydymffurfio a'r polisi. Adfer yn cael ei dargedu ar sail faint ac oed gyda'r nod o leihau'r dadansoddiad oedran gogwyddo tuag at ddyledion hŷn. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1982.14/15 | Mân - ddyledwyr | 3.4 Dylid cyflwyno'r gweithdrefnau canlynol er mwyn darparu rheolaethau ychwanegol dros atal cyfrifon:<br><br>- Dylid defnyddio'r cyfleuster yn CIVICA i osod terfynau amser priodol ar ataliadau ym mhob achos.<br><br>- Dylid cofnodi'r rheswm dros atal camau adennill yn y cyfleuster nodiadau ar y system.<br><br>- Dylai adroddiad ar yr holl ataliadau gael ei adolygu gan swyddog perthnasol yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr holl resymau dros ataliadau yn parhau i fod yn ddilys.<br><br>Dylid cadw dogfennaeth sy'n cefnogi ataliadau ar ffeil gan roi rheswm dros y penderfyniad i atal, gan gynnwys enw a llofnod y swyddog sy'n awdurdodi'r ataliad. | 14/04/2015 | 31/08/2015 | Swyddog Incwm | Mae gan yr holl ataliadau newydd ddyddiad gorffen. Mae rhestrau wedi cael eu llunio ar gyfer yr holl ataliadau eraill ac mae gwaith arnynt yn parhau naill ai i gael gwared ar yr ataliad, canslo anfonebau ac ati. Angen adolygu'r dyddiad targed oherwydd maint y gwaith. |
| 1983.14/15 | Rheoli'r Trysorlys | Dylai prosesau a gweithdrefnau Rheoli'r Trysorlys gael eu cofnodi'n llawn ac yn eglur a rhoi'r dyddiad arnynt er mwyn nodi pwy fedr gymeradwyo'r dogfennau gofynnol ac i wahanu dyletswyddau. | 13/05/2014 | 31/07/2015 | Cyfrifydd Cyfalaf | Ailadroddwyd yn Adroddiad Rheoli'r Trysorlys 1932.13 / 14 1.8 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1988.14/15 | Trethi Cenedlaethol Annomestig | 8.1a Dylai gweithdrefnau adennill dydledion cael eu cymhwyso'n gyson yn unol â pholisiau cytunedig y Cyngor. | 13/05/2014 | 31/07/2015 | Rheolwr Gweithrediadau | Mae polisi corfforaethol ac atodiadau manwl ar ffurf drafft ac mae'r rhain yn cael eu dilyn yn ymarferol. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn adolygu gweithdrefnau casglu dyledion ac adennil o fewn y Cyngor dros y 7 – 12 mis nesaf. Yn dilyn canlyniad hwn, UDA a Pwyllgor Gwaith ystyried mabwsiadu'r polisi drafft yn ffurfiol.<br>Ailadrodd argymhelliad adroddiad archwilio 2013/14. |
| 1988.14/15 | Trethi Cenedlaethol Annomestig | 8.1b Dylai dyledion sydd heb eu hadennill ar ôl cwblhau'r broses adennill dyledion gael eu hanfon ymlaen at feilïaid / swyddogion gorfodaeth y Cyngor yn brydlon. | 13/05/2014 | 31/07/2015 | Rheolwr Gweithrediadau | Yn ddiweddar, cyfeiriwyd achosion at Asiantau Gorfodi yn fwy amserol. Mae adolygiad yn cael ei gynnal i leihau'r cyfnod cyn-gorfodi drwy gyfuno dau lythyr yn un. |
| 1988.14/15 | Trethi Cenedlaethol Annomestig | 8.2 Dylai cyfrifon sydd wedi eu hatal gael eu hadolygu'n rheolaidd a dylid cadw tystiolaeth o'r adolygiad ar ffeil. | 13/05/2014 | 31/07/2015 | Rheolwr Gweithrediadau | Mae'r ataliadau gyda "dyddiad gorffen" yn cael eu dileu yn otomatig gan y system. Bydd y rheini sy'n dal i fod ar "agor" yn cael eu hadolygu erbyn diwedd mis Gorffennaf. |
| 1993.14/15 | Bryn Trewan | 2 Dylid cyhoeddi anfonebau ar gyfer y flwyddyn gyfredol i'r rheini sy'n gyfrifol am dalu yn ôl chwiliad o'r gofrestrfa tir (ATODIAD B) | 05/06/2015 | 31/07/2015 | Swyddog Incwm | Gwnaed chwiliadau trwy'r Gofrestrfa Tir. Trefnir cyfarfod yn y Gwasanaeth Cyllid i gytuno ar ffordd ymlaen. |
| 1997.14/15 | Budd-daliadau Tai | Fel y bwriadwyd, dylid cymryd camau i sicrhau bod y perfformiad o ran cywirdeb yn cyrraedd y targed a osodwyd o | 14/04/2015 | 30/06/2015 | Rheolwr Gweithrediadau | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 99%. | | | | |
| 016.15/16 | Rheoli Fflyd a Gyrwyr | 3.4a Dylai cyfrifoldeb am reoli'r contract tanwydd LPG gael ei egluro rhwng y Peiriannydd Gwasanaethau Adeiladu a'r Rheolwr Caffael. | 19/01/2016 | 31/03/2016 | Swyddog Caffael | |
| 016.15/16 | Rheoli Fflyd a Gyrwyr | 3.4b Dylid cadarnhau cyfnod ymestyn y contract cyfredol rhwng yr Awdurdod a'r Weinyddiaeth Amddiffyn Fasnachol i gyflenwi tanwydd LPG. | 19/01/2016 | 31/03/2016 | Swyddog Caffael | Darparwyd y manylion hyd at 22/12/2015. |
| 025.15/16 | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi, Cynllun Benthyciadau Pontio | 2.2 Dylid gwneud gwaith cysoni rheolaidd â'r cyfriflyfr ariannol er mwyn sicrhau y cyfrifir am bob incwm a'i fod wedi'i godio'n gywir i'r gyllideb ariannol lle bo hynny'n briodol. | 16/12/2015 | 31/12/2015 | Cyfrifydd Rheoli'r Trysorlys a Chyfalaf | |
| 025.15/16 | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi, Cynllun Benthyciadau Pontio | 2.3a Dylai'r Adran Dai gysoni'r holl dderbynebion cyfalaf i sicrhau bod modd cyfrif am yr holl incwm. | 16/12/2015 | 31/12/2015 | Cyfrifydd Rheoli'r Trysorlys a Chyfalaf | |
| 025.15/16 | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi, Cynllun Benthyciadau Pontio | 2.5a Dylid cysoni'r holl hawliadau grant Troi Tai'n Gartrefi a gafwyd gan Gyngor Sir y Fflint yn erbyn y cyfriflyfr ariannol er mwyn sicrhau fod yr incwm a dderbynnir yn gyflawn a bod cyfrif cywir amdano a'i fod yn cyfateb â'r data sydd gan yr Adran Dai. | 16/12/2015 | 31/12/2015 | Cyfrifydd Rheoli'r Trysorlys a Chyfalaf | |
| 025.15/16 | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi, Cynllun Benthyciadau | 4.1b Dylid cysoni'r symiau gohiriedig yn fisol er mwyn sicrhau bod y rhain yn gyflawn ac | 16/12/2015 | 31/12/2015 | Cyfrifydd Rheoli'r Trysorlys a Chyfalaf | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pontio | wedi'u cofnodi'n gywir. | | | | |
| **Tai** | | | | | | |
| 1868.14/15 | Digartrefedd | 2.1 Mae angen gwella agweddau allweddol ar weithdrefnau Digartrefedd er mwyn adlewyrchu'r pwyslais cynyddol ar atal digartrefedd.<br><br>Mae angen gwella Gweithdrefnau i:<br><br>- Adlewyrchu newidiadau gweinyddol gan gynnwys cyflwyno'r ffurflen asesu cyfunol newydd a System Orchard;<br><br>- Y defnydd o'r system ariannol CIVICA newydd;<br><br>- Cynnwys mwy o fanylion, ee gweinyddiaeth y Gronfa Atal Digartrefedd, gwarchod eiddo pobl ddigartref. | 28/01/2015 | 30/10/2015 | Prif Swyddog Tai | |
| 1868.14/15 | Digartrefedd | 3.1 Dylid ailddyrannu'n ffurfiol ddyletswyddau allweddol y Swyddog Llety gan gynnwys trefnu arolygiadau blynyddol o adeiladau a ddefnyddir i ddarparu Gwely a Brecwast neu lety brys ar gyfer ymgeiswyr digartref. | 28/01/2015 | 30/10/2015 | Prif Swyddog Tai | Fel rhan o Amodau Trwyddedu, archwilir llety Gwely a Brecwast gan yr Adran Iechyd yr Amgylchedd.<br><br>Gohiriwyd y weithred hon nes bod y Tîm Opsiynau Tai newydd wedi ei sefydlu - dyddiad cychwyn 10/08/2015 – mae'r weithred hon yn dod o fewn cylch gwaith y Swyddogion Datrysiadau (dal angen penodi i 1 swydd). Mae |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | swyddogion yn derbyn hyfforddiant ar hyn o bryd.<br><br>Bydd y defnydd o lety Gwely a Brecwast yn awr yn cael ei ddylanwadu gan y meini prawf 'addasrwydd' fel y cyfeirir atynt yn Neddf Tai Cymru 2014, a ddaeth i rym 27/04/2015.<br><br>Mae’r gweithdrefnau a roddir ar waith gyda’r Rheolwr Opsiynau Tai i sicrhau cydymffurfiaeth yn cynnwys:<br><br>- Ffurfioli'r weithdrefn arolygu (arolygiadau blynyddol ac arferol)<br><br>- Creu cronfa ddata o'r holl lety Gwely a Brecwast a ddefnyddir i gynnwys disgrifiad o’r eiddo a’r ystafell a’r mwynderau a’r cyfleusterau sydd ar gael ym mhob llety. |
| 1868.14/15 | Digartrefedd | 6.5 Dyliai rheolwyr ailgyflwyno gwiriadau ffurfiol i sicrhau bod pobl y dal i fyw mewn llety Gwely a Brecwast y telir amdano er mwyn sicrhau mai dim ond taliadau dilys a wneir. | 28/01/2015 | 30/10/2015 | Prif Swyddog Tai | Mae'n cynnwys archwiliadau rheolaidd o lety Gwely a Brecwast.<br><br>Nid yw'r agwedd hon ar reoli llety Gwely a Brecwast wedi cael sylw oherwydd pwysau staffio yn y tîm digartrefedd (fel yr oedd) a pharatoi ar gyfer gweithredu Deddf Tai (Cymru) 2014.<br><br>Mae’r weithred hon yn rhan o rôl y Tîm Opsiynau Tai sydd newydd gael ei alstrwythuro a bydd y dyletswyddau hyn yn |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | cael eu rhoi i'r Swyddogion Datrysiadau o fewn y tîm. |
| 1868.14/15 | Digartrefedd | 6.7a Dylid neilltuo'n ffurfiol y cyfrifoldeb am gynnal gwiriad systematig (a chymryd camau cywiro fel y bo angen) o'r holl daliadau Budd-dal Tai a wnaed i gyfrif daliannol y Cyngor drwy gyfeirio at y rhestr wythnosol o daliadau ac edrych ar y gronfa ddata o leoliadau Gwely a Brecwast.<br>Gellid cynnwys colofnau ychwanegol yn y gronfa ddata i gadw cofnod o ddyddiad cychwyn yr hawliad Budd-dâl Tai, swm y budd-dal a ddyfarnwyd, cost y llety, a'r dyddiad yr hysbyswyd yr Adain Budd-daliadau Tai bod y cleient wedi gadael y llety. | 28/01/2015 | 30/10/2015 | Prif Swyddog Tai | Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei weithredu gan y Tîm Opsiynau Tai.<br><br>Heb ei weithredu. |
| 1993.2014/15 | Bryn Trewan | Dylai'r Gwasanaeth adolygu'r cyfraddau cyfredol a phenderfynu a ddylid cynyddu'r cyfraddau a ailgodir yn unol â gwariant bob blwyddyn. | 05/06/2015 | 30/10/2015 | Rheolwr Gwasanaethau Technegol | |
| 025.15/16 | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi, Cynllun Benthyciadau Pontio | 3.1b Dylai'r Adran Dai sicrhau bod modd cefnogi bob ffurflen flaenoriaethau gyda'r asesiad blaenoriaeth i ddangos y cafwyd | 16/12/2015 | 31/12/2015 | Rheolwr Busnes | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | asesiad teg a bod y penderfyniadau wedi'u dilysu. | | | | |
| 025.15/16 | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi, Cynllun Benthyciadau Pontio | 4.2 Dylai'r Adran Dai sicrhau fod y cytundeb gyda Grŵp Cynefin yn cael ei adolygu a'i adnewyddu er mwyn sicrhau fod y cytundeb yn adlewyrchu gweithdrefnau cyfredol a bod y ddwy ochr yn cytuno â'r rhain. | 16/12/2015 | 31/03/2016 | Rheolwr Busnes | 12/4/2016 Heb ei adolygu fel y'i bwriadwyd erbyn $31^{ain}$ o Fawrth 2015/16, ond caiff ei adolygu yn ystod chwarter cyntaf 2016/17. |
| 025.15/16 | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi, Cynllun Benthyciadau Pontio | 6.1b Dylai cofnodion ar gyfer cynlluniau'r dyfodol / cynlluniau newydd gael eu cadw'n ganolog er mwyn sicrhau bod modd i'r holl staff perthnasol gael at wybodaeth i weithio'n lle staff sydd yn sâl / ar wyliau. | 16/12/2015 | 31/03/2016 | Rheolwr Busnes | |
| 025.15/16 | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi, Cynllun Benthyciadau Pontio | 6.1c Dylai gwybodaeth ariannol am bob cynllun newydd fod ar gael i'r Adran Dai er mwyn ei monitro'n ariannol a/neu ei chysoni'n rheolaidd. | 16/12/2015 | 31/03/2016 | Rheolwr Busnes | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| 1949.14/15 | Oriau Gofal Cartref 1949.14/15 | 4.1 Dylid llunio cynllun manwl o sut y byddir yn cynnal y gostyngiad yn y Gwasanaeth er mwyn sicrhau bod modd i'r Uned gynllunio i weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon o fewn y tair blwyddyn nesaf.<br><br>Dylid cofnodi gwaith adolygu oriau a sicrhau | 13/08/2014 | 31/12/2014 wedi newid i 01/01/2016 | Rheolwr Busnes | Dylid adnabod dull gweithredu er mwyn rhoi sicrwydd mewn perthynas ag ansawdd gwasanaethau unwaith y caiff gwasanaethau gofal mewnol eu hallanoli. Gweithredu gwaith cipio data newydd / dangosyddion perfformiad allweddol / monitro contractau / prosesau talu gyda |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ei fod ar gael wrth ofyn amdano. | | | | darparwyr.<br><br>Monitro parhaus ynghylch prosesau sicrwydd ansawdd, diogelu a pharhad gwasanaethau. Mae'r tasgau a ganlyn wedi'u hadnabod yn y cynllun prosiect er mwyn sicrhau y bydd yr uned yn gweithredu'n effeithiol ac effeithlon ac yn gweithio'n agos gyda'r darparwyr allanol fydd yn darparu'r gwasanaethau sy'n fewnol ar hyn o bryd.<br><br>Mae grŵp prosiect wedi'i sefydlu ac ar hyn o bryd mae'n cyfarfod bob pythefnos ac mae cynllun prosiect manwl wedi'i roi yn ei le. Mae cyfarfod ar y 23ain o Fehefin (2015) er mwyn gwerthuso opsiynau a bydd yn cynnwys adolygiad o'r holl oriau cyfredol a ddarperir gan ddarparwyr mewnol ac allanol o fewn pob bro ar draws yr Ynys. |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | |
| 1959.14/15 | Ysgol Henblas | 4.2.1 Dylid sicrhau fod y gofrestr Athrawon Llanw yn gyflawn ac yn cael ei chysoni i adroddiadau cyllidol y Cyngor i sicrhau cywirdeb y cyfrifon. | 07/10/2014 | 31/10/2014 | Swyddog Mynediad ac Ystadegau | |
| 1959.14/15 | Ysgol Henblas | 4.5.1 Dylai'r ysgol sicrhau | 07/10/2014 | 20/09/2014 | Swyddog Mynediad ac Ystadegau | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | cydymffurfiaeth lawn gyda Gweithdrefnau Rheoli Fflyd a Gyrwyr yr Awdurdod. | | | | |
| 1960 2014/15 | Ysgol Pentraeth | 4.1.1 Gan edrych i'r dyfodol, ac yn unol â'r Cynllun Datblygu, dylai'r ysgol gytuno ar strategaeth benodol ar gyfer rheolaeth effeithiol, monitro ac ymgynghoriaeth rheolaidd mewn perthynas â chyllid yr ysgol (gan gynnwys arian wrth gefn). Dylai'r strategaeth gynnwys amlder, lefel manylder a fformat gyffredinol y wybodaeth ariannol ddylai gael ei ddarparu ar gyfer y Llywodraethwyr. | 11/12/2014 | 31/01/2015 | Swyddog Mynediad ac Ystadegau | |
| 1960.2014/15 | Ysgol Pentraeth | 4.2.2 Dylai'r Pennaeth gyflawni gwiriadau goruchwyliol ar incwm prydau ysgol, yn wythnosol, misol a dirybudd yn unol â chanllawiau'r Gwasanaeth Addysg. Dylai'r Pennaeth arwyddo'r datganiad misol CT182a ar ôl y bancio diwethaf ar gyfer y mis i dystiolaethu bod y gwiriadau priodol wedi'u cyflawni'n foddhaol a'r wybodaeth yn gywir. | 11/12/2014 | 31/12/2014 | Swyddog Mynediad ac Ystadegau | |
| 1960 2014/15 | Ysgol Pentraeth | 4.2.3 Dylid bancio incwm prydau ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon, yn unol â chyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Addysg. | 11/12/2014 | 01/09/2015 | Swyddog Mynediad ac Ystadegau | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1960 2014/15 | Ysgol Pentraeth | 4.2.4 I gynnal y trywydd archwilio, dylid cofnodi dyddiad y bancio gyferbyn â’r swm briodol ar y datganiad misol CT182a ar bob achlysur. | 11/12/2014 | 31/12/2014 | Swyddog Mynediad ac Ystadegau | |
| 1960 2014/15 | Ysgol Pentraeth | 4.3.1 Dylai'r ysgol gwblhau’r ffurflen hysbysu archeb o flaen llaw ym mhob achos, nid ar ôl derbyn yr anfoneb neu’r nwyddau. Mewn achos o argyfwng gellir rhoddi archeb ar lafar a rhyddhau archeb ysgrifenedig yn ystod y diwrnod gwaith nesaf. | 11/12/2014 | 01/09/2015 | Swyddog Mynediad ac Ystadegau | |
| 1960 2014/15 | Ysgol Pentraeth | 4.6.1 Dylid sicrhau bod cyfansoddiad y Corff Llywodraethu yn bodloni gofynion yr Offerynnau Statudol perthnasol. | 11/12/2014 | 31/12/2014 | Swyddog Mynediad ac Ystadegau | |
| 028 2015/16 | Ysgol Cemaes | 4.1.1 Dylid sicrhau bod Incwm Prydau Ysgol yn cael eu cofnodi’n gywir o fewn cofrestr PY7, CT182a, CT183a a’r PY40 yn unol â chyfarwyddiadau’r Adran Addysg. Dylai’r cofrestrau prydau ysgol gael eu harwyddo gan yr unigolyn sy’n casglu’r arian, gogyfer cael tystiolaeth ysgrifenedig fod yr arian cywir wedi ei dderbyn a gan bwy. | 04/01/16 | 31/01/16 | Pennaeth | |
| 028 2015/16 | Ysgol Cemaes | 4.1.3 Dylai’r ysgol ddilyn | 04/01/2016 | 31/01/2016 | Pennaeth | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | canllawiau'r Adran Addysg ar gasglu ôl-ddyledion incwm prydau ysgol ac ymgymryd â chamau buan i sicrhau nad ydynt yn codi i lefel na all y rhiant dalu. | | | | |
| 028 2015/16 | Ysgol Cemaes | 4.2.1 Dylai'r ysgol gwblhau ffurflen hysbysu archeb o flaen llaw ym mhob achos, nid ar ôl derbyn yr anfoneb neu'r nwyddau. Mewn achos o argyfwng gellir rhoddi archeb ar lafar a rhyddhau archeb ysgrifenedig yn ystod y diwrnod gwaith nesaf. | 04/01/2016 | 31/01/2016 | Pennaeth | |
| 028 2015/16 | Ysgol Cemaes | 4.2.2 Cyn talu unrhyw anfoneb dylid sicrhau bod y blychau perthnasol ar y ffurflen hysbysu archeb wedi'u cwblhau, yn unol â'r gweithdrefnau penodedig, i dystiolaethu bod y profion rhag ardystiol priodol wedi'u cyflawni ac i gynnal trywydd archwilio. Yr unig eithriad yw mewn argyfwng neu waith sydd angen ei gwblhau a'i awdurdodi o fewn y diwrnod canlynol. | 04/01/2016 | 31/01/2016 | Pennaeth | |
| 028 2015/16 | Ysgol Cemaes | 4.3.1 Dylai fod yr ysgol yn gweinyddu gosodiadau'r ysgol yn unol â chanllawiau Rheolau Gosod Ysgolion | 04/01/2016 | 31/01/2016 | Pennaeth | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Sir drwy ddefnyddio gosodiadau a bod logwr yn arwyddo'r ffurflen cyn llogi'r adeilad. | | | | |
| 028 2015/16 | Ysgol Cemaes | 4.3.2 I dystio bod y llogwr yn ymwybodol o dermau gosod y Cyngor ac wedi cytuno â'r telerau, dylid sicrhau bod y sawl sy'n llogi'r adeilad yn dychwelyd y bonyn gwyn ar waelod y ffurflen wedi'i arwyddo i'r ysgol cyn caniatáu'r gosodiad. | 04/01/2016 | 31/01/2016 | Pennaeth | |
| 028 2015/16 | Ysgol Cemaes | 4.3.4 Dylid sicrhau bod yr ysgol yn sefydlu ffioedd gogyfer llogi'r ysgol a bod y ffioedd hyn yn cael eu mabwysiadu gan gorff llywodraethol yr ysgol. | 04/01/2016 | 31/01/2016 | Pennaeth | |
| 028 2015/16 | Ysgol Cemaes | 4.3.5 Ni ddylid bancio incwm am logi'r ysgol i gronfa'r ysgol, dylid nodi incwm gosodiadau ynghyd â bancio megis incwm arian cinio ar ffurflen CT202 "Ffurflen Bancio Dadansoddiad Incwm Girobank i Ysgolion". | 04/01/2016 | 31/01/2016 | Pennaeth | |
| 028 2015/16 | Ysgol Cemaes | 4.4.1 Dylid sicrhau bod cyfrifon y gronfa yn cael eu harchwilio'n flynyddol yn unol â "Canllawiau i | 04/01/2016 | 31/01/2016 | Pennaeth | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Lywodraethwyr a Phrifathrawon ar Reolaeth Cronfeydd Ysgol" a'u cyflwyno gerbron y Corff Llywodraethol. | | | | |
| 029 2015/16 | Ysgol Gynradd Bodedern | 5.5.1 Dylid sicrhau bod ffurflenni adolygiad tâl athrawon yn cael eu hanfon ymlaen yn brydlon i'r Tîm Contractau a Phensiynau. | 29/02/2016 | 31/03/2016 | Pennaeth | |
| 029 2015/16 | Ysgol Gynradd Bodedern | 5.7.1 Mae angen i'r ysgol gofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data 1998. | 29/02/2016 | 31/03/2016 | Pennaeth | |
| 029 2015/16 | Ysgol Gynradd Bodedern | 5.8.1 Dylid llunio Polisi CCTV a sicrhau bod y system yn cyrraedd gofynion statudol cyfredol. Dylid cynnwys yn ogystal yr angen am asesiad blynyddol o berfformiad yr offer. | 29/02/2016 | 31/03/2016 | Pennaeth | |
| 029 2015/16 | Ysgol Talwrn | 4.3.1 Dylid sicrhau bod derbynneb yn cael ei llenwi'n gywir a'i llofnodi gan yr aelod o staff sy'n derbyn yr incwm a'i rhoi i'r talwr wrth ei dderbyn. | 15/03/2016 | 31/03/2016 | Pennaeth | |
| 029 2015/16 | Ysgol Talwrn | 4.6.1 Dylid llunio asesiad risg ar gyfer y risgiau sydd ynghlwm ag ymateb i'r larwm diogelwch pan fo'n | 15/03/2016 | 31/03/2016 | Pennaeth | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | canu. | | | | |
| 029 2015/16 | Ysgol Talwrn | 4.7.1 Dylid sicrhau bod profion o’r larwm tân yn cael eu cynnal a’u cofnodi’n wythnosol yn ddi-ffael, yn cynnwys yn ystod absenoldeb y Pennaeth. | 15/03/2016 | 31/03/2016 | Pennaeth | |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

Atodiad H

**CRYNODEB O YMCHWILIADAU ARBENNIG – 1 EBRILL 2015 I 31 MAWRTH 2016**

| Rhif y Dasg | Math o Ddigwyddiad | Nifer y Dyddiau | Sylwadau / Canlyniad |
|---|---|---|---|
| 1955.14/15 | Ysgol – honiad ynghylch anghysonderau ariannol | 4.70 | Gwnaed argymhellion i roi sylw i arferion gwael o ran cadw cofnodiadau ariannol. |
| 2006.14/15 | Uned Ailgylchu | 0.34 | Ystyrir bod y mesurau sydd ar gael i atal lladrad o'r safle yn ddigonol ac mae darpariaeth dda o ran camerâu goruchwylio. Ni fedrir cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r honiad dienw hwn. |
| 005 | £100 o arian parod ar goll | 4.53 | Mae ymchwiliad yr Heddlu i'r digwyddiad bellach wedi cau. Nodwyd gwendidau gan y rheolwyr a gweithredwyd ar unwaith ar fesurau i gryfhau'r gweithdrefnau. |
| 010 | Ysgol – Dwyn Arian | 7.03 | Y troseddwr wedi ymddiswyddo a'r ymchwiliad wedi'i gau. |
| 014 | Depo - Dwyn Diesel | 5.68 | Ymchwiliad yr heddlu wedi cau gan nad oedd digon o dystiolaeth i gyfiawnhau cyfweld unrhyw un sydd dan amheuaeth. Argymhellion wedi'u gwneud a'u gweithredu er mwyn lleihau risgiau. |
| 017 | Cyfeiriad gan LIC – Lwfans i Fyfyriwr Anabl – Taliadau Anghymwys | 5.34 | Dim argymhellion wedi eu gwneud mewn perthynas â'r cyfeiriad hwn oherwydd nid yr Awdurdod Lleol sydd mwyach yn gweinyddu'r Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl. |
| 022 | Agor atyniad i ymwelwyr heb ganiatâd a materion ariannol | 27.09 | Dim digon o dystiolaeth i gyfeirio'r mater i'r Heddlu. Cyhoeddwyd adroddiad yn amlinellu argymhellion i gryfhau rheolaeth fewnol. |
| 031 | Gweithiwr yn gwneud gwaith cyflogedig pan oedd i ffwrdd yn sâl | 0.20 | Dim digon o wybodaeth i gyfiawnhau ymchwiliad pellach. Cyfeiriad ebost yn unig oedd yr unig dystiolaeth o gyflogaeth ychwanegol. |
| 032 | Dwyn arian personol o ystafell ddosbarth mewn ysgol | 4.53 | Ymchwiliad yr heddlu wedi cau gan nad oedd digon o dystiolaeth i gyfiawnhau cyfweld unrhyw un sydd dan amheuaeth. Argymhellion wedi'u gwneud a'u gweithredu er mwyn lleihau risgiau. |
| 035 | Achos posibl o dorri rheolau data – post a ddanfonwyd â llaw | 4.39 | CCFO yn ymgynghori gyda'r Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol a Staff y Dderbynfa ynghylch mabwysiadu rhyw ddull o gofnodi post preifat/cyfrinachol a ddanfonir â llaw. Yn sgil cyfnod arbrofi llwyddiannus, mae trefniadaethau newydd wedi'u gweithredu. |
| 052 | Posibilrwydd o anghysonderau mewn taflenni amser | 8.51 | Ymchwiliad yn parhau. |
| **CYFANSWM DYDDIAU** | | **72.34** | |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

Atodiad H

**CRYNODEB O YMCHWILIADAU ARBENNIG – 1 EBRILL 2015 I 31 MAWRTH 2016**

# Cyngor Sir Ynys Môn – Diweddariad ar Raglen Waith Perfformiad ar gyfer y Pwyllgor Archwilio 26 Mai 2016

## Astudiaethau llywodraeth leol – diweddariad

Rhydd y rhan hon o'r briff ddiweddariad ar y cynnydd o ran cyflawni rhaglen astudiaethau llywodraeth leol Cymru gyfan a phrosiectau eraill a reolir yn ganolog. Ymwneud â llywodraeth leol yn unig y mae pob astudiaeth os nad yw'r sylwebaeth isod yn cyfeirio'n benodol at waith ar barciau cenedlaethol a/neu awdurdodau tân ac achub.

## 1. Astudiaethau llywodraeth leol 2015-16

### Diogelwch cymunedol

Mae'r adroddiad cenedlaethol wrthi'n cael ei glirio ar hyn o bryd a bwriedir ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2016.

### Dull strategol cynghorau o ymdrin â chynhyrchu incwm a chodi tâl

Mae'r astudiaeth hon yn cael ei chyflawni dan ein rhaglen flynyddol o 'gyflawni â llai' a bydd yr astudiaeth yn golygu archwilio dull strategol cynghorau o ymdrin â chodi tâl; y broses o gymeradwyo gosod ac adolygu taliadau o fewn cyngor; effaith taliadau ar wasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau; a'r sail ddeddfwriaethol dros godi tâl. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith wedi ei gwblhau:

- mae'r adroddiad yn y cyfnod drafft;
- ceir hefyd grynodeb yn cymharu perfformiad holl gynghorau Cymru gyda'u cymheiriaid yn Lloegr a'r Alban; a
- byddwn hefyd yn bresennol yng nghyfarfod Cymdeithas Trysoryddion Cymru ym mis Gorffennaf 2016 i drafod canfyddiadau'r astudiaeth gyda chynghorau a Llywodraeth Cymru.

Nid yw Ynys Môn yn safle gwaith maes.

### Cynghorau'n cyllido gwasanaethau'r trydydd sector

Eto, dan thema cyflawni â llai, bydd yr astudiaeth hon yn edrych ar lefel y buddsoddiad yng ngwasanaethau'r sector gwirfoddol er mwyn meincnodi canfyddiadau yn erbyn adolygiad yr Uned Ddata Llywodraeth Leol (LGDU) a gynhaliwyd ar ran Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yn dyddio o 2001-02. Bydd yr adolygiad yn cynnwys y mesurau a ddefnyddiwyd i asesu effeithiolrwydd cyllid mewn maes y gellir ei olrhain, y cytunir arno gyda CGGC; ac yn adolygu prosesau penderfynu er mwyn gweld a yw egwyddorion llywodraethu da mewn cyllido gwasanaethau'r trydydd sector yn cael eu dilyn. Dylai'r prosiect fod wedi ei orffen erbyn diwedd Mai 2016. Nid yw Ynys Môn yn safle gwaith maes.

## 2. Astudiaethau llywodraeth leol 2016-17

Mae'r ymgynghoriad wedi dod i ben ac mae'r astudiaethau canlynol wedi eu cynnwys ar gyfer 2016-17.

### Astudiaeth 2016-17 – gwella lles drwy addasiadau tai

Mae'r astudiaeth hon yn cynnwys yr holl awdurdodau lleol a'r prif landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (RSLs) yng Nghymru, ac mae'n ategu gwaith a wnaed gan dîm iechyd Swyddfa Archwilio Cymru ar gynllunio i ryddhau cleifion. Bydd yr astudiaeth yn adolygu problemau system megis cyfnodau amser, prosesau ymgeisio, argaeledd arweiniad a chefnogaeth, a meini prawf cymhwystra. Bydd yn canolbwyntio ar y ffordd y mae addasiadau yn cael eu defnyddio i atal canlyniadau gwael megis gwariant dianghenraid, baglu a syrthio, mynd i'r ysbyty/oedi cyn rhyddhau a thlodi plant.

### Astudiaeth 2016-17 – awdurdodau lleol yn comisiynu gwasanaethau anabledd dysgu mewn ffordd strategol

Bydd yr astudiaeth yn asesu sut y mae awdurdodau lleol yn cyflawni comisiynu strategol. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar gynlluniau anabledd dysgu fel maes i'w olrhain mewn awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd mae cynghorau'n gwario ychydig dan £334 miliwn ar wasanaethau anabledd dysgu yng Nghymru gan gynnwys comisiynu.

### Astudiaeth 2016-17 – sut mae llywodraeth leol yn rheoli'r galw am wasanaethau llywodraeth leol

Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar faes penodol y gellir ei olrhain sef digartrefedd mewn awdurdodau lleol gan ddefnyddio'r dyletswyddau atal diweddar a osodwyd ar awdurdodau lleol er mwyn barnu sut y mae'r galw am wasanaethau yn cael ei reoli.

## 3. Astudiaethau llywodraeth leol 2018-19

Mae tri arolwg yn cael eu datblygu i fesur barn uwch swyddogion cynghorau ynglŷn â newidiadau diweddar i arweiniad a deddfwriaeth cyn ein rhaglen waith ar gyfer 2018-19. Bydd yr arolygon yn casglu barn awdurdodau lleol ac yn cynnwys:

- Gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- Mynd i'r afael â cham-drin domestig
- A yw gwasanaethau cynllunio yn rhoi gwerth am arian?

## 4. Gwaith archwilio ac asesu gwelliant ar gyfer 2015-16

Rhydd y rhan hon o'r briff ddiweddariad ar y cynnydd o ran cyflawni'r gwaith archwilio ac asesu ar Ynys Môn (bydd rhai astudiaethau hefyd yn cynnwys cynghorau eraill yn y Gogledd a thrwy Gymru).

### Adolygu llywodraethu

Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar adolygu'r dasg o reoli absenoldeb salwch. Amseriad – Mawrth i Fehefin 2016.

### Adroddiad gwella blynyddol

Crynodeb ac asesiad blynyddol gan yr Archwilydd Cyffredinol a rheoleiddwyr eraill. Mae'r adroddiad gwella blynyddol drafft wedi ei roi i'r Cyngor am ei sylwadau.

## 5. Dilyn i fyny'r argymhellion cenedlaethol

Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n dilyn i fyny'r argymhellion a wnaed mewn adroddiadau astudiaethau cenedlaethol a gyhoeddwyd yn ystod 2014-15 fel dull o arolygu'r holl gynghorau yn hydref 2015. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl gwerthuso'r cynnydd ar argymhellion ym mhob cyngor, yn hysbysu cynllunio lleol ar gyfer 2016-17, ac yn rhoi darlun cenedlaethol o weithredu argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru. Caiff crynodeb ei gynnwys yn adroddiad gwella blynyddol y Cyngor ar gyfer 2016.

## 6. Gwaith archwilio ac asesu gwelliant ar gyfer 2016-17

Rhydd y rhan hon o'r briff ddiweddariad ar y cynnydd o ran cyflawni'r gwaith archwilio ac asesu ar Ynys Môn yn ystod 2016-17 (bydd rhai astudiaethau hefyd yn cynnwys cynghorau eraill yn y Gogledd a thrwy Gymru).

### Archwiliad y cynllun gwella

Archwilio sut y cafodd y ddyletswydd i gyhoeddi cynllun gwella ei chyflawni. Amseriad – chwe wythnos ar ôl i'r cynllun gael ei gyhoeddi.

### Archwilio'r adroddiad perfformiad blynyddol

Archwilio sut y cafodd y ddyletswydd i gyhoeddi asesiad perfformiad ei chyflawni. Amseriad – i fod ym mis Tachwedd 2016.

### Llythyr gwella blynyddol

Crynodeb ac asesiad blynyddol gan yr Archwilydd Cyffredinol a rheoleiddwyr eraill. Amseriad – erbyn Mawrth 2017.

### Gwaith perfformiad lleol

I'w gytuno mewn ymgynghoriad â'r Cyngor. Amseriad – Mai 2016 i Mawrth 2017.

## Adolygiadau thematig

Yng ngoleuni'r rhaglen o ddiwygio a eglurwyd yn y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft, diddymiad arfaethedig Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009; a'r ddyletswydd newydd ar gynghorau i fabwysiadu egwyddor datblygiad cynaliadwy o fis Ebrill 2016, adolygodd yr Archwilydd Cyffredinol yn ddiweddar sut y mae'r gwaith o archwilio perfformiad lleol yn cael ei gyflawni mewn cynghorau. Mae hyn wedi arwain at leihau'r gwaith sy'n canolbwyntio ar y broses o gynllunio gwelliannau o blaid gwaith sy'n canolbwyntio ar allu a chapasiti cynghorau i gyflawni newid a pharhau i lywodraethu'n dda yr un pryd. Cytunwyd ar dri adolygiad thematig.

### Adolygiad o gadernid ariannol

Mae cynghorau'n parhau i ddelio â chyni a dyfodol ansicr. Bydd yr adolygiad hwn yn ceisio rhoi sicrwydd bod trefniadau'n canolbwyntio ar gynnal cadernid dros y tymor canol i'r tymor hir. Amseriad – Mehefin i Ragfyr 2016.

### Adolygiad llywodraethu

Ynghyd â chyflwyniad fframwaith diwygiedig y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer **Llwyddo i Lywodraethu'n dda mewn Llywodraeth Leol**, a'r angen i Gynghorau fabwysiadu egwyddor datblygiad cynaliadwy o fis Ebrill 2016, bydd yr adolygiad hwn yn rhoi gwaelodlin i gynghorau ar gyfer cynllunio gwelliannau o ran llywodraethu. Amseriad – Medi i Ragfyr 2016, yn adrodd ym mis Ionawr 2017.

### Adolygiad trawsnewid

Bydd yr adolygiad gwaelodlin hwn yn archwilio sut y mae cynghorau'n ymagweddu at 'newid trawsnewidiol'; yn neilltuol, sut y mae swyddogaethau galluogi corfforaethol allweddol yn gweithio mewn ffordd integredig i gefnogi rhaglenni newid. Amseriad – Rhagfyr 2016 i Chwefror 2017, yn adrodd ym mis Mawrth 2017.

## 7. Astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Mae tabl ar wahân wedi ei greu sy'n nodi'r astudiaethau cenedlaethol y mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi eu cynhyrchu neu'n eu cynllunio drwy gyfnod 2015-16 a 2016-17.

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cynllun Archwilio 2016

# Cyngor Sir Ynys Môn

**Blwyddyn archwilio:** 2015-16

**Cyhoeddwyd:** Mai 2016

**Cyfeirnod y ddogfen:** 337A2016

# Statws y ddogfen

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan Deloitte LLP a Swyddfa Archwilio Cymru.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynllun Archwilio 2016 | |
| Crynodeb | 4 |
| Archwilio ariannol | 4 |
| Ardystio hawliadau a ffurflenni grant | 8 |
| Archwilio perfformiad | 8 |
| Y ffi, y tîm archwilio a’r amserlen | 11 |
| Datblygiadau yn y dyfodol i’m gwaith archwilio | 13 |
| Atodiadau | |
| Priod gyfrifoldebau | 15 |
| Gwaith perfformiad yn yr amlinelliad o archwiliad y llynedd sydd ar waith o hyd | 17 |
| Astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol | 18 |

# Cynllun Archwilio 2016

## Crynodeb

**1.** Fel eich archwilydd allanol, fy amcan yw cynnal archwiliad sy'n cyflawni fy nyletswyddau statudol fel Archwilydd Cyffredinol a'm rhwymedigaethau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), Deddf Llywodraeth Leol 1999 a'r Cod Ymarfer Archwilio, sef:

- archwilio eich datganiadau ariannol ac ardystio pa un a ydynt yn 'gywir a theg';
- asesu a ydych wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau;
- archwilio ac asesu a ydych wedi cyflawni eich dyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur; a
- chynnal astudiaethau i'm galluogi i wneud argymhellion ar gyfer gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd neu ar gyfer gwella trefniadau rheoli ariannol neu drefniadau rheoli eraill.

**2.** Diben y cynllun hwn yw nodi'r gwaith y bwriadaf ymgymryd ag ef, pryd yr ymgymerir ag ef, faint y bydd yn ei gostio a phwy fydd yn ymgymryd ag ef.

**3.** Ni chyfyngwyd arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

**4.** Nodir fy nghyfrifoldebau, ynghyd â chyfrifoldebau'r rheolwyr a'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn Atodiad 1.

## Archwilio ariannol


**5.** Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'cywirdeb a'u tegwch'.

**6.** Rwyf hefyd yn ystyried a yw Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau ac yn adrodd drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â gofynion.

**7.** Mae Atodiad 1 yn nodi fy nghyfrifoldebau yn llawn.

**8.** Mae'r gwaith archwilio a wneir gennyf er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau yn ymateb i'm hasesiad o risgiau. Mae'r ddealltwriaeth hon yn galluogi i mi ddatblygu dull archwilio sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risgiau penodol gan roi sicrwydd ar yr un pryd ynglŷn â'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Mae tri cham i'm dull archwilio fel y nodir yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: Fy null archwilio




**9.** Nodir y risgiau o gamddatganiadau perthnasol yr ystyriaf eu bod yn sylweddol mewn perthynas â Chyngor Gwynedd ac y mae angen rhoi ystyriaeth archwilio arbennig iddynt o ganlyniad i hynny yn Arddangosyn 2 ynghyd â'r gwaith y bwriadaf ymgymryd ag ef i ymdrin â hwy.

Arddangosyn 2: Risgiau archwilio ariannol

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
| --- | --- |
| **Rheolwyr yn diystyru rheolaethau**<br>Mae'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd annisgwyl y gallai diystyru o'r fath ddigwydd, mae'n cael ei ystyried fel risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol gan ddefnyddio dulliau dadansoddi data uwch i ddadansoddi'r boblogaeth gyfan o gyfnodolion ar gyfer nodweddion o ddiddordeb;<br>• profi sut mae rheolaethau yn cael eu cynllunio a'u rhoi ar waith mewn perthynas â chofnodion cyfnodolion i'r cyfriflyfr ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodion sylweddol y tu allan i fusnes arferol, gan gynnwys y rhai gyda phartïon perthnasol. |

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| **Cyflawnrwydd incwm grant a'r gydnabyddiaeth ohono**<br>Rydym wedi nodi cyflawnrwydd incwm grant a'r gydnabyddiaeth ohono fel risg sylweddol gan fod angen i reolwyr ddefnyddio doethineb wrth gydnabod incwm grant, gan gynnwys pennu a oes gan grant amodau ac a yw'r amodau hynny wedi'u cyflawni er mwyn caniatáu cydnabyddiaeth.<br>Yn ein barn ni, mae yna ddau fath o incwm grant sy'n berthnasol i'r risg hon, sef grantiau refeniw penodol a grantiau cyfalaf a chyfraniadau. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi incwm grant fel y risg incwm benodol i'r datganiadau ariannol i sicrhau bod y gydnabyddiaeth o incwm yn adlewyrchu rheolau'r cynllun grant, bod yr hawl yn cyfateb i'r hawliad grant drafft neu derfynol a bod balans cyfrif rheoli'r grant wedi'i gysoni'n gywir;<br>• adolygu gohebiaeth sy'n gysylltiedig â grantiau penodol a'i chymharu â thriniaeth gyfrifyddu'r Cyngor; a<br>• phrofi sut mae rheolaethau yn cael eu cynllunio a'u rhoi ar waith mewn perthynas â'r gydnabyddiaeth o incwm grant. |
| **Rhwymedigaeth pensiwn**<br>Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor rwymedigaeth net materol mewn perthynas â'i rwymedigaethau pensiwn ar y fantolen sy'n cael ei chyfrifo yn seiliedig ar gyfres o ddyfarniadau actiwaraidd.<br>Nodwyd gwallau yn nata'r cyfrifiad sy'n sail i'r ffigur rhwymedigaeth pensiwn net yng nghyfrifon y Cyngor yn 2012-13, 2013-14 a 2014-15 lle nad oedd y Cyngor wedi rhoi digon o wybodaeth i Gronfa Bensiwn Gwynedd am symudiadau gweithwyr cyflogedig a newidiadau rôl mewn ffordd amserol.<br>Mae yna berygl nad yw'r data aelodaeth a ddarperir i'r actiwari i'w ddefnyddio i baratoi'r datgeliadau blynyddol o dan Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 (Buddiannau Gweithwyr) yn ddigon cadarn. Fodd bynnag, rydym yn nodi na adroddwyd unrhyw broblem yn ymwneud â'r rhwymedigaeth gyffredinol a ddatgelwyd yn y datganiad cyfrifon. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• cael y prisiad IAS19 ar 31 Mawrth 2016, ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i helpu gyda'n hadolygiad o briodoldeb seiliau prisio, rhagdybiaethau a datgeliadau datganiadau ariannol IAS19; a<br>• deall a chadarnhau'r ymarfer a gwblheir gan staff y Cyngor i adolygu cywirdeb y data a ddarperir i'r actiwari ac ystyried a allwn ni gael sicrwydd mewn perthynas â'i gywirdeb a'i gyflawnrwydd. |
| **Prynu Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai (HRAS)**<br>Sefydlwyd y system HRAS yn wreiddiol i alluogi Llywodraeth y DU i bennu'r symiau sydd eu hangen ar awdurdodau tai lleol ar gyfer eu heiddo tai ac i nodi a ydynt angen cymhorthdal gan lywodraeth ganolog.<br>Mae'r cymhorthdal blynyddol yn cael ei sbarduno gan fformiwla ac, os oedd y gwariant yn uwch na'r incwm a ragdybir, byddai Llywodraeth y DU yn talu cymhorthdal i wneud iawn am hynny. Os oedd y gwariant yn is, | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• adolygu'r ddeddfwriaeth alluogi a basiwyd gan Lywodraeth Cymru;<br>• cael prawf bod y Cyngor a'r Awdurdod Gweithredol wedi ystyried a chymeradwyo'r prynu;<br>• cael gafael ar gytundeb gwirfoddol HRAS, wedi'i lofnodi, rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru;<br>• cael gafael ar gytundeb benthyciad PWLB; a |

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| byddai'r awdurdod tai lleol yn talu'r gweddill (cymhorthdal negyddol) i Lywodraeth y DU. Dros amser, mae'r fformiwla wedi arwain at yr 11 awdurdod tai lleol yng Nghymru yn talu cymhorthdal negyddol.<br>Lluniwyd cytundeb ariannol rhwng Gweinidogion Cymru a Thrysorlys Ei Mawrhydi ym mis Mehefin 2013, gan alluogi awdurdodau tai lleol yng Nghymru i adael HRAS. Fel rhan o'r cytundeb, roedd hi'n ofynnol i'r 11 awdurdod tai lleol brynu eu hunain allan o'r system gymhorthdal.<br>Cafodd y Cyngor fenthyg tua £21.2 miliwn gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ar 2 Ebrill 2015 gydag aeddfedrwydd benthyciad o 30 mlynedd, a ddefnyddiwyd i dalu'r llywodraeth a dileu'r cymorthdaliadau negyddol. Roedd rhaid i'r Cyngor gynhyrchu cynllun 30 mlynedd cyn prynu, a rhaid i'r cynllun hwn gael ei ddiweddaru bob blwyddyn. | • phrofi priodoldeb yr holl gofnodion cyfrifyddu perthnasol i sicrhau eu bod yn unol â chod ymarfer CIPFA ar gyfrifyddu awdurdodau lleol a bod y datgeliadau perthnasol yn y datganiad cyfrifon yn gywir. |

**10.** Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ar gywirdeb a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig, ond mabwysiadaf gysyniad o berthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rheini a allai gamarwain y sawl sy'n darllen y cyfrifon. Caiff y lefelau a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu nodi yn fy adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio cyn cwblhau'r archwiliad.

**11.** At ddibenion adrodd, rydym wedi rhagweld perthnasedd o £3.2 miliwn, yn seiliedig ar amcangyfrif o wariant net o £202.9 miliwn (yr ôl Adroddiad Ariannol a Monitro Cyfalaf y trydydd chwarter). Bydd y perthnasedd yn cael ei ddiweddaru ar ddiwedd y flwyddyn yn unol â'r gwariant gros diwedd blwyddyn a byddwn yn rhoi gwybod i'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio am unrhyw newidiadau. Byddaf yn ymdrin ag unrhyw gamddatganiadau sydd islaw lefel 'ddibwys' (pump y cant o berthnasedd neu £100,000, pa un bynnag sydd isaf) fel materion nad oes angen i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddaf yn cyflwyno adroddiad arnynt. Mae fy ffioedd yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- bod y wybodaeth a ddarperir i ategu'r datganiadau ariannol yn amserol, o'r ansawdd disgwyliedig a'i bod wedi'i hadolygu at ddibenion sicrhau ansawdd;
- y bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
- bod yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith gennych i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i roi'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a anfonir ataf; a
- bod rhaglen waith arfaethedig y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi'i chwblhau a bod y rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

12. Yn ogystal â'm cyfrifoldebau o ran archwilio datganiadau ariannol statudol y Cyngor a nodwyd uchod, mae hefyd yn ofynnol i mi ardystio datganiad a gyflwynir i Lywodraeth Cymru sy'n rhoi gwybodaeth am y Cyngor i gefnogi'r gwaith o baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan.


## Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

13. Gofynnwyd i mi wneud gwaith ardystio ar hawliadau a ffurflenni grant y Cyngor. Nodir fy ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn yn Arddangosyn 5.

## Archwilio perfformiad

14. Nodir elfennau fy ngwaith archwilio perfformiad yn Arddangosyn 3 ac fe'u cynlluniwyd er mwyn helpu i gyflawni'r amcanion lefel uchel a nodwyd yn ein strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2013-2016.

Arddangosyn 3: Elfennau o'm gwaith archwilio perfformiad



15. Mae llywodraeth leol yng Nghymru yn mynd drwy gyfnod o newid na welwyd mo'i debyg o'r blaen. Mae effeithiau caledi yn amlwg o hyd, bydd yn ofynnol i gyrff a archwilir fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy o fis Ebrill 2016, ac mae Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft yn cynnig llai o gynghorau a fframwaith perfformiad newydd. Mae'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi datgan yn gyhoeddus yr hoffai weld cyfundrefn archwilio newydd cyn cyflwyno'r amserlen ddeddfwriaethol gyda'r bwriad o gefnogi newid. Ym mis Ionawr eleni, fe'm hysbyswyd gan y gweinidog y byddai gostyngiad sylweddol yn y grant sy'n darparu cymhorthdal ar gyfer fy ngwaith archwilio perfformiad llywodraeth leol o dan y Mesur.

16. Rwyf wedi ystyried y ffaith y bydd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn bodoli ac y bydd gan gynghorau rwymedigaeth i fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy o fis Ebrill 2016, fel yr amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

17. Er bod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn dal i fod yn berthnasol i gynghorau yn 2016-17, bydd angen i mi fodloni gofynion archwilio o dan adran 17. Byddaf yn gwneud hyn trwy archwiliad sylfaenol o gyhoeddiadau awdurdodau lleol, a byddaf yn darparu tystysgrif o gydymffurfiaeth.

18. Fodd bynnag, gan fod Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft yn nodi na fydd Mesur 2009 yn berthnasol i gynghorau mwyach, yr her i mi yn y cyfnod ansicr hwn yw sicrhau cydbwysedd rhwng fy nyletswyddau statudol presennol, newydd ac arfaethedig a'r angen i barhau i gynnal archwiliadau ac asesiadau ystyrlon a chymesur sy'n seiliedig ar risg. Felly, rwy'n bwriadu lleihau'r gwaith sy'n canolbwyntio ar y broses o gynllunio ar gyfer gwella o blaid gwaith sy'n canolbwyntio ar allu cynghorau i sicrhau newid a chynnal llywodraethu da yr un pryd.

19. O ran fy ngofynion asesu adran 18, byddaf yn cyflawni'r ddyletswydd hon trwy gynnal tri adolygiad thematig ym mhob cyngor gyda'r nod o ddarparu sicrwydd a mewnwelediad ynghylch sut y gall trefniadau gefnogi gwelliant a newid, gan ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Yn ogystal ag adrodd i bob cyngor ar ei drefniadau ei hun, byddaf hefyd yn cyhoeddi adroddiadau cryno cenedlaethol, a ariennir gan y grant WPI, a fydd yn darparu crynodebau Cymru gyfan ac yn cyfeirio at arfer da a dysgu ar y cyd. Yn ogystal ag ymateb i'r amgylchedd llywodraeth leol sy'n newid yn gyflym, mae fy newis o adolygiadau thematig wedi'i ddylanwadu gan ymatebion i'm hymgynghoriad ar astudiaethau llywodraeth leol. Yn gryno, mae'r tri adolygiad thematig rwyf wedi penderfynu arnynt fel a ganlyn, a byddaf yn darparu briff prosiect manwl i gynghorau maes o law.

Arddangosyn 4: Adolygiadau thematig archwilio perfformiad

| Thema | |
|---|---|
| **Adolygiad cydnerthedd ariannol** | Mae cynghorau'n parhau i ymdrin â chaledi a dyfodol ansicr. Bydd yr adolygiad hwn yn ceisio darparu sicrwydd bod trefniadau'n canolbwyntio ar gynnal cydnerthedd dros y tymor canolig a'r tymor hir. |
| **Adolygiad llywodraethu** | Gyda chyflwyniad fframwaith diwygiedig CIPFA ar 'Delivering good governance in local government', a'r gofyniad ar gynghorau i fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy o fis Ebrill 2016, bydd yr adolygiad hwn yn darparu llinell sylfaen i gynghorau allu cynllunio gwelliannau i lywodraethu. |
| **Adolygiad trawsnewidiad** | Bydd yr adolygiad llinell sylfaen hwn yn archwilio sut mae cynghorau'n mynd ati i gynnig 'newid trawsnewidiol', yn enwedig sut mae swyddogaethau galluogi corfforaethol allweddol yn gweithio mewn ffordd integredig i gefnogi rhaglenni newid. |

**20.** Rwy'n bwriadu gadael rhywfaint o le yn y strwythur ffioedd i gytuno ar waith lleol seiliedig ar risg yn dilyn trafodaeth gyda phob cyngor. Gan y bydd pob un o'r adolygiadau thematig yn arwain at adroddiad lleol, a bydd adroddiadau blynyddol yn cael eu cyflwyno trwy gyfrwng llythyr blynyddol sy'n darparu'r prif bwyntiau cryno ac yn cysylltu ag adroddiadau lleol.

**21.** Ym mis Mawrth 2016, byddaf yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad gyda chyrff gwasanaeth cyhoeddus i drafod y ffordd orau o gyflawni fy amrywiol ddyletswyddau tra'n sicrhau'r cydbwysedd mwyaf priodol ac ychwanegu gwerth drwy:

- roi sicrwydd o ran y ffordd y caiff arian cyhoeddus ac asedau eu llywodraethu a'u gwarchod;
- rhoi cipolwg defnyddiol o'r graddau y defnyddir adnoddau yn ddoeth i ddiwallu anghenion pobl; a
- nodi a hyrwyddo ffyrdd y gellir gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

**22.** Mae'r prosiectau archwilio perfformiad a gafodd eu cynnwys yng Nghynllun Archwilio y llynedd, sydd naill ai ar waith neu wedi'u hamnewid am brosiectau eraill mewn cytundeb â chi, wedi'u hamlinellu yn Atodiad 2.

# Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen

## Ffi

**23.** Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud elw o ffioedd. O dan y ddeddfwriaeth, ni chaiff y ffioedd a godir fod yn uwch na'r gost lawn sy'n gysylltiedig â chyflawni'r swyddogaeth y codir y ffi amdani. Pennir y cyfraddau ffioedd er mwyn adennill y gost honno'n llawn. Ni fu unrhyw newid yn fy nghyfraddau ffioedd ar gyfer 2016 a bydd fy nhimau archwilio yn parhau i geisio sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn eu harchwiliadau ac maent yn awyddus i weithio gyda chi mewn modd adeiladol yn hyn o beth.

**24.** Nodir eich ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2016 yn Arddangosyn 5. Nid yw'r ffigur hwn yn cynrychioli unrhyw newid o gymharu â'r ffi a nodwyd yng nghynllun archwilio 2015.

Arddangosyn 5: Ffi archwilio

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig (£)[1] | Y ffi wirioneddol y llynedd (£) |
|---|---|---|
| **Gwaith archwilio ariannol[1]** | **£193,000** | **£193,000** |
| **Gwaith archwilio perfformiad:[2]** | | |
| • Gwaith archwilio ac asesu ar gyfer gwella a gwaith dilynol | £101,472 | £113,715 |
| **Cyfanswm y ffi** | **£294,472** | **£306,715** |
| **Gwaith ardystio grantiau[3]** | **£135,000** | **£135,000** |

Nodiadau:

[1] Yn daladwy rhwng mis Tachwedd 2015 a mis Hydref 2016.

[2] Yn daladwy rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017.

[3] Yn daladwy wrth i'r gwaith gael ei wneud ac yn amodol ar lefel y profi sy'n ofynnol.

**25.** Bydd y broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio ac, felly, y ffi os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn codi. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â'r Cyngor yn gyntaf.

**26.** Ceir rhagor o wybodaeth am fy ngraddfeydd ffioedd a'r broses o bennu ffioedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

[1] Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, gan na chodir TAW arnoch mwyach.

## Tîm archwilio

**27.** Ceir crynodeb o brif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn Arddangosyn 6.

Arddangosyn 6: Fy nhîm

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Ian Howse | Arweinydd Ymgysylltu – Archwilio Ariannol | 029 2026 4319 | ihowse@deloitte.co.uk |
| Clare Edge | Rheolwr Archwilio Ariannol | 029 2026 4341 | cedge@deloitte.co.uk |
| Derwyn Owen | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 029 2032 0651 | derwyn.owen@audit.wales |
| Jane Holownia | Arweinydd Ymgysylltu – Archwilio Perfformiad | 029 2032 0565 | jane.holownia@audit.wales |
| Andy Bruce | Rheolwr Archwilio Perfformiad | 079 1916 4779 | andy.bruce@audit.wales |
| Gwilym Bury | Arweinydd Archwilio Perfformiad | 078 1356 4432 | gwilym.bury@audit.wales |

**28.** Gallaf gadarnhau bod holl aelodau fy nhîm yn annibynnol ar y Cyngor a'ch swyddogion. At hynny, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi dynnu eich sylw ato.

## Amserlen

**29.** Byddaf yn cyflwyno adroddiadau, neu allbynnau eraill y cytunwyd arnynt, i'r Cyngor sy'n ymdrin â'r meysydd gwaith a nodir yn y ddogfen hon. Nodir fy ngherrig milltir allweddol yn Arddangosyn 7.

Arddangosyn 7: Amserlen

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wnaed | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| **Cynllun Archwilio 2016** | Mawrth – Ebrill 2016 | Mai 2016 |
| **Gwaith cyfrifon ariannol:**<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin – Medi 2016 | Medi 2016 |
| **Gwaith perfformiad:**<br>• Archwiliad o'r Cynllun Gwella | Pan fydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi | Chwe wythnos ar ôl ei gyhoeddi |
| • Archwiliad o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol | Tachwedd 2016 | Chwe wythnos ar ôl ei gyhoeddi |
| • Gwaith perfformiad lleol | Mai 2016 - Mawrth 2017 | Ar ôl cwblhau'r prosiectau mewn ymgynghoriad â'r Cyngor |
| • Astudiaethau thematig: | Mehefin - Rhagfyr 2016 | Mawrth 2017 |
| – Adolygiad o Wydnwch Ariannol | Medi - Rhagfyr 2016 | Mawrth 2017 |
| – Adolygiad Llywodraethu | Rhagfyr 2016 - Chwefror 2017 | Mawrth 2017 |
| – Adolygiad Trawsnewidiad | | |
| • Llythyr Gwella Blynyddol | Crynodeb o'r gwaith a wnaed | Mawrth 2017 |
| Cynllun Archwilio 2017 | Hydref – Rhagfyr 2017 | Mawrth 2017 |

# Datblygiadau yn y dyfodol i'm gwaith archwilio

**30.** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal archwiliad o bob un o'r cyrff cyhoeddus a ddynodir yn y Ddeddf a darparu adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol erbyn 2020.

**31.** Fel y nodir ym mharagraff 21, byddaf yn ymgynghori ar fy ymateb arfaethedig i'r Ddeddf yn ystod gwanwyn 2016. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys ymrwymiad i ymgysylltu a chydweithio â chyrff cyhoeddus i ddatblygu dull archwilio sy'n drylwyr, yn ystyrlon ac yn gymesur. Bwriadaf ddefnyddio 2016-17 fel blwyddyn drosiannol lle y bydd fy nhimau yn gweithio gyda nifer gyfyngedig o gyrff cyhoeddus i ddatblygu a phrofi fy null.

**32.** Wrth i ni gadarnhau ein dulliau archwilio ac ymateb i ymgynghori parhaus gan Lywodraeth Cymru, byddwn yn siarad â chyrff a archwilir am y goblygiadau i'w ffioedd o 2017-18 ymlaen ac yn ystyried modelau ariannu amgen â Phwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol nesaf.

# Atodiad 1

## Priod gyfrifoldebau

### Archwilio ariannol

Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi fy mhwerau a'm dyletswyddau i gynnal eich archwiliad ariannol. Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar y canlynol:

- Eu 'cywirdeb a'u tegwch', gan roi sicrwydd eu bod:
  - yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall;
  - yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a gofynion cymwys eraill; ac
  - yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu o ran cyfrifyddu.
- Cysondeb y wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol.

Mae'n rhaid i mi hefyd ddatgan drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â'r gofynion, os na chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir, os na wnaed y datgeliadau gofynnol ar gyfer cydnabyddiaeth a thrafodion eraill neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi asesu a yw Cyngor Gwynedd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Er mwyn cyflawni hyn, ystyriaf y canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;
- system rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd, fel y nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'm hadroddiad cysylltiedig;
- canlyniadau gwaith arall a wnaed gan gynnwys gwaith a gynhaliwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), ardystiadau o hawliadau a ffurflenni ac ymarferion paru data;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bo hynny'n berthnasol i'm cyfrifoldebau; ac
- unrhyw waith arall sy'n ymdrin â materion nas cwmpesir gan yr uchod, ac yr wyf o'r farn ei fod yn angenrheidiol i gyflawni fy nghyfrifoldebau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol y Cyngor a dogfennau cysylltiedig, gofyn cwestiynau i mi, fel yr Archwilydd Penodedig, am y cyfrifon a, lle y bo'n briodol, herio eitemau yn y cyfrifon. Rhaid i mi hefyd ystyried pa un a ddylwn lunio adroddiad, er budd y cyhoedd, ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw wrth i mi gynnal yr archwiliad.

Nid yw fy ngwaith archwilio yn rhyddhau rheolwyr, na'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, o'u cyfrifoldebau sy'n cynnwys:

- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â safonau a chanllawiau cyfrifyddu cymwys;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol; a
- sicrhau gwerth am arian o ran y defnydd o adnoddau.

Mae'r rheolwyr yn cytuno i roi'r canlynol i mi:

- mynediad i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- gwybodaeth ychwanegol y gallaf ofyn amdani gan y rheolwyr er mwyn cynnal yr archwiliad; a
- mynediad anghyfyngedig i unigolion o fewn y Cyngor y byddaf yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt.

Bydd angen i'r rheolwyr roi datganiadau ysgrifenedig i mi er mwyn cadarnhau'r canlynol:

- eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol;
- bod pob trafodyn wedi'i gofnodi ac wedi'i adlewyrchu yn y datganiadau ariannol;
- bod y wybodaeth a roddwyd i mi er mwyn cynnal yr archwiliad yn gyflawn; ac
- ategu tystiolaeth archwilio arall sy'n berthnasol i'r datganiadau ariannol neu honiadau penodol yn y datganiadau ariannol os ystyriaf fod hynny'n angenrheidiol neu os yw'n ofynnol o dan y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio.

## Archwilio perfformiad

Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni [eu] swyddogaethau'. Mae hefyd yn gosod gofynion penodol ar awdurdodau i bennu amcanion gwella, ac i gyhoeddi cynlluniau gwella blynyddol ac asesiadau o berfformiad. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal asesiad gwella ar gyfer pob awdurdod gwella bob blwyddyn, er mwyn pennu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'i ddyletswydd gyffredinol a gofynion y Mesur. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal archwiliadau i nodi pa un a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran gwella, cynllunio ac adrodd.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

# Atodiad 2

## Gwaith perfformiad yn yr amlinelliad o archwiliad y llynedd sydd ar waith o hyd

| Prosiect archwilio perfformiad | Statws | Sylwadau |
|---|---|---|
| Agwedd strategol cynghorau at gynhyrchu incwm a chodi ffi am wasanaethau | Gwaith maes wedi'i gwblhau | Adroddiad Cenedlaethol i'w gyhoeddi yn ystod haf 2016 |
| Effeithiolrwydd partneriaethau cymunedol lleol | Gwaith maes wedi'i gwblhau ac adroddiad cenedlaethol yn cael ei ddrafftio | Adroddiad Cenedlaethol i'w gyhoeddi yn ystod haf 2016 |
| Y cyngor i ariannu gwasanaethau trydydd sector | Gwaith maes wedi dechrau ond heb ei gwblhau ar bob safle | Adroddiad Cenedlaethol i'w gyhoeddi yn ystod haf 2016 |
| Adolygiad lleol o reoli absenoldeb | Adroddiad drafft wedi'i gyflwyno i'r Cyngor yn ystod gwanwyn 2016 | Adroddiad lleol i'w gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2016 |

# Atodiad 3

## Astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Efallai y bydd gan Gyngor Gwynedd hefyd ddiddordeb yn yr archwiliadau gwerth am arian cenedlaethol a gynhelir gennyf, y bydd rhai ohonynt yn arbennig o berthnasol i lywodraeth leol, ac efallai'n cynnwys casglu tystiolaeth ar draws llywodraeth leol. Ariennir yr astudiaethau hyn gan y Cynulliad Cenedlaethol. Cyflwynir adroddiadau i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol i'w helpu i graffu ar wariant cyhoeddus ac o bosibl i hwyluso trefniadau craffu pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r tabl isod yn cwmpasu'r holl waith mewn perthynas ag astudiaethau gwerth am arian sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys crynodebau Cymru gyfan o'r gwaith archwilio a wnaed yn lleol yn y GIG ac archwiliadau ymatebol o feysydd penodol sy'n peri pryder i'r cyhoedd a godwyd â mi. Yn ogystal â'r gwaith a amlinellir isod, mae'n bosibl y byddaf yn penderfynu paratoi adroddiadau cenedlaethol eraill yn ystod y flwyddyn a fydd yn crynhoi gwaith archwilio lleol neu a fydd yn seiliedig ar ganfyddiadau archwiliadau ymatebol.

Cyflwynir adroddiadau diweddaru pellach ar fy rhaglen o astudiaethau gwerth am arian i chi o fewn yr adroddiadau cynnydd rheolaidd a baratoir gan fy nhîm.

| Pwnc | Amserlen gyhoeddi ddisgwyliedig |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru yn caffael a pherchnogi Maes Awyr Caerdydd | Diwedd Ionawr 2016 |
| Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru | Dechrau Chwefror 2016 |
| Theatrau llawdriniaethau | Chwefror 2016 |
| Effaith ymarfer preifat ar ddarpariaeth y GIG | Chwefror 2016 |
| Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru | Mawrth 2016 |
| Ymatebion Llywodraeth Cymru i argymhellion archwilio (memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus) | Gwanwyn 2016 |
| Rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol | Gwanwyn 2016 |
| Gwasanaethau rheilffyrdd | Gwanwyn 2016 |
| Llywodraethu Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Gwanwyn 2016 |
| Goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru o gyllid a darpariaeth sefydliadau addysg bellach | Hydref 2016 |
| Caffael cyhoeddus (gan gynnwys datblygu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol) | Gaeaf 2016 |

| Pwnc | Amserlen gyhoeddi ddisgwyliedig |
|---|---|
| Ymyrraeth gynnar a newid ymddygiad | Gwanwyn/haf 2017[2] |
| Ymyriadau Llywodraeth Cymru mewn llywodraeth leol | I'w gadarnhau[3] |

Yn ystod y misoedd diwethaf, bûm yn ystyried cynnwys nifer o astudiaethau newydd ar y canlynol fel rhan o'm rhaglen:

- Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
- Buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion (rhaglen ysgolion yr 21ain Ganrif) a lleoedd ysgol
- Cyllid addysg bellach
- Rheoli gwastraff
- Rhaglen Cefnogi Pobl
- Gallu pobl nad Cymraeg neu Saesneg yw eu mamiaith a'r rheini a all fod o dan anfantais ac na allant fanteisio ar wasanaethau cyfieithu ar y pryd arbenigol i gael gafael ar wasanaethau cyhoeddus

Ac eithrio'r astudiaeth addysg bellach y cyfeirir ati yn y tabl uchod, ni chadarnhawyd cynlluniau pendant ar gyfer yr astudiaethau newydd hyn, er bod gwaith pennu cwmpas cychwynnol yn mynd rhagddo.

[2] Mae fy rhaglen o waith arfer da yn cynnwys prosiect a fydd yn ceisio ystyried yr amrywiaeth o waith newid ymddygiad ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a chyfleoedd i wella ymarfer, cyflawni canlyniadau gwell i ddinasyddion a sicrhau gwell gwerth am arian. Bydd y prosiect yn cynnwys amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu a threfniadau ar gyfer datblygu cymuned ymarfer i rannu dysgu a phrofiad. Rwyf yn rhagweld y bydd y wybodaeth a'r dystiolaeth a gesglir drwy'r gwaith hwn yn ategu'r broses o lunio adroddiad ar y pwnc, er nad yw'r adroddiad hwn yn debygol o fod ar ffurf adroddiad archwilio traddodiadol ac nad yw'n debygol o gael ei baratoi tan hanner cyntaf 2017.

[3] Bu'r cynlluniau ar gyfer y gwaith hwn yn cael eu hailystyried yn dilyn yr adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o ymyriadau Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru mewn perthynas ag Ynys Môn, ac er mwyn ystyried goblygiadau'r cynlluniau i ddiwygio llywodraeth leol ar gyfer y gwaith.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2013/14 a 2014/15

## Cyngor Sir Ynys Môn

**Blwyddyn archwilio:** 2013/14 a 2014/15

**Cyhoeddwyd:** Mawrth 2016

**Cyfeirnod y ddogfen:** C16115

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â'r swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff a chontractwyr Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd a benodwyd ganddo) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.



Paratowyd y ddogfen hon gan PricewaterhouseCoopers LLP ('PwC') ar ran yr Archwilydd Penodedig

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 4 |
| Penawdau | 5 |
| Crynodeb o ganlyniadau'r gwaith ardystio | 7 |
| Argymhellion | 12 |
| Ffioedd | 15 |

# Crynodeb

**1.** O dan baragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud trefniadau i ardystio hawliadau a ffurflenni (y cyfeirir atynt fel hawliadau grant o hyn ymlaen) os gofynnir iddo wneud hynny gan lywodraeth leol neu gorff arall sy'n derbyn grant.

**2.** Ymgymerwyd â'n gwaith yn 2013/14 a 2014/15 gyda'r nod o ardystio hawliadau unigol ac ateb y cwestiwn:

'A oes gan Gyngor Sir Ynys Môn (yr Awdurdod) drefniadau digonol ar waith i sicrhau y caiff hawliadau grant cydgysylltiedig, cywir, amserol ac wedi'u dogfennu'n briodol eu paratoi?'

**3.** Rydym wedi cwblhau'r archwiliad ac wedi dod i'r casgliad, er bod gan yr Awdurdod drefniadau digonol ar y cyfan ar gyfer paratoi a chyflwyno ei hawliadau grant yn 2013/14 a 2014/15 , fod lle i wella. Mae ein casgliad yn seiliedig ar y canfyddiadau cyffredinol canlynol:

- gweithiodd yr Awdurdod yn agos â ni er mwyn sicrhau bod rhestr gywir a chyfredol o grantiau ar waith ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol; ac
- mae lle i wella trefniadau'r Awdurdod ar gyfer paratoi ei hawliadau grant ymhellach.

**4.** Cyflwynodd yr Awdurdod 86% o'i hawliadau ar amser yn 2013/14 a 67% yn 2014/15. Rydym yn cadarnhau ein bod wedi ardystio pob un ac eithrio un hawliad, am gyfanswm cost archwilio o £136,647 (2013/14) a £90,132 (2014/15). Yn gyffredinol, arweiniodd yr archwiliadau at ostyngiad o £28,398.53 yn y grantiau a'r ffurflenni a hawliwyd gan yr Awdurdod, mewn perthynas â 2013/14 a gostyngiad o £1,918.76 mewn perthynas â 2014/15.

**5.** Nodir bod y gwaith archwilio ar hawliad Cymhorthdal Budd-dal Tai ar gyfer 2014/15 yn dal i fod yn anghyflawn. Rydym yn gweithio'n agos â'r enwau cyswllt allweddol er mwyn cwblhau'r gwaith sy'n weddill mor fuan â phosibl.

# Penawdau

| | | |
|---|---|---|
| **Cyflwyniad a chefndir** | **Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau'r gwaith o ardystio hawliadau grant a ffurflenni 2013/14 a 2014/15 yr Awdurdod**<br>• Fel archwilwyr penodedig yr Awdurdod, gofynnir i ni ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, ardystio hawliadau grant a wnaed gan yr Awdurdod.<br>• Ar gyfer 2013-14, ardystiwyd 22 o grantiau a ffurflenni gwerth cyfanswm o £51,449,248<br>• Ar gyfer 2014-15, ardystiwyd 15 o grantiau a ffurflenni gwerth cyfanswm o £62,050,367.<br>• Mae'r Awdurdod wedi rhoi'r cyfrifoldeb am grantiau i swyddog allweddol yn yr adran Gyllid (Jenny Whiston) a weithiodd yn agos â ni er mwyn sicrhau bod rhestr gywir a chyfredol o grantiau a ffurflenni ar waith ar gyfer y ddwy flwyddyn.<br>• Rhoddwyd protocol cydweithio ar waith cyn dechrau ar y gwaith.<br>• Rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn fel y gallwn roi adborth i'r swyddogion hynny sy'n gyfrifol am reoli grantiau er mwyn hwyluso'r gwaith o nodi gwelliannau pellach i'r prosesau sydd ar waith yn yr Awdurdod. | Tudalennau 7 - 11 |
| **Hawliadau'n dod i law yn amserol** | • Ar gyfer 2013/14, dengys ein dadansoddiad bod 86 y cant o grantiau a gafwyd yn ystod y flwyddyn wedi dod i law erbyn terfyn amser yr Awdurdod. Ni fu ond ychydig o oedi (hyd at fis) cyn cyflwyno'r 14 y cant a oedd yn weddill (3 hawliad).<br>• Ar gyfer 2014/15, dengys ein dadansoddiad bod 67 y cant o grantiau a gafwyd yn ystod y flwyddyn wedi dod i law erbyn terfyn amser yr Awdurdod. Ni fu ond ychydig o oedi (hyd at fis) cyn cyflwyno'r 33 y cant a oedd yn weddill (5 hawliad).<br>• Dylai'r cydgysylltydd grantiau sicrhau y caiff pob hawliad grant ei gyflwyno erbyn y terfynau amser ac, yn bwysig ddigon, fod ymatebion i ymholiadau archwilio yn cael eu rhoi fel arfer o fewn dau ddiwrnod gwaith ar y mwyaf. Rydym yn cydnabod bod ymholiadau archwilio sy'n ymwneud â gwariant trydydd partïon yn debygol o gymryd mwy o amser i ymdrin â hwy. Ond mae'n hollbwysig bod ymholiadau yn cael eu hateb mewn modd amserol er mwyn gweithredu'n unol â therfyn amser ardystio'r archwilydd. | Tudalennau 8 - 9 |

| | | |
|---|---|---|
| **Canlyniadau ardystio** | • Ar gyfer 2013/14, rhoddwyd tystysgrifau diamod ar gyfer saith grant a ffurflen gennym a chafodd saith arall eu newid heb fod yn amodol. Roedd angen i'n tystysgrif archwilio fod yn amodol ar gyfer pedwar, ac roedd angen nodi barn amodol, gyda newidiadau, mewn pedwar achos.<br>• Ar gyfer 2014/15, rhoddwyd tystysgrifau diamod ar gyfer 11 o grantiau a ffurflenni gennym a rhoddwyd barn amodol ar dri arall, gyda newidiadau. Mae'r gwaith ardystio archwilio ar gyfer hawliad grant y Cymorth Budd-dal Tai yn parhau.<br>• Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i'r Awdurdod wella perfformiad o ran rheoli cynlluniau grant a'r hawliadau cysylltiedig ymhellach. | Tudalennau 8 - 14 |
| **Addasiadau archwilio** | • Ar gyfer 2013-14 bu angen addasu 11 o grantiau a ffurflenni'r Awdurdod o ganlyniad i'n gwaith ardystio archwilio. Bu angen un addasiad sylweddol (h.y. dros £10,000) a oedd yn ymwneud â ffurflen y Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai, sef gostyngiad o £36,811. Yr addasiad net (o dan £10,000) ar gyfer saith o'r grantiau oedd cynnydd o £8,413 o arian yn daladwy i'r Awdurdod. Ar gyfer tri o'r grantiau a newidiwyd, ni chafodd y newid unrhyw effaith ar yr arian a oedd yn daladwy i'r Awdurdod.<br>• Ar gyfer 2014-15 bu angen addasu pedwar o grantiau a ffurflenni'r Awdurdod o ganlyniad i'n gwaith ardystio archwilio. Ni fu angen unrhyw addasiadau sylweddol (h.y. dros £10,000). Yr addasiad net (o dan £10,000) ar gyfer y tri grant oedd gostyngiad o £1,918 o arian yn daladwy i'r Awdurdod. | Tudalennau 8 - 14 |
| **Trefniadau'r Awdurdod** | • Mae gan yr Awdurdod drefniadau digonol ar gyfer paratoi ei grantiau a'i ffurflenni a chefnogi ein gwaith ardystio ond mae angen gwella rhai meysydd.<br>• Dylai gweithdrefnau ychwanegol gael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau y caiff rheolau cynlluniau grant, gofynion cwblhau a therfynau amser cyflwyno eu dilyn bob amser ym mhob rhan o'r Awdurdod. | Tudalennau 12 - 14 |

| | | |
|---|---|---|
| **Ffioedd** | • Ein ffi gyffredinol ar gyfer ardystio grantiau a ffurflenni ar gyfer 2013-14 oedd £136,647. Mae hon yn llai na'n ffi yn 2012-13 ac mae'n adlewyrchu lleihad yn nifer y grantiau sy'n ymwneud â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar ôl i'r hen gynlluniau gau. Mae ein ffi gyffredinol wedi parhau i ostwng yn 2014-15 gydag anfonebau ffioedd o £90,132 hyd yma. Caiff anfoneb arall ei hanfon ar ôl i ni gwblhau ein gwaith ar y Cymhorthdal Budd-dal Tai. | Tudalennau 15 - 17 |

# Crynodeb o ganlyniadau'r gwaith ardystio



6. Ar y tudalennau canlynol ceir crynodeb o ganlyniadau allweddol ein gwaith ardystio ar grantiau a ffurflenni 2013/14 a 2014/15 yr Awdurdod, sy'n dangos p'un a wnaed newidiadau archwilio o ganlyniad i'n gwaith neu lle y rhoddwyd tystysgrif archwilio amodol gennym.

7. Ystyr barn amodol yw bod materion wedi cael eu nodi ynglŷn â chydymffurfiaeth yr Awdurdod â gofynion cynllun na ellid eu datrys drwy addasiad. O dan yr amgylchiadau hyn mae'n debygol y bydd y corff perthnasol sy'n talu'r grant yn gofyn am ragor o wybodaeth gan yr Awdurdod er mwyn bodloni ei hun bod symiau llawn y grant a hawliwyd yn briodol.

| Gwybodaeth allweddol ar gyfer 2013-14 | Gwybodaeth allweddol ar gyfer 2014-15 |
|---|---|
| **Yn gyffredinol, ardystiwyd 22 o grantiau a ffurflenni gennym:**<br>Roedd saith yn ddiamod heb eu newid<br>Roedd saith yn ddiamod ond roedd angen newid y ffigurau terfynol<br>Roedd angen i'n tystysgrif archwilio nodi barn amodol ar gyfer pedwar.<br>Roedd pedwar yn amodol ac roedd angen newid y ffigurau terfynol. | **Yn gyffredinol, byddwn yn ardystio cyfanswm o 15 o grantiau a ffurflenni:**<br>Roedd 11 yn ddiamod heb eu newid<br>Roedd tri yn amodol ac roedd angen newid y ffigurau terfynol.<br>Mae gwaith ardystio archwilio ar un hawliad grant a dderbyniwyd i'w archwilio yn parhau |

**Grantiau a ffurflenni: 2013/14**

| Cyf – Para 8 | Grantiau a ffurflenni | Hawliad sy'n ddyled-us | Hawliad a dder-byniwyd | Yn hwyr | Tystysgrif amodol | Addasiad (>£10,000) | Addasiad (<£10,000) | Tystysgrif ddiamod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cymunedau yn Gyntaf | 30/09/14 | 28/07/14 | Na | | | £0 | |
| 2 | Cymhorthdal Budd-dal Tai | 30/04/14 | 30/04/14 | Na | | | £8,050 | |
| 3 | Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | 30/05/14 | 27/05/14 | Na | | | £0 | |
| 4 | Ffurflen Pensiwn Athrawon | 30/06/14 | 16/07/14 | Ie | | | £5,802 | |
| 5 | Grant Effeithiolrwydd Ysgolion | 30/09/14 | 23/09/14 | Na | | | | |
| 6 | Grant Gwella Adeiladau Ysgolion Trosiannol | 30/09/14 | 21/07/14 | Na | | | | |
| 7 | Y Gymraeg mewn Addysg | 30/09/14 | 27/07/14 | Na | | | | |
| 8 | Dechrau'n Deg – Refeniw | 30/09/14 | 22/09/14 | Na | | | £1 | |
| 9 | Dechrau'n Deg – Cyfalaf | 30/09/14 | 21/07/14 | Na | | | | |
| 10 | Teuluoedd yn Gyntaf | 30/09/14 | 29/09/14 | Na | | | (£1,158) | |
| 11 | Ardal Adfywio Strategol - Grant Adnewyddu Cartrefi Gwag i Brynwyr Tro Cyntaf | 30/09/14 | 22/09/14 | Na | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Ardal Adfywio Strategol - Grant Eiddo a'r Amgylchedd | 30/09/14 | 22/09/14 | Na | | | (£3,600) | |
| 13 | Teithio am Ddim | 30/09/14 | 02/09/14 | Na | | | (£683) | |
| 14 | Maes Awyr Môn | 31/10/14 | 30/07/14 | Na | | | | |
| 15 | Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy | 30/09/14 | 21/08/14 | Na | | | | |
| 16 | Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai | 30/09/14 | 21/08/14 | Na | | (£36,811) | | |
| 17 | Llwybrau Dysgu | 30/09/14 | 26/09/14 | Na | | | £1 | |
| 18 | Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol | 26/09/14 | 07/10/14 | Ie | | | £0 | |
| 19 | Cronfeydd Strwythurol - Datblygu Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn | 14/10/14 | 20/10/14 | Ie | | | | |
| 20 | Cronfeydd Strwythurol - Cronfa Fuddsoddi Leol Gogledd-orllewin Cymru | 21/01/15 | 21/01/15 | Na | | | | |
| 21 | Cronfeydd Strwythurol – Seilwaith Strategol ar Safleoedd Ynys Môn | 21/01/15 | 21/01/15 | Na | | | | |
| 22 | Diogelu'r Arfordir | 30/01/15 | 28/01/15 | Na | | | | |
| | **Cyfanswm** | | | | | **(£36,811)** | **£8,413** | |

## Grantiau a ffurflenni: 2014/15

| Cyf – Para 8 | Grantiau a ffurflenni | Hawliad sy'n ddyledus | Hawliad a dderbyniwyd | Yn hwyr | Tystysgrif amodol | Addasiad (>£10,000) | Addasiad (<£10,000) | Tystysgrif ddiamod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 23 | Cymhorthdal Budd-dal Tai | 30/04/15 | 30/04/15 | Na | Gwaith archwilio sy'n parhau | | | |
| 24 | Cymhorthdal Refeniw Tai | 30/09/15 | 30/09/15 | Na | | | | |
| 25 | Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | 29/05/15 | 14/05/15 | Na | | | | |
| 26 | Ffurflen Pensiwn Athrawon | 29/05/15 | 29/05/15 | Na | | | (£1) | |
| 27 | Cymunedau yn Gyntaf | 31/07/15 | 31/07/15 | Na | | | | |
| 28 | Dechrau'n Deg – Refeniw | 30/09/15 | 01/10/15 | Ie | | | | |
| 29 | Dechrau'n Deg – Cyfalaf | 30/09/15 | 19/06/15 | Na | | | | |
| 30 | Teuluoedd yn Gyntaf | 30/09/15 | 03/09/15 | Na | | | | |
| 31 | Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy | 30/09/15 | 17/08/15 | Na | | | | |
| 32 | Y Gronfa Trafnidiaeth Leol | 30/09/15 | 24/09/15 | Na | | | £0 | |
| 33 | Teithio am Ddim | 30/09/15 | 29/09/15 | Na | | | | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 34 | Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol | 25/09/15 | 09/11/15 | Ie | | | | |
| 35 | Cronfeydd Strwythurol - Datblygu Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn | 14/07/15 | 20/07/15 | Ie | | | **(£80)** | |
| 36 | Cronfeydd Strwythurol - Cronfa Fuddsoddi Leol Gogledd-orllewin Cymru | 14/07/15 | 20/07/15 | Ie | | | **(£1,837)** | |
| 37 | Cronfeydd Strwythurol – Seilwaith Strategol ar Safleoedd Ynys Môn | 14/07/15 | 20/07/15 | Ie | | | | |
| | **Cyfanswm** | | | | | **£0** | **(£1,918)** | |

**8.** Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r materion allweddol sy'n sail i bob un o'r addasiadau neu'r farn amodol a nodwyd ar dudalennau 8 i 11.

| Cyf | Arsylwadau cryno | Newid |
|---|---|---|
| 1 | **Cymunedau yn Gyntaf**<br>• Roedd angen newidiadau er mwyn cywiro'r golofn drosglwyddiadau yn y ffurflen hawlio i adlewyrchu'r symiau a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru; a dileu gwariant o £22.11 i gapio'r cyfanswm a wariwyd i fod yn hafal i gyfanswm y grant a roddwyd. Ni chafodd y newidiadau unrhyw effaith ar y cyfanswm a hawliwyd. **(Argymhelliad 3)** | £0 |
| 2 | **Cymhorthdal Budd-dal Tai**<br>• Nodwyd nifer o newidiadau wrth ardystio'r hawliad hwn. Rydym wedi nodi'r rhain yn fanwl yn y llythyr a anfonwyd ar y cyd â'r hawliad ardystiedig. | £8,050 |
| 3 | **Ardrethi Annomestig Cenedlaethol**<br>• Cafodd y ffurflen hawlio ei newid am nad oedd wedi'i chwblhau'n gywir er mwyn peidio â chynnwys taliadau gohiriedig yn y cofnod yn llinell 1. Dylid bod wedi cynnwys y taliadau gohiriedig yn llinell 2. **(Argymhelliad 1)**<br>• Codwyd pwynt amodol ynglŷn â'r math anghywir o gymorth a roddwyd i sefydliadau. Roedd yr Awdurdod wedi rhoi eithriad yn anghywir yn llinell 11 i un safle hereditament diwydiannol, gyda swm o £2,157.60; a oedd wedi bod yn wag am gyfnod parhaus o fwy na chwe mis. Nododd yr Awdurdod dri eiddo hereditament diwydiannol arall a oedd wedi bod yn wag am gyfnod o fwy na chwe mis, ond, cafodd y rhain eu heithrio'n gywir gan fod gwerth ardrethol yr eiddo islaw'r trothwy o £2,600. **(Argymhelliad 2)** | £0 |

| Cyf | Arsylwadau cryno | Newid |
|---|---|---|
| 4 | **Ffurflen Pensiwn Athrawon**<br>• Roedd angen newid y ffurflen hawlio i gynnwys cyflog cyfrannol, cyfraniadau cyflogwr ac athrawon ar gyfer un unigolyn. Roedd y symiau hyn yn ymwneud â chyflogaeth mewn blynyddoedd ariannol blaenorol nas hawliwyd yn flaenorol am fod y taflenni amser ategol wedi cael eu cyflwyno'n hwyr **(Argymhelliad 2)**<br>• Hefyd, roedd angen newid y dadansoddiad o gyfraniadau cyflogwyr ac athrawon yn adran 3 o'r ffurflen er mwyn ei chysoni â chofnodion y gyflogres. Ni chafodd y newidiadau unrhyw effaith ar falans y cyfraniadau a dalwyd.<br>• Roedd un maes amodol a godwyd yn ymwneud â chyflog cyfrannol. Roedd y ffigur ar y ffurflen wedi cael ei gyfrifo drwy grosio i fyny swm cyfraniadau'r cyflogwr gan nad yw'r system gyflogres a ddefnyddir gan yr Awdurdod yn gallu darparu adroddiad ar gyflogau cyfrannol i ategu'r ffurflen hawlio.<br>• Codwyd pwynt amodol gennym ynglŷn â thaliadau ar gyfrif. Y ffigur arian parod a delir i Bensiynau Athrawon yn ôl cofnodion yr Awdurdod yw £5,042,660 o gymharu â £5,036,858 yn ôl ffurflen EOYCb, a hynny am i £5,802.08 mewn perthynas â'r cyfraniadau sy'n ymwneud â'r newid cyntaf a nodwyd uchod gael ei dalu i Bensiwn Athrawon drwy siec ym mis Mai 2013 ac yna'i dalu eto yn y taliad CHAPS misol drwy gamgymeriad **(Argymhelliad 2)** | £5,802 |
| 5 | **Grant Effeithiolrwydd Ysgolion**<br>• Codwyd pwynt amodol ynglŷn â chynnwys gwariant anghymwys. Nododd ein profion ar brif ddogfennau eitem o wariant nad oedd yn gymwys. Roedd anfoneb gwerth £3,012.35 wedi cael ei chodio'n anghywir yn erbyn llinell o wariant Grant Effeithiolrwydd Ysgolion gan yr ysgol a oedd yn barti yn y trafodyn. Wedyn, nododd yr ysgol wariant cymwys ychwanegol yn hafal i'r gwerth uchod, nad oedd wedi'i gynnwys i ddechrau yn y datganiad o wariant ac mae hynny'n unol â'r cynllun gwariant cynradd. **(Argymhelliad 2)** | £0 |
| 8 | **Dechrau'n Deg** – **Refeniw**<br>• Roedd angen mân newidiadau i'r ffurflen hawlio a oedd yn ymwneud â chyfanswm y dyraniad a gymeradwywyd (i fod yn gyson â gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru) ac i gyfanswm y gwariant cymwys gwirioneddol (i fod yn gyson â'r cyfriflyfr cyffredinol). **(Argymhelliad 3)** | £0.78 |

| Cyf | Arsylwadau cryno | Newid |
|---|---|---|
| 10 | **Teuluoedd yn Gyntaf**<br>• Roedd angen gwneud tri newid i'r ffurflen hawlio. Yn gyntaf, lleihau swm cyfanswm y grant a dderbyniwyd yn llinell 4 o 2 geiniog i £830,621.79 er mwyn adlewyrchu'r symiau a gofnodwyd ar y taliadau a dderbyniwyd; yn ail, symud gwariant o £1,157.93 a oedd yn ymwneud â'r cyfnod hawlio 2012/13 ac a oedd, felly, yn anghymwys ar gyfer 2013/14; ac yn drydydd, cywiro dyraniad cyfanswm y swm a gymeradwywyd rhwng y gwahanol brosiectau a oedd wedi'u cynnwys yn y rhaglen na chafodd unrhyw effaith ar y cyfanswm a hawliwyd **(Argymhellion 1 a 2)** | (£1,157.93) |
| 12 | **Ardal Adfywio Strategol - Grant Eiddo a'r Amgylchedd**<br>• Roedd angen newid y ffurflen er mwyn dileu eitem o wariant gwerth £3,600 a oedd wedi'i gynnwys yn y ffurflen hawlio gan ei fod eisoes wedi'i hawlio yn ffurflen 2012/13. **(Argymhellion 1 a 2)** | (£3,600) |
| 13 | **Teithio am Ddim**<br>• Roedd angen newidiadau mewn perthynas â chostau gweithredwyr a thaliadau ar gyfrif er mwyn bod yn gyson â'r hawliadau chwarterol a'r nodiadau taliadau yn y drefn honno **(Argymhelliad 1)** | (£683.11) |
| 16 | **Cymhorthdal Refeniw Tai**<br>• Nodwyd nifer o newidiadau wrth ardystio'r hawliad hwn. Rydym wedi nodi'r rhain yn fanwl yn y llythyr a anfonwyd ar y cyd â'r hawliad ardystiedig. | (£36,811) |
| 17 | **Llwybrau Dysgu**<br>• Roedd angen newid yr hawliad i gywiro'r symiau yn y golofn gwariant cymwys gwirioneddol yr aethpwyd iddo a'r golofn symiau gwirioneddol a dderbyniwyd, colofnau B a D yn y drefn honno, er mwyn adlewyrchu'r symiau a gofnodwyd yn y cyfriflyfr cyffredinol. Cafodd y symiau a gofnodwyd yn y golofn dyraniad grant a gymeradwywyd (colofn A) eu newid hefyd er mwyn adlewyrchu trosglwyddiadau rhwng prosiectau, yr oedd pob un ohonynt islaw'r trothwy o 15% neu £15,000, y mae angen cymeradwyaeth arnynt yn unol â'r telerau ac amodau. Newidiwyd y golofn hawl i grant i adlewyrchu'r isaf o blith colofnau A a B. **(Argymhelliad 2)**<br>• Nodwyd pwynt amodol ynglŷn â chytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer sefydliadau partner. Er y cadarnhawyd bod cytundebau llofnodedig ar waith, nodwyd bod un partner wedi mynd i wariant cyn i'r cytundeb gael ei lofnodi gan bob parti. **(Argymhelliad 2)** | £0.65 |

| Cyf | Arsylwadau cryno | Newid |
| --- | --- | --- |
| 18 | **Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol**<br>• Roedd angen newid yr adran 6 gywir o'r ffurflen hawlio er mwyn sicrhau cysondeb mewnol ac ni chafodd hyn effaith ar y cyfanswm a hawliwyd. **(Argymhelliad 1)**<br>• Nodwyd pwynt amodol ynglŷn â gweithgarwch y tu allan i'r cyfnod hawlio. Nododd ein profion dair eitem o wariant gwerth £765 sy'n ymwneud â'r cyfnod hawlio 2012/13. Mae'r trafodion hyn yn ymwneud â gofal plant a chostau rheoli a gofnodwyd ym mis Ebrill a mis Mai 2014. Profwyd y pedwar trafodyn arall a oedd yn ymwneud â gofal plant a chostau rheoli ym mis Ebrill a mis Mai 2014 a oedd yn werth £576.84 a nodwyd bod pob un o'r pedwar trafodyn yn ein sampl estynedig hefyd yn ymwneud â'r cyfnod hawlio 2012/13. At hynny, nodwyd gwariant anghymwys arall wrth i ni brofi prif ddogfennau lle y gor-hawliwyd swm o £4.50 ar gyfer traul teithio y filltir. Ni chafodd y gwariant anghymwys hwn effaith ar yr hawl i grant am fod cyfanswm y gwariant yr aed iddo gan yr Awdurdod ar y rhaglen uchod yn ystod y cyfnod hawlio yn £307,807.49, sef gorwariant o £4,534.49 o gymharu â'r gwariant grant cymeradwy o £303,363. **(Argymhelliad 2)** | £0 |
| 19 | **Cronfeydd Strwythruol – Datblygu Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn**<br>• Cafodd pwynt amodol ei gynnwys yn Adroddiad y Cyfrifydd a gyfeiriodd at y ffaith bod yr hawliad ardystiedig wedi cael ei gyflwyno'n hwyr. **(Argymhelliad 4)** | £0 |
| 20 | **Cronfeydd Strwythruol – Cronfa Fuddsoddi Leol Gogledd-orllewin Cymru**<br>• Cafodd pwynt amodol ei gynnwys yn Adroddiad y Cyfrifydd a gyfeiriodd at y ffaith bod yr hawliad ardystiedig wedi cael ei gyflwyno'n hwyr. **(Argymhelliad 4)** | £0 |
| 21 | **Cronfeydd Strwythurol – Seilwaith Strategol ar Safleoedd Ynys Môn**<br>• Cafodd pwynt amodol ei gynnwys yn Adroddiad y Cyfrifydd a gyfeiriodd at y ffaith bod yr hawliad ardystiedig wedi cael ei gyflwyno'n hwyr. **(Argymhelliad 4)** | £0 |
| | **Cyfanswm effaith y newidiadau i'r Awdurdod 2013/14** | **(£28,398.53)** |

| Cyf | Arsylwadau cryno | Newid |
| --- | --- | --- |
| 26 | **Ffurflen Pensiwn Athrawon**<br>• Fel yn 2013/14, codwyd un maes amodol mewn perthynas â chyflog cyfrannol. Roedd y ffigur ar y ffurflen wedi cael ei gyfrifo drwy grosio i fyny swm cyfraniadau'r cyflogwr gan nad yw'r system gyflogres a ddefnyddir gan yr Awdurdod yn gallu darparu adroddiad ar gyflogau cyfrannol i ategu'r ffurflen hawlio.<br>• Codwyd pwynt amodol arall mewn perthynas â chyfraniadau a ddidynnwyd gan ddefnyddio cyfraddau 2013/14. Ar ôl i ni wneud profion ar yr ad-daliadau, nodwyd bod cyfraniadau a ddidynnwyd ym mis Ebrill 2014 mewn perthynas ag un cyflogai ac a gyfrifwyd gan ddefnyddio cyfraddau cyfrannu 2013-14 wedi cael eu cynnwys yn y symiau a gofnodwyd yn ffurflen EOYCb. Roedd y rhain yn cynnwys y symiau canlynol a gyfrifwyd o gyflog pensiynadwy misol o £739.96. Nid yw'r cofnodion hyn yn ymwneud ag ad-daliadau ac felly mae'r ffurflen hawlio wedi cael ei newid i gynnwys cyfraniadau'r cyflogwr o fewn cell 2.a.iv a chyfraniadau'r athro o fewn cell .a.iii. Nid oedd yr Awdurdod yn gallu cadarnhau pam bod cyfraddau cyfrannu 2013-14 athrawon wedi cael eu cymhwyso at gyflog cyfrannol yn y flwyddyn 2014/15. O ganlyniad i'r mater hwn (ynghyd â gwall ar wahân o 61c a gywiriwyd gan yr Awdurdod), mae gwerth yr ad-daliadau a ddatganwyd ar ffurflen EOYCb wedi cael ei newid o £2,347.86 yn y ffurflen wreiddiol i £2,503.38 yn y ffurflen ddiwygiedig. **(Argymhelliad 2)** | £0.61 |
| 32 | **Y Gronfa Trafnidiaeth Leol**<br>• Roedd angen newid y ffurflen gan nad oedd yr Awdurdod wedi cwblhau'r cofnodion ar y ffurflen hawlio yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddwyd. Dylai'r cofnodion fod wedi cael eu datgan fel £'000 yn hytrach na £. **(Argymhelliad 1)** | £0 |
| 35 | **Cronfeydd Strwythruol – Datblygu Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn**<br>• Cynhwyswyd pwynt amodol, a newid a gynigir, a oedd yn ymwneud â'r arwystl anghywir y gwnaed cais amdano wrth brynu tai. **(Argymhelliad 2)** | (£80) |
| 36 | **Cronfeydd Strwythruol – Cronfa Fuddsoddi Leol Gogledd-orllewin Cymru**<br>• Cynhwyswyd pwyntiau amodol, a newidiadau a gynigir, a oedd yn ymwneud â dogfennaeth ategol amhriodol ar gyfer taliadau am set law a galwadau i un swyddog (£315.82) a chynnwys taliad diswyddo a broseswyd y tu allan i'r cyfnod hawlio (£1,653.18) **(Argymhelliad 2)** | (£1,838.15) |
| | **Cyfanswm effaith y newidiadau i'r Awdurdod 2014/15** | **(£1,918.76)** |

# Argymhellion

**9.** Rydym wedi rhoi statws risg i bob argymhelliad ac wedi cytuno ar ba gamau y bydd angen i reolwyr eu cymryd.

| Blaenoriaeth 1 | Blaenoriaeth 2 | Blaenoriaeth 3 |
|---|---|---|
| Materion sy'n hanfodol ac yn berthnasol i'ch trefniadau cyffredinol ar gyfer rheoli grantiau a ffurflenni neu gydymffurfio â gofynion cynlluniau. Credwn y gallai'r materion hyn olygu nad ydych yn cydymffurfio â gofyniad cynllun grant neu nad ydych yn lleihau risg. | Materion sy'n cael effaith bwysig ar eich trefniadau ar gyfer rheoli grantiau a ffurflenni neu gydymffurfio â gofynion cynlluniau, ond nad oes angen cymryd camau ar unwaith yn eu cylch. Efallai eich bod yn cydymffurfio â gofynion cynlluniau'n llawn neu'n rhannol neu eich bod yn lleihau risg yn ddigonol ond erys y gwendid yn y system o hyd. | Materion a fyddai'n gwella eich trefniadau ar gyfer rheoli grantiau a ffurflenni neu gydymffurfio â gofynion cynlluniau yn gyffredinol pe baent yn cael eu cywiro, ond nad ydynt yn hollbwysig i'r system gyffredinol. Materion arfer gorau yw'r rhain ar y cyfan, y teimlwn y byddai'n fuddiol i chi pe baech yn eu cyflwyno. |

| Mater | Goblygiad | Argymhelliad | Blaenoriaeth | Sylwadau | Swyddog cyfrifol a dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|
| Hawliad heb ei baratoi'n gywir<br>E.e.:<br>• Cydymffurfiaeth â nodiadau ar gyfer cwblhau<br>• Cyfraddau dosrannu wedi'u defnyddio | • Efallai y bydd hawliadau'n amodol<br>• Efallai y caiff y grant ei adennill gan Lywodraeth Cymru<br>• Os yw'n amodol bydd angen i unrhyw orhawliad gael ei adennill gan Lywodraeth Cymru<br>• Efallai nad yw'r Awdurdod wedi hawlio'r swm llawn y mae ganddo hawl iddo<br>• Nid yw'r Awdurdod wedi cydymffurfio â thelerau ac amodau grant | A1 Er mwyn cadarnhau bod ffurflenni hawlio wedi'u cwblhau'n llawn ac yn unol â'r canllawiau, dylai pob ffurflen wedi'i chwblhau gael ei gwirio'n annibynol yn erbyn y ddogfennaeth ategol er mwyn lleihau'r risg y bydd gwall heb ei ganfod. | 2 | Caiff pob hawliad grant ei adolygu'n annibynnol gan Gyfrifwyr neu Uwch Gyfrifwyr cyn ardystio yn unol â'r weithdrefn hawlio grant fewnol. Caiff y rhestr wirio hawlio grant ei hadolygu a'i diwygio i gynnig rhestr safonol o wiriadau i'w cynnal gan yr Adolygydd a rhestru'r ddogfennaeth sydd i'w darparu i'r Adolygydd. | Jenny Whiston<br><br>Mehefin 2016 |

| Mater | Goblygiad | Argymhelliad | Blaenoriaeth | Sylwadau | Swyddog cyfrifol a dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant heb ei gymeradwyo/ anghymwys wedi'i gynnwys<br>E.e.:<br>• Gweithgarwch y tu allan i'r cyfnod hawlio<br>• Cytundebau â phartneriaid heb eu llunio'n derfynol | • Efallai y bydd hawliadau'n amodol<br>• Efallai y caiff y grant ei adennill gan Lywodraeth Cymru<br>• Nid yw'r Awdurdod wedi cydymffurfio â thelerau ac amodau grant<br>• Taliad wedi'i atal | A2 Dim ond gwariant cymwys, a hynny yr aed iddo yn ystod y cyfnod hawlio, ddylai gael ei gynnwys yn yr hawliad. Dylid ceisio cyngor Llywodraeth Cymru cyn cwblhau hawliad os oes unrhyw amheuaeth a yw'r gwariant yn gymwys ai peidio. | 2 | Dylai'r gwaith o gynnwys ac adolygu gwariant cymwys / anghymwys gael ei wneud fel rhan o'r broses o lunio ac adolygu hawliadau grant. Os oes amheuaeth a yw'r gwariant yn gymwys ai peidio dylai Rheolwyr Prosiect geisio cyngor gan Lywodraeth Cymru cyn mynd i wariant. | Rheolwyr Prosiect a Chyfrifwyr<br><br>Proses barhaus. |
| Cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru heb ei cheisio<br>E.e.:<br>• Trosglwyddo symiau | • Nid yw'r Awdurdod wedi cydymffurfio â thelerau ac amodau grant | A3 Ceisir cymeradwyaeth y corff sy'n talu'r grant cyn yr archwiliad ar gyfer pob newid angenrheidiol i gynlluniau gweithredu/cynigion. | 2 | Dylid ceisio cymeradwyaeth y corff sy'n talu'r grant ar gyfer newidiadau a throsglwyddiadau o fewn y grantiau cyn i'r newidiadau hyn gael eu rhoi ar waith os yw hyn yn ofynnol o dan delerau ac amodau'r grant. | Rheolwyr Prosiect a Chyfrifwyr.<br><br>Proses barhaus. |

| Mater | Goblygiad | Argymhelliad | Blaenoriaeth | Sylwadau | Swyddog cyfrifol a dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofynion arfer da cyffredinol o ran hawliadau grant heb eu bodloni<br>E.e.<br>• Oedi cyn i hawliadau ddod i law | • Nid yw'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r terfynau amser cyflwyno a nodwyd o dan delerau ac amodau'r grant. | A4 Dylai ffurflenni hawlio gael eu cyflwyno'n amserol er mwyn rhoi amser i hawliadau gael eu hardystio o fewn y terfyn amser a bennwyd. | 2 | Caiff yr amserlen archwilio grantiau ei phennu ymlaen llaw a chaiff yr Archwilwyr a'r Cyfrifwyr eu hysbysu o derfynau amser cyflwyno. Pan fydd oedi na ellir ei osgoi, caiff Llywodraeth Cymru ei hysbysu ymlaen llaw. Dylai pob hawliad gael ei gyflwyno i'r Archwilwyr gan y Rheolwr Grantiau a all fonitro'r sefyllfa gyffredinol a nodi lle y gall oedi ddigwydd. | Jenny Whiston<br><br>Gorffennaf – Medi 2016. |

# Ffioedd

**10.** Mae ein ffi gyffredinol ar gyfer ardystio grantiau a ffurflenni yn unol â'r disgwyliad fel y'i nodwyd yn y cynlluniau rheoleiddio.

| Dadansoddiad o'r ffi yn ôl grant / ffurflen | 2014/15 | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|---|
| Cymunedau yn Gyntaf – Clwstwr Môn | £3,275.25 | £2,027.25 | £16,360.00 |
| Cymhorthdal Budd-dal Tai ** | £35,076.00 | £48,604.50 | £42,746.00 |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | £6,090.75 | £9,216.00 | £9,583.00 |
| Ffurflen Pensiwn Athrawon | £3,945.00 | £4,211.25 | £3,238.00 |
| Grant Effeithiolrwydd Ysgolion | - | £6,246.00 | £8,937.00 |
| Grant Gwella Adeiladau Ysgolion Trosiannol | - | £2,230.50 | £3,048.00 |
| Y Gymraeg mewn Addysg | - | £2,796.00 | £4,040.00 |
| Dechrau'n Deg – Refeniw | £3,144.75 | £3,770.25 | £3,065.00 |
| Dechrau'n Deg – Cyfalaf | £3,032.25 | £3,864.00 | - |
| Teuluoedd yn Gyntaf | £3,032.25 | £6,795.75 | £4,573.00 |
| Ardal Adfywio Straegol – Grant Adnewyddu Cartrefi Gwag i Brynwyr Tro Cyntaf | - | £3,448.50 | £14,879.00 |
| Ardal Adfywio Straegol – Grant Eiddo a'r Amgylchedd | - | £3,558.00 | £4,378.00 |
| Teithio am Ddim | £3,153.00 | £2,634.00 | £2,394.00 |
| Maes Awyr Môn | - | £1,016.25 | £1,031.50 |
| Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy | £3,144.75 | £3,022.50 | £3,224.00 |

| Dadansoddiad o'r ffi yn ôl grant / ffurflen | 2014/15 | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|---|
| Cymhorthdal Refeniw Tai | £4,579.50 | £6,157.50 | £6,053.00 |
| Llwybrau Dysgu | - | £3,665.25 | £2,691.00 |
| Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol | £3,032.25 | £4,200.00 | £2,355.50 |
| Cronfeydd Strwythruol – Datblygu Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn | £5,045.25 | £6,016.50 | £5,879.50 |
| Cronfeydd Strwythruol – Cronfa Fuddsoddi Leol Gogledd-orllewin Cymru | £5,561.25 | £5,700.75 | £7,533.00 |
| Cronfeydd Strwythurol – Seilwaith Strategol ar Safleoedd Ynys Môn | £4,978.50 | £5,700.75 | £7,373.00 |
| **Cyfanswm y ffi** | **£90,132.00** | **£136,647.00** | **£153,381.50** |

** Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r gwaith archwilio ar gyfer hawliad y Cymhorthdal Budd-dal Tai wedi'i gwblhau eto. Y ffi a nodir yn y tabl uchod yw'r swm a anfonebwyd hyd yma.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| **DYDDIAD:** | **26 MAI 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **ARCHWILIAD PWC O GRANTIAU 2013-14 A 2014/15 – YMATEB I'R ARGYMHELLION** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **MARC JONES - PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **GWEITHREDU:** | **ER GWYBODAETH** |

## 1 RHAGARWEINIAD

**1.1** Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion yr ymateb i argymhellion a nodwyd gan PWC yn yr adroddiad 'Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2013/14 a 2014/15'.

## 2 CEFNDIR

**2.1** Mae'n rhaid cynnal archwiliad allanol ar nifer o'r grantiau y mae'r Cygnor yn ei dderbyn. Archwiliwyd 22 o grantiau yn 2013/14 a 15 yn 2014/15. Yn ystod yr archwiliad gellir canfod camgymeriadau y gellir eu datrys un ai trwy newid yr hawliad grant, sy'n arwain at hawliad ardystiedig diamod, neu gamgymeriadau na ellir eu datrys, sy'n arwain at hawliad amodol.

**2.2** Roedd ardystiad o Grantiau a Ffurflenni 2012/13 yn nodi bod 62% o'r ffurflenni wedi cyrraedd erbyn y dyddiad cau, a bod 61% o'r ceisiadau wedi eu hardystio'n amodol. Mae'r adroddiad ar gyfer 2013/14 yn nodi bod 86% o'r hawliadau wedi cyrraedd erbyn y dyddiad cau a bod 36% wedi eu hardystio'n amodol. Yn ystod 2014/15, roedd 67% wedi cyrraedd erbyn y dyddiad cau ac roedd 21% wedi eu hardystio'n amodol (mae gwaith ar un hawliad yn parhau).

**2.3** Er bod y perfformiad cyffredinol wedi gwella gyda nifer yr ardystiadau'n gostwng mae peth lle i wella.

## 3 ARGYMHELLION PWC

**3.1** Mae PWC wedi cyflwyno pedwar argymhelliad i'w gweithredu ac mae'r pwyntiau isod yn amlinellu sut y bydd hynny'n cael ei wneud:-

- A1 – Er mwyn cadarnhau bod ffurflenni hawlio yn cael eu cwblhau'n llawn ac yn unol â chanllawiau, dylid gwirio pob hawliad yn annibynnol, ynghyd â'r ddogfennaeth atodol, a hynny er mwyn lleihau'r risg na fedrir dod o hyd i gamgymeriadau.

- Ymateb – mae pob hawliad yn cael eu llunio a'u hadolygu'n annibynnol eisoes gan Gyfrifydd neu Uwch Gyfrifydd cyn iddynt gael eu hardystio gan y Swyddog Adran 151 neu'r Dirprwy Swyddog Adran 151. Er mwyn cryfhau a safoni'r broses hon, bydd y Rhestr Wirio ar gyfer Hawlio Grantiau a ddefnyddir gan yr Adolygwr yn cael ei diwygio i adlewyrchu rhestr o brofion y dylid eu cynnal, ynghyd â rhestr o ddogfennau megis y Llythyr o Gynnig, printiau o'r cyfriflyfr etc y dylai'r Adolygai eu rhoi i'r Adolygwr i gynorthwyo yn y broses adolygu.

- A2 - Dim ond gwariant cymwys a gafwyd o fewn y cyfnod hawlio y dylid ei gynnwys yn yr hawliad. Dylid ceisio cyngor gan Lywodraeth Cymru cyn cwblhau hawliad ac os oes unrhyw amheuaeth ynghylch a yw'r gwariant yn gymwys am grant. Mae'r gwariant wedi ei gronni a ddim wedi ei wario

- Ymateb – Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch a yw'r gwariant yn gymwys dylid gwirio hynny gyda'r corff dyfarnu grant cyn i'r Awdurdod fynd i unrhyw wariant. Mae materion wedi codi yn hanesyddol gyda gwariant sydd naill ai heb ei gronni ac wedi ei gynnwys felly yn y flwyddyn angyhywir neu lle mae'r gwariant wedi ei gronni a ddim wedi ei wario y flwyddyn ganlynol. Bydd cymhwyster y gwariant a'r croniadau yn rhan o'r profion safonol a gynhwysir yn y Rhestr Wirio ar gyfer Hawlio Grantiau y cyfeirir ato uchod.

- A3 - Gofynnir am gymeradwyaeth gan y corff sy'n talu'r grant cyn yr archwiliad ar gyfer yr holl newidiadau y mae angen eu gwneud i gynlluniau gweithredu / cynigion.

- Ymateb – Os oes angen cymeradwyaeth ar gyfer newidiadau o fewn grantiau fel rhan o delerau ac amodau'r grant, dylai'r Rheolwyr Prosiect ofyn am gymeradwyaeth ymlaen llaw. Dylai Cyfrifwyr ofyn am gadarnhad o gymeradwyaeth gan Reolwyr Prosiect cyn gweithredu newidiadau.

- A4 - Dylid cyflwyno ffurflenni hawlio ar sail amserol fel bod modd ardystio hawliadau o fewn y terfynau amser a osodwyd.

- Ymateb – Bydd yr amserlen ar gyfer archwilio grantiau yn cael ei sefydlu ymlaen llaw gyda'r Archwilwyr a rhoddir gwybod i'r Cyfrifwyr am y dyddiadau cau. Os bydd oedi nad oes modd ei osgoi, rhaid hysbysu LlC o flaen llaw. Dylai pob cais gael ei gyflwyno i'r Archwilwyr gan y Rheolwr Grantiau yn uniongyrchol a gall ef / hi wedyn fonitro'r sefyllfa gyffredinol, nodi lle gall oedi ddigwydd a chymryd camau i atal hynny. Dylid cyflwyno hawliadau yn electronig ac ar ffurf copi caled i'r Archwilwyr. Dylai'r cyfrifwyr, yn amodol ar argaeledd ffurflenni hawlio gan Lywodraeth Cymru, lunio ac adolygu ffurflenni hawlio grant cyn gynted â phosibl er mwyn atal oedi munud olaf.

**3.2** Er bod rhaid cydymffurfio â rhai o'r argymhellion hyn yn barhaus yn ystod y flwyddyn, bydd A1 yn weithredol erbyn mis Mehefin mewn da bryd ar gyfer hawliadau chwarter 1.

**MARC JONES**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** **MAI 5, 2016**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| **DYDDIAD:** | **26 MAI 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **ADOLYGU PENODIADAU AELODAU ANNIBYNNOL** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **PENDERFYNU AR Y BROSES AR GYFER PENODI AELODAU ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **MARC JONES - PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **GWEITHREDU:** | **AR GYFER PENDERFYNIAD** |

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Mae'r adroddiad hwn yn gofyn i'r Pwyllgor benderfynu a yw'n dymuno ailbenodi'r ddau aelod annibynnol sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor ar hyn o bryd am ddwy flynedd arall, ynteu a ddylai'r Awdurdod geisio penodi dau aelod newydd.

## 2. GWYBODAETH GEFNDIR

**2.1** Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mae'n rhaid i Bwyllgorau Archwilio awdurdodau lleol, a hynny am y tro cyntaf, gynnwys o leiaf un Aelod Annibynnol o fis Mai 2012. Mae'r Canllawiau Statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2012 yn datgan "yr argymhellir na ddylid penodi aelod lleyg am fwy na dau dymor llawn awdurdod lleol".

**2.2** Penodwyd y ddau Aelod Annibynnol cyfredol ar 1 Gorffennaf 2012 am gyfnod cychwynnol o ddwy flynedd.

**2.3** Yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2013, ystyriodd y Pwyllgor y trefniadau cyfredol a phenderfynodd fel a ganlyn:-

***"Penderfynwyd:- ymestyn y trefniadau presennol gyda'r Aelodau Annibynnol cyfredol o fis Gorffennaf 2014 am ddwy flynedd arall".***

**2.4** O gofio bod yr estyniad hwn o ddwy flynedd yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2016 mae angen gwneud penderfyniad pellach yn awr ar benodi Aelodau Annibynnol.

## 3. OPSIYNAU SYDD AR GAEL

**3.1** Mae'r ddau Aelod Annibynnol cyfredol wedi bod yn gwasanaethu ar y Pwyllgor am gyfnod o bedair blynedd ac, yn ystod yr amser hwnnw maent wedi ennill gwybodaeth helaeth am y Cyngor a rôl y Pwyllgor Archwilio ym mhroses lywodraethu gyffredinol y Cyngor. Pe bai eu penodiad yn dod i ben, byddai'r Cyngor yn colli'r wybodaeth a'r profiad hwn.

**3.2** Fodd bynnag, rôl yr Aelod Annibynnol yw dod â phrofiadau amgen i'r Pwyllgor, o'r tu allan i lywodraeth leol, ac mae penodi aelodau newydd yn rheolaidd yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael persbectif newydd ar y materion a ystyrir a gallai hynny fod o fudd i'r Pwyllgor.

**3.3** Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi y bydd Aelodau Annibynnol y Pwyllgor yn cael eu penodi gan y Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a hynny am gyfnod penodol i'w benderfynu ganddynt pan fydd y penodiad yn cael ei wneud. Nid yw'r Cyfansoddiad yn cyfyngu hyd y tymor sefydlog. Mae'r gofynion hyn wedi eu cynnwys yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor. Y tro diwethaf i'r Cylch Gorchwyl gael ei adolygu gan y Pwyllgor oedd ar 9 Chwefror 2015.

**3.4** Mae gan y Cyngor ei hun dymor diffiniedig, h.y. rhwng pob etholiad. Mae manteision hefyd o ran diffinio hyd penodiad yr Aelod Annibynnol i gyd-fynd â thymor y Cyngor a bod pob Aelod Annibynnol yn gwasanaethu am un tymor o bum mlynedd. Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu mabwysiadu hyn fel polisi ar gyfer hyd aelodaeth Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio, byddai angen ymgorffori'r newid yng Nghyfansoddiad y Cyngor a byddai angen i'r Cyngor Llawn ei gymeradwyo.

## 4 ARGYMHELLIAD

**4.1** Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y canlynol:-

1. Pennu cyfnod sefydlog ar gyfer hyd gwasanaeth Aelodau Annibynnol ar y Pwyllgor a bod y cyfnod hwnnw'n cyd-fynd â'r amser rhwng etholiadau'r Cyngor, h.y. 5 mlynedd, a phenderfynu a fedr aelodau wasanaethu am fwy nag un tymor, naill ai yn olynol neu ar unrhyw adeg.

2. Os cymeradwyir pwynt 1 uchod, ystyried ymestyn penodiad y ddau aelod cyfredol hyd at fis Mai 2017.

3. Os na chymeradwyir pwynt 1 uchod, penderfynu a ddylid ymestyn penodiad yr aelodau presennol am gyfnod pellach (i'w benderfynu gan y Pwyllgor) ynteu hysbysebu am ddau aelod annibynnol newydd a fydd yn dechrau eu tymor gwasanaeth ym mis Gorffennaf 2016 am gyfnod i'w benderfynu gan y Pwyllgor.

**R MARC JONES**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN151** **5 MAI 2016**

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***Teitl yr Adroddiad: Cofrestr Risg Corfforaethol***
***Title of Report: Corporate Risk Register***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

Paragraff(au) Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972
Paragraph(s) 14 Schedule 12A Local Government Act 1972

[un neu fwy o /one or more of 12,13,14,15,16,17,18,18A,18B,18C]

Y PRAWF – THE TEST

| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:- | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:- |
|---|---|
| Mae'r mater yn ymwneud â materion busnes y Cyngor.<br><br>The matter concerns the business affairs of the Council. | Mae'r mater yn cyfeirio at materion busnes y Cyngor a all niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, ariannol ac yn gyfreithlon.<br><br>The matter refers to the business affairs of the Council which could prejudice the interests of the Council commercially, financially and legally. |

Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/~~llai o bwys~~ na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]

Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/~~does not outweigh~~ the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate]

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank